Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA / Solace "Delivering Good Governance in Local Government". Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r cod a hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 4(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad rheolaeth fewnol.

## 2. Pwrpas y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio ac yn rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu ag, ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi'i ddylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion; gall felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod ac yn blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i werthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hynny gael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

### 3. Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys saith egwyddor i lywodraethu'n dda:

- **Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- **Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr
- **Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- **Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir
- **Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo
- **Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy gyfrwng rheolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref
- **Egwyddor 7:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn datblygu ac yn gweithredu ei gynllunio corfforaethol strategol trwy fabwysiadu:

- Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri);
- Cynllun Datblygu Lleol Eryri;
- Cynllun Corfforaethol; a
- Rhaglen Waith Corfforaethol.

Mae'r 4 dogfen yma yn cynrychioli conglfaen gwaith yr Awdurdod wrth gyflawni ei brif bwrpasau, fel y diffinnir yn Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac wrth weithredu ei weledigaeth.

#### Strwythur Llywodraethu

Mae strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn cynnwys 4 prif bwyllgor:

- Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda 18 o Aelodau a benodwyd, ac yn ystod 2020/21 cynhaliwyd 8 cyfarfod.

- Cynhaliwyd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 3 gwaith yn ystod 2020/21. Fel rhan o'i gylch gwaith mae'n ymgymryd â swyddogaethau pwyllgor archwilio yn unol â gofynion CIPFA.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad 7 gwaith yn ystod 2020/21. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod.
- Cynhaliwyd y Pwyllgor Safonau'r Awdurdod unwaith yn ystod 2020/21. Mae aelodaeth y pwyllgor, sydd gyda gylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau, yn cynnwys 3 Aelod o'r Awdurdod a 3 aelod annibynnol.

Mae'r Rheolau Sefydlog yr Awdurdod (a gyhoeddwyd ar y wefan) yn rhoi disgrifiad manwl o'r trefniadau ar gyfer pob pwyllgor. Ar gyfer pob pwyllgor, mae'r rhaglen, cofnodion ac adroddiadau cysylltiedig â phapurau cefndir i gyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

### Tîm Rheoli

Mae strwythur rheoli'r Awdurdod yn cynnwys y Prif Weithredwr (sydd hefyd yn 'Swyddog y Parc Cenedlaethol' ac yn Bennaeth y Gwasanaeth Taledig) a dau Gyfarwyddwr. Mae Tîm Rheoli'r Awdurdod yn cyfarfod bob pythefnos, gyda'r Pennaeth Cyllid a Phennaeth Personél yn mynychu.

### Safonau

Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Ymddygiad i Aelodau, sy'n cynnwys adran sy'n cyfeirio'n benodol at fuddiannau a Chofrestr Buddiannau Aelodau. Y Cod Ymddygiad i staff yw'r cod ymddygiad safonol cenedlaethol ar gyfer cyflogaion awdurdodau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisiau a gweithdrefnau canlynol ar gyfer cynnal safonau uchel o ymddygiad ar gyfer staff ac Aelodau, ac i sicrhau atebolrwydd tuag at y cyhoedd:

- Y Drefn Gwyno – wedi'i sefydlu ar fodel drefn cwynion ymarfer da gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Polisi Seinio Rhybudd - i alluogi staff i leisio pryderon difrifol yn hyderus gyda'r sicrwydd o wybod y ceir eu hymchwilio yn drwyadl ac mewn ffordd deg, heb ofni dial;
- Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth - yn cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i rwystro unrhyw weithred o dwyll neu lygredigaeth, a pha gamau y dylid eu cymryd petai ryw beth o'r fath yn digwydd; ac y
- Cynllun Dirprwyo - yn amlinellu sut mae swyddogaethau'r Awdurdod llawn yn cael eu cyflawni trwy ddirprwyo i'w bwyllgorau a'i is-bwyllgorau

### Rheoli Risg

Mae Polisi a Strategaeth Rheoli Risg wedi'i sefydlu. Caiff y broses o adnabod risgiau ei chydlynu gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer, gyda mewnbwn gan y Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r Gofrestr Risg a'r mesurau lliniaru yn cael eu hadolygu a'i ddiweddarau'n chwarterol.

### Archwiliad Mewnol

Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system o drefniadau rheolaeth a llywodraethu mewnol yn cael ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol, a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd. Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth leol yn y DU. Mae'r Rheolwr Archwilio Mewnol yn paratoi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi canlyniadau gwaith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn.

### Archwiliad Allanol

Swyddfa Archwilio Cymru sy'n gweithredu fel archwilydd allanol i'r Awdurdod, ac felly sy'n adrodd ar reolaeth ariannol a pherfformiad yr Awdurdod. Yn ogystal, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi barn ar ddigonolrwydd y gwaith archwilio mewnol.

### Swyddog Monitro

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi'i enwebu fel Swyddog Monitro. Mae gan y Swyddog Monitro'r ddyletswydd benodol i sicrhau bod Aelodau a benodwyd a Swyddogion yr Awdurdod yn cynnal y safon uchaf o ymddygiad ym mhopeth a wnânt. Mae'r Swyddog Monitro yn cynghori ar drefn gyfansoddiadol a chyfreithlondeb gweithredoedd yr Awdurdod.

### Rheolaeth Ariannol

Mae trefniadau rheolaeth ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (2010). Y Prif Swyddog Cyllid (Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd) yw'r swyddog sydd â chyfrifoldebau o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## **4. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Gymerwyd yn ystod y Flwyddyn**

Mae'r Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd craidd ar yr Awdurdod i osod amcanion lleisiant sy'n maxsimeiddio ein cyfraniad at gyflawni'r 7 nodau lleisiant a osodwyd yn y Ddeddf. Dylai amcanion lleisiant yr Awdurdod fod yn amcanion ar gyfer newid yn y tymor hir.

Hefyd, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi cynllun gwella, sy'n nodi ei drefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau trwy gyfrwng yr amcanion gwella, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru). Fodd bynnag, ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21, cafodd y Mesur ei ddad-gymhwyso i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Lleol Unedol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Felly, roedd yr amcanion llesiant y cytunwyd arnynt gan yr Awdurdod hefyd yn gweithredu (am y tro olaf) fel yr amcanion gwelliant ar gyfer 2020/21.

Gan nad oedd yr union ddyddiad pan fuasai'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn cael ei ddad-gymhwyso yn hysbys ar y pryd, cafodd amcanion llesiant (ac amcanion gwella) yr Awdurdod eu hymestyn heb newid ar gyfer 2020/21 gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 11eg o Ragfyr 2019, sef:

1. [Ein Cymunedau](#)

Gweithio gyda'n cymunedau i ddatblygu lles economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Eryri.

2. [Cynlluniau a Pholisïau](#)

Adolygu a gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Cynllun Eryri) a sicrhau bod egwyddorion Lles Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi'u hintegreiddio'n llawn i waith yr Awdurdod.

3. [Iechyd a Lles](#)

Cydnabyddir Parc Cenedlaethol Eryri fel ardal, sy'n cyfrannu at les corfforol a meddyliol y genedl.

4. [Pobl, Lleoedd a Phartneriaid](#)

Dros y pum mlynedd nesaf rydym am anelu at hyrwyddo'r cyfleoedd i weithio gyda phobl, gwirfoddolwyr a phartneriaid mewn ffordd gydweithredol. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau i gyfrannu at werthfawrogi a rheoli'r hyn sy'n gwneud Eryri yn werthfawr ac yn arbennig.

5. [Cydbwyso ein Hadnoddau a'n Hymdrechion](#)

Mae'r Awdurdod yn targedu ei adnoddau i gyflawni ei flaenoriaethau o fewn yr adnoddau llai sydd ar gael.

Bydd angen gweithredu i gwrdd â'n nodau llesiant mewn modd cynaliadwy. Mae datblygu cynaliadwy yn golygu pum gofyniad allweddol, sef:

1. Tymor Hir - pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion tymor hir, yn enwedig lle mae'r pethau a wneir i gwrdd ag anghenion tymor byr yn gallu cael effeithiau tymor hir niweidiol.
2. Integreiddio - sut y gall ein nodau llesiant effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, sut y gall y nodau llesiant effeithio ar ei gilydd neu ar nodau llesiant cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig lle y gallai camau a gymerwyd gennym i gyfrannu at gwrdd ag un amcan fod yn niweidiol o ran cwrdd ag un arall.
3. Cynnwys - pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, ac i sicrhau bod yr unigolion hynny yn adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru neu ardal ddaearyddol yr Awdurdod.

4. Cydweithio - Gallai gweithredu ar y cyd ag unrhyw unigolyn (neu'r modd y mae gwahanol rannau o'r Awdurdod yn gweithredu gyda'i gilydd) gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei nodau llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion.
5. Atal - i ystyried sut y gall defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd, neu waethygu, gyfrannu at gwrdd â nodau llesiant yr Awdurdod, neu amcanion corff arall.

O ganlyniad i bandemig Covid-19 a'r llwyrglo cenedlaethol ar ddiwedd mis Mawrth 2020, ataliwyd cyfarfodydd pwyllgor dros-dro tra bod platfform rhithiol addas ac effeithiol yn cael ei sefydlu. O ganlyniad, ni fabwysiadwyd y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2020/21 gan yr Awdurdod tan ei gyfarfod ar y 3ydd o Fehefin 2020.

Er bod amcanion llesiant craidd yr Awdurdod (fel yr amlinellwyd uwchlaw) yn parhau heb newid; gwnaed newidiadau i rai blaenoriaethau gwasanaeth a gweithgareddau cysylltiol i adlewyrchu blaenoriaethau newydd a gweithredoedd lliniaru o ganlyniad i'r pandemig.

Yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2020/21 i'w chymeradwyo gan yr Aelodau. Mae'r Rhaglen yn gosod y prosiectau, cynlluniau a chamau gweithredu penodol yr ymgwymerir â hwy er mwyn cyflawni amcanion llesiant a gwelliant yr Awdurdod, ac unwaith eto roedd hwn yn cynnwys newidiadau i rai gweithgareddau gwaith i adlewyrchu'r gofynion ddaeth i'r amlwg o'r pandemig.

Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi'i adrodd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 18fed o Dachwedd 2020 ac y 24ain o Fawrth 2021. Mae'r adroddiad blynyddol llawn ar y Rhaglen Waith Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf 2021.

## **5. Effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu**

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn gyfrifol am gynnal, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwr uwch o fewn yr Awdurdod, sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu ac arolygiaethau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn seiliedig ar y saith egwyddor o'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.



**Egwyddor 1:** Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf tuag at werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

<p><b>Cod Llywodraethu Corfforaethol</b></p>	<p>Cynhaliwyd yr adolygiad olaf o'r Cod ym mis Chwefror 2018 gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, a chafodd ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo.</p> <p>Mân newidiadau yn unig a gafodd ei wneud i'r Cod, a diweddarau'r derminoleg fu hynny'n bennaf. Yr unig newid sylweddol a wnaed oedd sicrhau bod y Cod diwygiedig bellach yn cynnwys yr Egwyddor Datblygiad Cynaliadwy a'r Nodau Llesiant fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.</p> <p>Nid yw'r Cod Llywodraethu Corfforaethol wedi bod yn destun adolygiad ychwanegol ers hyn, ac nid oes unrhyw faterion penodol wedi codi yn ymwneud â'r Cod ei hun yn ystod 2020/21.</p>
<p><b>Pwyllgor Safonau</b></p>	<p>Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn ar y 16eg o Hydref 2020.</p> <p>Yn ystod y cyfarfod rhoddwyd ystyriaeth i nifer o faterion gan gynnwys caniatáu goddefebau i Aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.</p> <p>Adolygwyd Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2019/20 gan yr Aelodau hefyd, a chynghorwyd ar y datblygiadau a oedd yn berthnasol i'r Awdurdod hwn.</p> <p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Cwynion Blynyddol i'r Pwyllgor Safonau hefyd, er gwybodaeth.</p>
<p><b>Polisi Seinio Rhybudd</b></p>	<p>Ymgwymerwyd â'r adolygiad manwl olaf gan y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2016, gyda'r newidiadau a oedd yn deillio o hynny yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2016.</p> <p>Yn ystod 2020/21, ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ac ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod o dan y Polisi Seinio Rhybudd.</p>
<p><b>Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth</b></p>	<p>Yn ystod 2020/21 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion honedig o dwyll neu lygredigaeth mewn perthynas â unrhyw Aelod neu Swyddog o'r Awdurdod, ac ni adnabuwyd unrhyw feysydd sy'n peri pryder gan yr Archwilwyr Mewnol yn ystod eu gwaith archwilio.</p>

<b>Model Cod Ymddygiad</b>	Yn ystod 2020/21, ni fu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol.
<b>Cwynion – Swyddogion</b>	Yn ystod 2020/21 derbyniodd yr Awdurdod gyfanswm o 7 cwyn ffurfiol.  Ni fu'r Awdurdod yn destun ymchwiliad ffurfiol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2020/21.
<b>Cwynion – Aelodau</b>	Yn ystod 2020/21, ni dderbyniodd Swyddog Monitro'r Awdurdod unrhyw gwynion ffurfiol yn ymwneud â'r Aelodau, a ni chyflwynwyd unrhyw gwynion yn uniongyrchol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
<b>Rheolau Sefydlog</b>	Adolygwyd a diwygiwyd y Rheolau Sefydlog diwethaf gan yr Awdurdod ar y 26ain o Ebrill 2017, yn dilyn derbyn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiad) 2017.  Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod 2020/21 mewn perthynas â chydymffurfiaeth yr Awdurdod gyda'i Reolau Sefydlog.
<b>Cynllun Dirprwyo</b>	Cafodd y Cynllun Dirprwyo ei adolygu a'i newid ddiwethaf gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 13eg o Ragfyr 2017.  Yn ystod 2020/21 ni chodwyd unrhyw fater ynglŷn â gweithrediad y Cynllun.
<b>Cofrestr Buddiant / Diddordebau Aelodau</b>	Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi gofyniad ar yr Awdurdod i gyhoeddi'r Gofrestr gyfredol o Ddiddordebau / Fuddiant Aelodau ar wefan yr Awdurdod.  Mae'n gyfrifoldeb ar bob Aelod o'r Awdurdod i ddiweddarau eu cofnod buddion/diddordebau ac i adrodd ar unrhyw newidiadau mewn modd amserol. Serch hynny, mae'r Swyddog Gwasanaethau Aelodau yn anfon copi o'u cofnod cyfredol i bob Aelod ar ôl bob Cyfarfod Blynyddol o'r Awdurdod, ac yn gofyn iddynt eu hadolygu a'i diweddarau os yn berthnasol.

	Yn ystod 2020/21, ni fu i unrhyw faterion na chwynion godi mewn perthynas â'r Gofrestr o Ddiddordebau / Buddion Aelodau.
--	--

**Egwyddor 2:** Sicrhau ein bod yn agored ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy gyfrwng dull cynhwysfawr

<p><b>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</b></p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed Tachwedd 2020.</p> <p>Adroddwyd ar gynnydd yr Awdurdod gyda'i gynllun gweithredu o ran cyrraedd ei Amcanion Cydraddoldeb, ynghyd â'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yr ymgwymerwyd â hwy yn ystod y flwyddyn, data monitro cyflog cyfartal a data cydraddoldeb staff.</p> <p>O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd bob 4 mlynedd.</p> <p>Roedd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd yr Awdurdod ar gyfer 2020-24 i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 25ain Mawrth 2020, ond bu raid canslo oherwydd y llwyr glo Covid-19. Cafodd y Cynllun ei fabwysiadu wedi hynny ar y 15fed o Orffennaf 2020 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.</p>
<p><b>Ymgynghori Uniongyrchol</b></p>	<p>Yn ystod blwyddyn na welwyd mo'i thebyg o'r blaen, bu'n rhaid i'r Awdurdod ddod o hyd i atebion newydd ac arloesol i'w alluogi i barhau â rhai agweddau ar ei waith yn effeithiol. Mae datblygu atebion ar-lein priodol ac effeithiol i alluogi cyfathrebu uniongyrchol, ymgynghori ac ymgysylltu wedi bod yn un o'r meysydd hyn.</p> <p>Yn ystod 2020/21 mae'r Awdurdod wedi ceisio parhau i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol trwy amryw o ffyrdd, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd a gweithdai ar-lein. Er bod cyfarfodydd Fforwm Eryri, y Grŵp Cyswllt Amaeth Blynyddol, ac Asiantwyr Cynllunio Blynyddol i enwi ond ychydig, wedi cael eu cynnal yn rhithiol, nid yw rhai wedi digwydd (Nosweithiau Agored y Cyngor Tref a Chymuned) neu fe gynhaliwyd nifer llai o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn. (Fforymau Mynediad y Gogledd a'r De).</p>

	<p>Fodd bynnag, y tu allan i'r ymgynghoriadau uniongyrchol arferol ar fusnes yr Awdurdod sydd wedi digwydd h.y. Canllawiau Cynllunio Atodol newydd, Amcanion Lles Drafft ac ati, mae ymgysylltu hefyd wedi digwydd gyda chymunedau lleol er mwyn galluogi i wybodaeth gael ei rhannu ac i roi cyfle i bobl roi eu barn am nifer o heriau y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau wedi'u hwynebu oherwydd Covid-19.</p> <p>Wrth i'r llwyrglo cyntaf gael ei lacio'r haf diwethaf, cynhaliwyd ymgysylltiad â chymunedau lleol ar ailagor a'r problemau anochel y gellid eu rhagweld yn sgil mewnlifiad torfol o ymwelwyr i'r ardal. Ers hynny, mae Partneriaeth Yr Wyddfa wedi cynyddu eu gwaith ar ddatblygu Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth Gynaliadwy, gan adeiladu ar y profiad a'r gwersi a ddysgwyd o weithredu mesurau mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill yn ystod Haf 2020. Cynhaliwyd gweithdai cymunedol ar-lein ar ddechrau 2021 i ddatblygu atebion ar gyfer y tymor sydd i ddod, ac yna gwnaed gwaith ymgysylltu pellach gyda rhai cymunedau a oedd wedi codi pryderon. Bydd y gwaith ymgysylltu yn parhau ar gyflymder yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.</p>
<p><b>Strategaeth Ymgysylltu</b></p>	<p>Mae cyfathrebu ac ymgysylltu yn elfen hanfodol ym mhopeth y mae'r Awdurdod yn ei wneud. Mae hefyd yn faes lle mae yna wastad lle i wella, ac mae strategaeth yr Awdurdod yn adlewyrchu hyn.</p> <p>Mae datblygiadau technolegol cyflym a'r twf parhaus mewn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a lefelau cyfranogi yn golygu bod angen i'r Awdurdod ganolbwyntio'n llawn ar gyfathrebu'n effeithiol trwy'r sianeli cywir ar yr adeg iawn gydag ystod eang o gynulleidfaoedd. Mae hyn wedi bod yn amlwg iawn dros y flwyddyn ddiwethaf, lle bu cyfathrebu ac ymgysylltu clir a diamwys wedi bod yn hanfodol.</p> <p>Nid yw'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth newydd wedi gwneud cynnydd yn unol â'r amserlen wreiddiol oherwydd y pwysau gwaith adweithiol sydd wedi bod ar y gwasanaeth ers dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r Strategaeth nawr ar ei ffurf ddrafft terfynol yn dilyn proses ymgynghori trylwyr a'r newidiadau a ddeilliodd o hynny, a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau i'w chymeradwyo ac i'w mabwysiadu'n derfynol pan ddaw'r cyfle nesaf.</p>

	<p>Mae'r gwaith o ddatblygu gwefan newydd i'r Awdurdod yn mynd rhagddo. Penodwyd Rheolwr Cynnwys a Brand ym mis Gorffennaf 2020. Parhawyd gyda'r gwaith o ddatblygu a chwblhau dogfen dendro a manyleb gynhwysfawr ar gyfer y wefan newydd, ac fe gyhoeddwyd y tendr fis Tachwedd 2020.</p> <p>Daeth 31 o dendrau i law a chanran uchel ohonynt o ansawdd uchel iawn a oedd yn mynd i'r afael ag anghenion yr Awdurdod mewn modd hyderus a chreadigol. Dyfarnwyd y gwaith o ddatblygu'r wefan i gwmni Creo o Gaerdydd.</p> <p>Dechreuwyd ar y gwaith o gynhyrchu'r wefan ym mis Mawrth 2020 gan ddechrau gyda chyfnod archwilio. Cynhaliwyd cyfres o weithdai gydag aelodau staff yr Awdurdod ar faterion a oedd o bwys i'r Awdurdod yng nghyd-destun y wefan - materion megis rheolaeth ymwelwyr, llwybrau a hyrwyddir a mapio digidol.</p> <p>Erbyn hyn, mae'r cyfnod archwilio yn agosáu at ei therfyn a bydd Creo yn symud ymlaen at gam nesaf y gwaith sef y cyfnod dylunio.</p>
<p><b>Datganiad Lles</b></p>	<p>Mae Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gyhoeddi Datganiad Lles yn nodi sut y mae ei amcanion lles yn cyfrannu at Nodau Lles Llywodraeth Cymru a sut y bydd yn ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ym mhopeth mae'n ei wneud.</p> <p>Mae Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2020/21 yn cynnwys Datganiad Lles a Blaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn, mae'r gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu Amcanion Lles newydd fel rhan o'r gwaith i ddatblygu Datganiad Lles i'r Awdurdod ar gyfer y cyfnod 2021-26.</p> <p>Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu tri maes canlyniad, ac fe'u cymeradwywyd gan yr Aelodau i ymgynghori'n anffurfiol arnynt dros yr haf. Ystyriwyd ymatebion i'r ymgynghoriad gan yr Aelodau mewn cyfarfod o'r Gweithgor Aelodau, ac o ganlyniad datblygwyd Amcanion Llesiant drafft, ac fe gymeradwywyd y rhain gan yr Aelodau yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 11eg o Dachwedd 2020.</p>

	<p>Yn dilyn cyfnod ymgynghori ffurfiol, cymeradwywyd a mabwysiadwyd y Datganiad Llesiant ac Amcanion Llesiant ar gyfer 2021-26 yn ffurfiol gan yr Aelodau mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 24ain o Fawrth 2021.</p>
<p><b>Rhyddid Gwybodaeth</b></p>	<p>Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiol y Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi cyhoeddi canllaw ar wybodaeth, ac mae'r ddau ohonynt ar gael ar y wefan.</p> <p>Yn ystod 2020, derbyniwyd 33 o geisiadau, ac o'r rhain fe dderbyniodd 24 yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani (73%).</p> <p>Cafwyd Rhybudd o Benderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar y 30ain o Fedi 2020 yn ymwneud â chais a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019 i gael mynediad at gyngor cyn cyflwyno cais cynllunio ar ddatblygiad tai arfaethedig.</p> <p>Ar yr adeg pan gafodd y cais ei gyflwyno, nid oedd unrhyw gais cynllunio ffurfiol wedi cael ei gyflwyno gan y datblygwr. Gwrthodwyd y cais ar y sail y dylai unrhyw un allu ymofyn cyngor gan yr Awdurdod hwn mewn modd cyfrinachol ar gyfer eu cynigion drafft. Roedd y datblygwr wedi talu swm sylweddol o arian am y cyngor, ac ar yr adeg hynny roedd y wybodaeth yn fasnachol sensitif.</p> <p>Dywedwyd wrth yr ymgeisydd pe bai cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno y buasai'r wybodaeth yn cael ei gwneud yn gyhoeddus. Cadarnhaodd y Comisiynydd Gwybodaeth benderfyniad yr Awdurdod i wrthod mynediad at y wybodaeth.</p> <p>Cafwyd ail Rybudd Penderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar yr 28ain o Hydref 2020, ac unwaith eto cadarnhawyd penderfyniad yr Awdurdod i wrthod mynediad at y wybodaeth.</p> <p>Roedd y gŵyn mewn perthynas â mynediad at gyngor cyfreithiol a dderbyniwyd gan yr Awdurdod am gais cynllunio NP2/62/399 Ffordd Mynediad Llanbedr. Gwrthodwyd mynediad at y cyngor hwn gan ei fod yn cael ei ystyried yn fraint broffesiynol gyfreithiol o dan Reoliad 12(5)(b) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.</p>

	<p>Cydnabu'r Awdurdod bod yna ddiddordeb cyhoeddus mewn datgeliad a fuasai'n hyrwyddo dadl gyhoeddus mewn perthynas â chynigion sy'n effeithio'r gymuned. Byddai rhyddhau'r cyngor yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at hyrwyddo dealltwriaeth a rhoi mewnwelediad i'r cyhoedd ynghylch ymagwedd yr Awdurdod gyda'r cais cynllunio hwn.</p> <p>O ran yr Awdurdod ei hun, mae'n hanfodol ei fod yn gallu cael cyngor cyfreithiol llawn a gonest trwy ddull diogel, i gynorthwyo Swyddogion i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Barn yr Awdurdod oedd nad oedd digon o ddadleuon a oedd a wnelo budd / diddordeb cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth hon a fyddai'n gorbwyso cryfder y ddadl wrth gynnal Braint Gyfreithiol Broffesiynol, sy'n parhau i fod yn gonglfaen sylfaenol i weinyddu cyfiawnder yn y DU.</p> <p>Cytunodd y Comisiynydd a daeth i'r casgliad bod y budd / diddordeb cyhoeddus o gynnal yr eithriad yn gorbwyso'r budd/ diddordeb cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth.</p>
<p><b>Rhaglenni Pwyllgorau ac Adroddiadau Cysylltiedig</b></p>	<p>Mae rhaglenni ac adroddiadau cysylltiedig Pwyllgorau'r Awdurdod yn cael eu cyhoeddi ar y wefan o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod.</p> <p>Mae archif o raglenni a dogfennau cysylltiedig o bwyllgorau'r gorffennol hefyd ar gael ar y wefan.</p>

**Egwyddor 3:** Diffinio canlyniadau yn nhermau'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

<p><b>Cynllun Partneriaeth y Wyddfa</b></p>	<p>Cyflwynodd Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa'r adroddiad cynnydd ar y prosiectau o fewn Cynllun Yr Wyddfa, i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 18fed o Dachwedd 2020.</p> <p>Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhoi diweddariad ar y system beilot ym mis Awst 2020 i rag-archebu parcio ym Mhen y Pass, lansiad Ap ym mis Gorffennaf 2020 a alluogir gan GPS sy'n cwmpasu'r 6 brif lwybr i fyny'r Wyddfa, Cynllun Llysgenhadon Eryri, datblygiad ymgyrch sbwriel gyda Chymdeithas Eryri, a datblygiad Cynllun Cyfathrebu ar gyfer y Bartneriaeth.</p> <p>Wrth i'r llwyrglo gael ei lacio a'r cyfyngiadau ar deithio rhynglwadol aros yn eu lle dros yr haf diwethaf, roedd hyn yn golygu bod y niferoedd o ymwelwyr a ddaeth i Eryri, ac yn benodol i ardal Yr Wyddfa, wedi bod yn ddi-gynsail. Mae'r pandemig wedi dwysáu'r problemau cronig a oedd eisoes yn bodoli, ac wedi rhoi pwysau ychwanegol ar Bartneriaeth Yr Wyddfa i gynyddu cyflymder datblygiad atebion cynaliadwy ac arloesol i'r problemau cyfredol.</p> <p>Mae manylion sydd eisoes wedi cael eu hamlinellu yn gynharach yn yr adroddiad hwn o dan y pennawd Ymgynghori Uniongyrchol, yn crynhoi'r gwaith ymgysylltu sydd wedi'i gynnal dros y gaeaf ar ymatebion cynaliadwy ar gyfer parcio a thrafnidiaeth. Wrth adeiladu ar y cynllun peilot, mae system rhag-archebu parcio wedi cael ei lansio ar gyfer Pen y Pass ar gyfer Ebrill 2021.</p>
<p><b>Cynllun Eryri (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri)</b></p>	<p>Mae Cynllun Eryri – sef Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2020 – 25, wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan yr Awdurdod yn ei Gyfarfod Blynyddol ar y 23ain o Fedi 2020.</p> <p>Lansiwyd y Cynllun yn swyddogol gan Lesley Griffiths, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, mewn digwyddiad ar-lein ar y 26ain o Dachwedd 2020.</p> <p>Yn yr un digwyddiad, lansiwyd un o'r prosiectau pwysig o fewn y cynllun - Cynllun Llysgenhadon Eryri. Mae'r cynllun yn dathlu Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ac mae'n bwydo gwybodaeth ac addysgu</p>



	<p>trwy gyfrwng modiwlau. Ar ôl gorffen y modiwlau, mae cyfranogwyr yn cael eu hadnabod fel llysgenhadon ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda channoedd o bobl wedi cwblhau'r modiwlau yn y misoedd cyntaf. Mae niferoedd y llysgenhadon yn cynyddu'n ddyddiol.</p> <p>Mi fydd Fforwm Eryri yn awr yn gyfrifol dros weithredu'r Cynllun ac am fonitro'r cynnydd wrth symud ymlaen. Yn ystod 2020-21, cyfarfu'r fforwm 4 gwaith.</p>
<b>Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031</b>	<p>Oherwydd pandemig Covid-19, nid oedd Llywodraeth Cymru angen Awdurdodau Cynllunio Lleol i gyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystod 2020-21, a disgwylir i'r Adroddiad Monitro Blynyddol nesaf gael ei gyflwyno erbyn mis Hydref 2021.</p> <p>Fodd bynnag, roedd swyddogion yn teimlo ei fod yn bwysig i barhau gyda chasglu data ac i fonitro'r perfformiad CDLI Eryri, ac o ganlyniad paratowyd Adroddiad Monitro Blynyddol Interim. Cyflwynwyd hwn i'r Aelodau yn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad ar yr 20fed o Ionawr 2021.</p>
<b>Cynllun Corfforaethol 2020/21</b>	<p>Bydd yr Awdurdod yn derbyn canlyniadau Cynllun Busnes a Gwelliant 2020/21 trwy'r Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant 2020/21 a gaiff ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Medi 2021.</p> <p>Fodd bynnag, rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i'r Aelodau ar y cynnydd a wnaed ar y camau i wireddu'r Amcanion Llesiant (sydd wedi eu hamlinellu yn y Rhaglen Waith Corfforaethol 2020/21) a'r dangosyddion perfformiad cysylltiol.</p> <p>Mae'r cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd trydydd chwarter y flwyddyn ariannol (31/12/20) fel y canlyn:</p> <p>O'r 56 gweithrediadau / mentrau / prosiectau a amlinellwyd yn y Rhaglen Waith Corfforaethol, roedd 39 wedi eu graddio yn wyrdd (wedi symud ymlaen ac o fewn yr amserlen), 9 wedi ei graddio yn ambr (i'w gweithredu yn y chwarter nesaf a/neu i'w cwblhau cyn diwedd Mawrth 2021) a 8 wedi ei graddio yn goch (heb symud ymlaen a / neu darged amser wedi llithro).</p>

**Egwyddor 4:** Penderfynu ar ymyriadau angenrheidiol i wneud y gorau o gyflawni'r canlyniadau a fwriedir

<p><b>Strategaeth y Gyllideb 2020/21</b></p>	<p>Cadarnhawyd cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2020/21 gan y Prif Swyddog Cyllid yn ei adroddiad i'r Awdurdod ar y 5ed Chwefror 2020. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cadarnhau'r lefi ar awdurdodau cyfansoddol.</p> <p>Cyflwynwyd diweddariad i'r Gyllideb i'r Awdurdod ar y 23ain o Fedi 2020. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cymorth ariannol a dderbyniwyd i liniaru effeithiau Covid-19, sydd wedi cynnwys grantiau gan Lywodraeth Cymru, grantiau cymorth busnes gan Gyngorau Gwynedd a Chonwy, ad-daliadau trethi, ac ad-daliadau cyflog trwy'r cynllun seibiant swyddi.</p>
<p><b>Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020/21 – 2023/24</b></p>	<p>Yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Chwefror 2021, cyflwynodd y Prif Weithredwr y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2020/21 – 2023/24 i'r Awdurdod, yn nodi'r prif faterion ariannol a fydd yn effeithio ar yr Awdurdod dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Cynllun yn amlinellu model o'r adnoddau ariannol sy'n ofynnol gan yr Awdurdod ar gyfer y lefelau gwasanaeth y mae'n gobeithio eu darparu yn y tymor canolig.</p> <p>Mae'r Cynllun yn adrodd bod yr amcanestyniad cyfredol ar gyfer 2020/21 wedi dangos gorwariant yn erbyn y gyllideb oherwydd costau diswyddo Plas Tan y Bwlch a goblygiadau ariannol y pandemig. Mae'r Cynlluniau hefyd yn nodi y disgwylir i ffigur setliad Grant y Parc Cenedlaethol ddangos cynnydd o 10% ar gyfer 2021/22, er na chadarnhawyd hyn.</p> <p>Nodwyd ystod eang o bosibiliadau yn yr adroddiad - gosodwyd y rhain yng nghyd-destun yr 'Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr' a oedd i fod i ddigwydd cyn 2022/23; gan ddisgwyl y byddai'r canlyniad yn ôl pob tebyg tuag at y llwybr canol.</p>
<p><b>Rheoli Perfformiad</b></p>	<p>Adroddwyd ar alldro Dangosyddion Perfformiad yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 ynghyd â'r cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu o fewn y Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer y flwyddyn i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 15fed o Orffennaf 2020.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed Tachwedd 2020 ar ganlyniadau</p>

	hanner gyntaf y flwyddyn o ran Dangosyddion Perfformiad a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol ar gyfer 2020/21.
--	---

**Egwyddor 5:** Datblygu gallu'r endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion ynddo

<b>Presenoldeb Aelodau</b>	<p>O ganlyniad i Covid-19 bu'n angenrheidiol i gynnal pob cyfarfod yn rhithiol yn ystod y flwyddyn.</p> <p>Ni chynhaliwyd unrhyw bwyllgorau ffurfiol yn ystod Ebrill 2020, tra'r oedd platfform rithiol hyfyw a oedd yn gallu darparu ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yn cael ei sefydlu. Ail ddechreuodd pwyllgorau swyddogol ym mis Mai.</p> <p>Roedd presenoldeb yr Aelodau mewn cyfarfodydd yn ystod 2020/21 yn 90%, o'i gymharu â 81% yn 2019/20 a 81% yn 2018/19.</p>
<b>Hyfforddiant Aelodau</b>	<p>Ar ddechrau 2020/21, daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym, ac maent - ymysg pethau eraill - yn caniatáu i bwyllgorau gael eu cynnal o bell gan awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru.</p> <p>Felly, roedd ffocws ar anghenion hyfforddiant yr Aelodau ar ddechrau'r flwyddyn yn canolbwyntio ar y defnydd o, a chefnogaeth TG, gyda phwyslais ar ddefnyddio technoleg i gynnal cyfarfodydd o bell.</p> <p>Roedd presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant aelodau yn ystod 2020/21 yn 69% (52.5% yn 2019/20). Gan fod cyfleoedd datblygu personol ar gyfer yr Aelodau wedi cael ei effeithio gan y pandemig, gofynnwyd i'r swyddogion roi ystyriaeth i ddarparu opsiynau/dulliau eraill o hyfforddiant, fel gweminarau, yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 18fed o Dachwedd 2020.</p>
<b>Gwerthusiadau Perfformiad a Hyfforddiant Staff</b>	<p>Mae anghenion dysgu a datblygu yn cael eu hadnabod mewn adolygiadau gwerthuso perfformiad blynyddol, ac mae cynllun hyfforddiant yn cael ei gynhyrchu gan y Pennaeth Personél sy'n amlinellu'r blaenoriaethau hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p>

	<p>Yn ystod y flwyddyn, codwyd pryder yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau bod y canran o staff a gafodd eu gwerthuso yn ystod 2019/20 yn parhau i fod yn isel (75%), a bod y targed blynyddol yn cael ei fethu yn gyson. Bydd y cwmp sylweddol i ddim ond 32% o staff yn cael eu gwerthuso yn ystod 2020/21, sydd, heb amheuaeth, yn rhannol oherwydd Covid-19, yn mynd i waethygu'r pryder hwn.</p> <p>Mewn arolwg staff a gynhaliwyd yn 2020/21, roedd 81.5% o staff yn cytuno eu bod yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau (89.8% yn 2019/20).</p>
<b>Strategaeth Adnoddau Dynol</b>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Diweddarau Blynyddol ar weithredu Strategaeth Adnoddau Dynol yr Awdurdod 2017-20 i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 18fed o Dachwedd 2020.</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi data ar y bwlch tâl rhyw, rhyw staff wedi ei ddsbarthu yn ôl gwasanaeth, proffil oedran, cyfraddau trosi staff a.y.b. Nodwyd bod absenoldeb salwch fyny o 8.9 diwrnod Cyfwerth Amser Llawn (CALI) yn 2018/19 i 11.5 diwrnod CALI yn 2019/20.</p> <p>Mae'r Cynllun Gweithredu yn ymdrin ag arweinyddiaeth a datblygu rheolaeth, rheoli perfformiad, recriwtio a chadw staff, rheoli absenoldeb a chydaddoldeb ac amrywiaeth.</p>

**Egwyddor 6:** Rheoli risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

<b>Datganiadau Ariannol</b>	<p>Oherwydd pandemig Covid-19 cwblhawyd y Datganiad Cyfrifon drafft o fewn y llinell amser estynedig ac fe'i hardystiwyd (yn ddarostyngedig ei fod yn cael ei archwilio) gan Brif Swyddog Cyllid yr Awdurdod ar yr 21ain o Awst 2020.</p> <p>Cyn hyn, cymeradwyodd yr Aelodau'r Adroddiad Alldro ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 15fed o Orffennaf 2020.</p> <p>Archwiliwyd y Datganiad Cyfrifon gan Archwilio Cymru, a chyflwynwyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/20 ynghyd â'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol i'r Awdurdod ei gymeradwyo yn ystod ei gyfarfod ar y 18fed o Dachwedd 2020 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018.</p>
-----------------------------	---

	<p>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru ei adroddiad ISA260 blynyddol i'r Awdurdod. Cadarnhaodd yr Archwilydd y bydd o'n cyflwyno barn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ynghyd â'r nodiadau cysylltiedig.</p>
<b>Rheoli Risg</b>	<p>Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n chwarterol gan Benaethiaid Gwasanaeth a'r Tîm Rheoli.</p> <p>Fel y nodir yn y Gofrestr Risg, mae'r cyfrifoldeb dros y risgiau a adnabuwyd yn cael eu dyrannu i swyddogion a enwir ac mae dyddiad targed yn cael ei osod ar gyfer mesurau lliniaru. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu gan Aelodau yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ogystal â chyfarfod yr Awdurdod.</p>
<b>Archwilio Allanol</b>	<p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 20fed o Fai 2020, cyflwynodd Archwilio Cymru eu hadroddiad yn gosod allan eu darganfyddiadau wedi iddo gynnal Adolygiad o Gyfranogiad. Mae manylion llawn o'r darganfyddiadau wedi'u gosod allan o dan Ran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) islaw.</p> <p>Cyflwynodd Archwilio Cymru eu Cynllun Archwilio ar gyfer 2020 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 3ydd o Fehefin 2020. Roedd y Cynllun Archwilio wedi ymgorffori'r effeithiau posib o Covid-19 ar waith yr Awdurdod ynghyd â gallu Archwilio Cymru i gynnal gwaith archwilio.</p> <p>Roedd y Cynllun Archwilio yn gosod allan trefniadau diwygiedig ar gyfer Archwilio'r Datganiadau Ariannol, a oedd yn ddibynnol ar ba bryd y byddai'r Awdurdod yn cwblhau'r cyfrifon. Roedd hefyd yn gosod allan y bwriad i gynnal archwiliad perfformiad ar gydnerthedd corfforaethol a chynaliadwyedd. Roedd y gwaith yn adeiladu ar yr adolygiad diwethaf o gwmpas cyfranogiad.</p> <p>Yn dilyn eu harchwiliad o'r Cynllun Gwella ar gyfer 2020/21, cyflwynodd Archwilio Cymru dystysgrif yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Fedi 2020, i gadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(6) hyd at (9) o'r Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2009.</p>

	<p>Yn ychwanegol i hyn, yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 3ydd o Chwefror 2021, wedi i Archwilio Cymru gynnal archwiliad o Asesiad yr Awdurdod o'i Berfformiad ar gyfer 2019/20 cyflwynodd Archwilio Cymru dystysgrif i gadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd o dan adran 15(2) (8) a (9) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.</p> <p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar yr 29ain o Ebrill 2021, cyflwynodd Archwilio Cymru adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol o'r gwaith a ymgwymerwyd ag o yn ystod 2020-21. Adroddwyd nad oedd yr Awdurdod wedi gallu cyrraedd yr amserlen statudol i gyflawni datganiadau ariannol a fe'i cyflwynwyd i'w harchwilio ar y 21ain o Awst 2020. Cytunwyd ar amserlen ddiwygiedig, a chwblhawyd yr archwiliad o fewn y terfyn amser newydd ac o fewn amserlen ddiwygiedig ddisgwylidig Llywodraeth Cymru.</p> <p>Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd Archwilio Cymru eu Cynllun Archwilio ar gyfer 2021-22 a chadarnhawyd (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau Covid-19) y bydd yr archwiliad perfformiad am y flwyddyn i ddod yn canolbwyntio ar werth am arian.</p> <p>Hefyd, yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd canlyniad yr archwiliad ynghylch Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy. Amlinellir y manylion llawn o dan Ran 6 (Materion Llywodraethu Arwyddocaol) islaw.</p>
<p><b>Archwiliad Mewnol</b></p>	<p>Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn adrodd ar waith y flwyddyn ariannol ddiwethaf yng nghyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Gorffennaf.</p> <p>Cynlluniwyd i bedwar archwiliad mewnol gael eu cynnal yn ystod 2020/21, sef Yr Ysgwrn, Diogelwch Seibr, Dychwelyd Cyfarpar a Dangosyddion Perfformiad.</p> <p>Roedd archwiliadau Diogel Seibr a Dychwelyd Cyfarpar wedi cael eu graddio fel "Cyfyngedig" - er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth gyda'r rheolaethau a / neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau y mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.</p> <p>O ganlyniad i'r raddfa a roddwyd i hyn, cytunwyd ar bwyntiau gweithredu penodol ac ar amserlen i'w gwblhau gyda'r swyddogion perthnasol, er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.</p>

	<p>Yn yr archwiliad ar Ddangosyddion Perfformiad fe gawsant i gyd eu graddio fel “Digonol” - mae yna reolyddion yn eu lle i gyflawni'r amcanion ond mae rhai agweddau lle gellir tynhau'r trefniadau er mwyn lliniaru risgiau ymhellach.</p> <p>Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd hi'n ymarferol i gynllunio ar gyfer cynnal archwiliad ar Yr Ysgwrn. Bydd y diwrnodau sy'n weddill yn cael eu trosglwyddo i archwilio prosiect grant Cynllun Rheoli Cynaliadwy, a gafodd ei radio yn “Uchel” - Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir ddibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.</p>
<b>Iechyd a Diogelwch</b>	<p>Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn cyfarfod bob chwarter i fonitro materion iechyd a diogelwch o fewn yr Awdurdod.</p> <p>Mae'r Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn cynnwys manylion y cyrsiau hyfforddiant a wnaed yn ystod y flwyddyn a'r digwyddiadau / damweiniau a gofnodwyd.</p> <p>Yn ystod 2019/20, cofnodwyd 13 digwyddiad, o'r rhain adroddwyd ar un i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan y 'Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) '.</p>
<b>Canolfannau Gwybodaeth</b>	<p>Mae gan yr Awdurdod 3 Ganolfan Gwybodaeth ym Metws y Coed, Beddgelert ac Aberdyfi, sydd yn cael eu rheoli gan Reolwr Masnachol y Canolfannau, gyda'r prif nod i sicrhau bod y canolfannau yn hyfyw fasnachol / hunangynhaliol.</p> <p>Cyflwynwyd Cynllun Busnes y Ganolfannau Croeso i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 24ain o Fawrth 2021.</p> <p>Adroddwyd bod y Cynllun wedi cael ei addasu er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau a ragwelir yn y dyfodol o ran sail y cwsmeriaid a niferoedd yr ymwelwyr oherwydd effaith cyfyngiadau teithio Covid-19.</p> <p>Mae arbedion ar wariant yn ystod y llwyrglo, derbyn grantiau a'r cynllun seibiant swyddi wedi golygu bod y Canolfannau o fewn eu cyllideb ar gyfer 2019/20.</p>

	<p>Mae'r adroddiad yn dangos bod Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod yn cael eu rhedeg yn dda gyda phrosesau rheolaeth ariannol cadarn ar waith.</p>
<p><b>Strategaethau Benthycia a Buddsoddi / Rheoli'r Trysorlys</b></p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol sy'n darparu'r gweithgaredd Rheoli Trysorlys gwirioneddol (benthycia a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2019/20, i gyfarfod yr Awdurdod ar 3 Mehefin 2020.</p> <p>Yn ystod 2019/20 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthycia.</p> <p>Yn 2019/20, £48,077 oedd y cyfanswm llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau. Mae £1,419 o log a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir yn cynyddu'r cyfanswm i £49,496 yn erbyn cyllideb ddiwygiedig o £29,300.</p> <p>Mae'r swm llog banciau a chymdeithas adeiladu o £48,077 am 2019/20 yn uwch na'r swm cyfatebol o £35,980 yn 2018/19. Y prif reswm am hyn ydyw fod HSBC Marchnad Arian, Nationwide a Santander UK wedi parhau i dalu cyfradd llog uwch ar adneuron tymor drwy 2019/20.</p> <p>Rhodddwyd adroddiad ar lafar Intermin i Rheoli'r Trysorlys yn yr Awdurdod ar y 9fed o Rhagfyr 2020. Cyngorodd y Prif Swyddog Cyllid fod y cyfraddau llog isel parhaus yn golygu na fyddai'r Awdurdod yn cyflawni ei darged o £23k yn 2020/21 ac y byddai'r llog a enillir yn agosach at £13k.</p> <p>Hyd yn hyn, Nid yw'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod ar gyfer cymeradwyaeth.</p> <p>Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Cyllid y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2021/22 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 3ydd o Chwefror 2021.</p> <p>Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni gwasanaethau'r Parc Cenedlaethol ynghyd â throsolwg o sut y caiff y risg cysylltiedig ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cychwyn 2021/22 yn ddiddyled. Cymeradwyodd yr Aelodau 'dim newid' i'r cyfyngiad benthycia awdurdodedig</p>



	a'r ffin weithredol, a chymeradwywyd y Strategaeth Benthycy Cyfalaf a'r Strategaeth Buddsoddi ar gyfer 2021/22, a nodi'r cynnwys sy ymwneud a'r Cod Darbodus.
<b>Ganolfan Astudio Plas Tan y Bwlch</b>	<p>Mae Canolfan Astudio'r Awdurdod wedi bod yn methu targedau a nodwyd yn ei Gynllun Busnes yn gyson ac yn rhedeg ar golled ers nifer o flynyddoedd.</p> <p>Nid yw ymdrechion i arallgyfeirio a chwilio am ffrydiau incwm a marchnadoedd newydd wedi bod yn llwyddiannus, ac arweiniodd dyfodiad Covid-19 at gollir busnes presennol yn llwyr, gan olygu bod angen gwneud penderfyniadau anodd ynghylch dyfodol y Ganolfan.</p> <p>Dadansoddwyd modelau busnes amgen a chymeradwywyd yr achos dros ail agor y Ganolfan fel darparwr llety gwely a brechwast, ar ôl ystyried y risgiau ariannol, yr ailstrwythuro staff sy'n ofynnol a chywirdeb blaenamcanion y dyfodol.</p> <p>Yng nghyfarfod yr Awdurdod Arbennig a gynhaliwyd ar yr 23ain o Hydref 2020, penderfynodd yr Aelodau barhau i weithredu Plas Tan y Bwlch fel llety Gwely a Brechwast yn y tymor byr i ganolig; bwrw ymlaen gyda'r gwaith o ailstrwythuro staff; parhau â'r ddeialog gydag ystod o bartneriaid posibl yn y dyfodol; ac adrodd ar y cynnydd i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.</p> <p>Mae'r risgiau o fethu â chyrraedd y targed cynhyrchu incwm a sicrhau dyfodol tymor hir y Ganolfan wedi cael eu lliniaru cymaint â phosibl, ac ar hyn o bryd maent yn cael eu graddio fel canolig. Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bod yr Awdurdod yn ymsefydlu mesurau rheolaeth fewnol a rheolaeth ariannol gadarn wrth reoli'r Ganolfan.</p>

**Egwyddor 7:** Rhoi arferion da ar waith o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

<b>Datganiad Polisi Tâl</b>	Mae gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl o dan Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011. Er bod Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ystyriwyd ei fod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath, ac yn unol â hynny gwneir hyn yn flynyddol gan y Pennaeth Personél.
-----------------------------	---

	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl ar gyfer 200/21 a Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 2021/22 gerbron y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 24ain Mawrth 2021 gan sicrhau tryloywder o ran y taliadau cydnabyddiaeth ariannol i staff yn yr Awdurdod.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid yw'r Dyfarniad Cyflog ar gyfer Ebrill 2020 wedi ei gytuno. Mae arwyddion cynnar na fydd cynnydd ar wahân i gyflogau sy'n is na £24,000, fodd bynnag, mae hyn i'w gadarnhau.</p>
<p><b>Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwella 2019/20</b></p>	<p>Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 23ain o Fedi 2020, cyn iddo gael ei gyhoeddi ar y wefan a'i ddsbarthu i brif ganolfannau'r Awdurdod, llyfrgelloedd cyhoeddus ac ati, o fewn y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Mae'n cynnwys Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn, sy'n nodi'r hyn a gyflawnwyd, beth na chafodd ei gyflawni ac unrhyw broblemau a wynebwyd.</p> <p>Mae hefyd yn cynnwys manylion am Flaenoriaethau Gwasanaeth yr Awdurdod ac Amcanion yr Awdurdod a osodir yn flynyddol sy'n bwydo i mewn ac yn dangos sut y bwriedir mynd â'r Parc Cenedlaethol yn ei flaen er mwyn gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod; gwerthusiad cryno o'r cynnydd a wnaed o ran cwrdd ag Amcanion yr Awdurdod, y gweithgareddau gwaith allweddol ar gyfer 2018/19, a rheoli perfformiad (gan gynnwys canlyniadau dangosyddion perfformiad ar gyfer y flwyddyn).</p> <p>O'r 5 maes gwella, bu'r Awdurdod yn llwyddiannus yn y cynnydd a wnaed ar ddau o'r amcanion, yn rhannol lwyddiannus ar ddau o'r amcanion eraill, tra bo'r cynnydd a wnaed ar un amcan arall sy'n weddill yn gyfyngedig.</p>
<p><b>Darlledu Pwyllgorau</b></p>	<p>Er nad oes rhaid i awdurdodau lleol ddarlledu eu cyfarfodydd, mae Llywodraeth Cymru yn annog gweddarlledu.</p> <p>Yn ystod 2019/20, cytunodd yr Aelodau i beidio symud ymlaen i ddarlledu pwyllgorau gan fod y costau'n llawer rhy uchel.</p> <p>Oherwydd pandemig Covid-19, cynhaliwyd pob cyfarfod yn ystod 2020/21 yn rhithiol gan ddefnyddio meddalwedd Zoom. Oherwydd y materion diogelwch gyda'r feddalwedd ynghyd â'r ffaith mai dim ond un sianel iaith a</p>

	ellir ei darlledu'n fyw (sy'n golygu nad yw'n bosib trin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal); nid oedd yn bosibl rhoi mynediad i'r cyhoedd fel arsylwyr i'r cyfarfodydd hyn yn ystod 2020/21, ac ni chawsant eu darlledu'n fyw ar wefan yr Awdurdod. Yn dilyn y cyfarfodydd, darlledwyd recordiadau o'r Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad yn unig ar sianel YouTube yr Awdurdod.
<b>Craffu Aelodau</b>	Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 18fed o Dachwedd 2020, cyflwynodd y Prif Weithredwr diweddariad ar Graffu Strategol, a oedd yn adrodd am y cynnydd a waned gan y Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Traffig a'r Grŵp Tasg a Gorffen Cyfrif Carbon.  Penderfynodd yr Aelodau i gytuno ar 2 faes craffu ychwanegol, sef Grŵp Tasg a Gorffen Llywodraethu a Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd Cymraeg.

## 6. Materion Llywodraethu Arwyddocaol a Chamau a Bwriedir eu Cymryd ar gyfer 2021/22

Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2021 roedd y genedl ond wedi megis dechrau profi'r effaith ddwys yr oedd Covid-19 yn mynd i gael ar fywyd bob dydd am y dyfodol rhagweladwy. Ar ôl cyhoeddi'r cyfnod llwyr glo yn y DU, symudodd yr Awdurdod yn gyflym iawn i ail-flaenoriaethu ei waith i ddelio â'r argyfwng, i alluogi staff i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl, ac i roi systemau ar waith i alluogi gweddill busnes o ddydd i ddydd yr Awdurdod i barhau lle bo hynny'n bosibl.

Ar ôl blwyddyn o gyfnodau clo a graddau amrywiol o gyfyngiadau i geisio rheoli lledaeniad yr haint, mae'r Awdurdod wedi gorfod cyfuno pwysau gwaith adweithiol wrth ddatblygu datrysiadau a chynlluniau rhagweithiol i ymladd yr effeithiau negyddol tymor canolig i hir yn sgil niferoedd yr ymwelwyr, sydd wedi cael ei waethygu oherwydd cyfyngiadau teithio rhyngwladol o ganlyniad i Covid-19.

Bydd effaith y llwyr gloi ar yr economi ynghyd â'r adnoddau ariannol a wariwyd gan Lywodraeth y DU a Chymru i ddelio â'r argyfwng, yn golygu oblygiadau enfawr ar yr arian sydd ar gael i'r sector cyhoeddus am gryn amser i ddod.

Gan fod Cynllun Eryri (Cynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol Eryri) wedi cael ei fabwysiadu yn ystod 2020/21, bydd hyn sicrhau wrth i ni fynd yn ein blaen, bod gan yr Awdurdod a'i bartneriaid ffocws clir ar eu blaenoriaethau gwaith yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r egwyddor graidd o gynaliadwyedd yn llifo trwy'r Cynllun, ac mae'n hanfodol bod y 3 maes allweddol, megis yr Amgylchedd, Iechyd a Lles a Chymunedau a'r Economi, yn awr, fwy nag erioed yn cael eu blaenoriaethu wrth symud ymlaen tuag at ail-adeiladu ar ôl y pandemig.

Mae'r Amcanion Lles a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod ar gyfer 2021-26, fel y'i gosodwyd allan yn y Cynllun Corfforaethol, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu a phrosiectau sy'n deillio o hynny, yn gweithio tuag at wireddu Gweledigaeth Cynllun Eryri.

#### Archwilio Cymru: Adolygiad o Ymglymiad

Mae Archwilio Cymru yn gyfrifol am adolygu sut mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau ar eu cymunedau, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Wrth adeiladu ar y gwaith archwilio cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod 2019, edrychodd Archwilio Cymru yn fanylach ar sut roedd yr Awdurdod yn cynnwys rhanddeiliaid wrth gynnig newidiadau gwasanaeth a pholisi, gyda phwyslais arbennig ar ddatblygu Cynllun Eryri (Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol). Cyflwynwyd adroddiad o'r casgliadau i'r Awdurdod ar yr 20fed o Fai 2020.

Daeth Archwiliad Cymru i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi "sefydlu dull gweithredu effeithiol sy'n seiliedig ar waith partneriaeth wrth ddatblygu Cynllun Eryri a'i fod mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r dull gweithredu hwn wrth iddo fynd rhagddo, ond mae angen iddo fynd i'r afael a'r heriau o ran cyllid a chapasiti a wynebwr ganddo i sicrhau bod ei waith cyfranogi'n gynaliadwy".

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at feysydd arfer da a'r gwaith arweiniol rhagorol a wneir gan yr Awdurdod. Ni wnaeth Archwiliad Cymru unrhyw gynigion ar gyfer gwella ond yn hytrach maent wedi cynhyrchu hunanasesiad i staff ac Aelodau ei ddefnyddio i nodi cryfderau a gwendidau ei ddull gweithredu cyfredol tuag at ymglymiad.

#### Archwilio Cymru: Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy

Yn ystod 2020-21 adolygwyd cydnerthedd corfforaethol o bell, trwy astudio ac archwilio dogfennau perthnasol ac anfon arolwg allan i Aelodau a staff yn gofyn am eu barn.

Wrth adrodd ar y canlyniadau ym mis Ebrill 2021, daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod "yr Awdurdod wedi ymateb yn dda yn y pandemig ond mae'r heriau a wynebwyd ganddo wedi amlygu angen i wella'i gydnerthedd a'i gynaliadwyedd yn y tymor hwy".

Daethpwyd at y casgliadau a ganlyn o'r canfyddiadau a gafwyd ar ôl edrych ar y pum maes allweddol:

**Cyllid:** "mae sefyllfa ariannol gadarn yr Awdurdod yn ymguddio'r angen i sefydlu gwaddol ar gyfer prosiectau byrdymor a ariennir gan grantiau er mwyn cynyddu eu heffaith i'r eithaf".

**Llywodraethu:** "mae gan yr Awdurdod systemau llywodraethu cadarn, ond mae cyfleoedd i ddysgu o'r prosesau penderfynu deinamig a fabwysiadwyd yn ystod y pandemig".

**Y gweithlu:** "mae gan yr Awdurdod weithlu medrus ac ymrwymedig, ond mae capasiti a chydnerthedd wedi bod o dan bwysau".

**Asedau:** “mae gan yr Awdurdod bortffolio amrywiol o asedau, ond yng ngoleuni'r pandemig mae angen iddo ail-werthuso'i fwriad strategol a'i rôl yn y dyfodol o ran rheoli'r rhain”.

**Parhad busnes:** “fe wnaeth yr Awdurdod yn dda i gynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig, ond mae angen iddo ddysgu gwersi ar lefel gorfforaethol i helpu i hybu cydnerthedd”.

### Cynigion ar gyfer Gwella

Mae'r tabl islaw yn gosod allan y cynigion ar gyfer gwella a adnabuwyd gan Archwilio Cymru wrth ymgymryd â'r adolygiad. Yn ystod 2021-22, mae'r Awdurdod am edrych ar sut y gellir symud ymlaen i weithredu'r gwelliannau hyn yn effeithiol.

CaG1	I gefnogi cydnerthedd dylai'r Awdurdod gadarnhau ac arfarnu ei ffyrdd newydd o weithio mewn perthynas â llywodraethu, parhad busnes a gweithio o bell.
CaG2	I gynyddu effaith prosiectau a ariennir â grantiau i'r eithaf dylai'r Awdurdod ddatblygu fframwaith i arfarnu eu cyfraniad posibl at symud Cynllun Eryri yn ei flaen ac i sicrhau bod cynllunio priodol ar gyfer etifeddiaeth yn digwydd.
CaG3	I gefnogi mwy o gydnerthedd dylai'r Awdurdod ystyried sut a phryd i adael i swyddogion gael profiadau newydd mewn gwasanaethau a thimau ehangach i feithrin sgiliau, gwybodaeth a chapasiti.

### Proffil Risg yr Awdurdod

Mae'r pedwar risg uchaf i'r Awdurdod fel y'u diweddarwyd ym mis Mawrth 2021, fel a ganlyn:

Risg	Canlyniad	Gweithred a Nodwyd / Cynnydd hyd yma
Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio)	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	Yn sgil y cyfnodau clo pellach yn Hydref a Thachwedd a'r cyfnod clo cenedlaethol sy'n parhau ers Rhagfyr 2020, mae diffyg o £63K yn erbyn y targed incwm am y flwyddyn ar ôl cynnwys y cymorth tuag at golled incwm Chwarter 1. Gwireddwyd 91% o'r targed incwm am y flwyddyn. Gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn i wneud y diffyg yma i fyny am eleni, ond bydd y risg yn parhau yn uchel ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd amgylchiadau Covid-19, felly bydd angen cadw golwg manwl ar y sefyllfa.
Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygyrdded o ganlyniad i'r	Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â

<p>Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri</p>	<p>yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.</p>	<p>rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.</p> <p>Mae is-grŵp i Gynllun Yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafndiaeth / parcio yn yr ardal. Mae astudiaeth ar reolaeth traffig ar gyfer ardaloedd y Wyddfa ac Ogwen wedi ei gomisiynu ac wedi ei dderbyn. Mae partneriaid nawr yn ystyried argymhellion yr adroddiad gyda Llywodraeth Cymru ac yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd dros gyfnod prysur yr haf. Mae ymgynghoriad cyhoeddus gyda'r cymunedau yn cymryd lle yn ystod Chwefror / Mawrth 2021 ar yr adroddiad.</p> <p>Disgwylir niferoedd digynsail o ymwelwyr dydd y DU eto'r haf hwn wrth i'r cloi lawr leihau, a fydd yn achosi problemau i gymunedau lleol. Er y cymerir dull partneriaeth, canfyddiad y cyhoedd bydd mai'r Awdurdod sy'n llwyr gyfrifol.</p>
<p>Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.</p>	<p>Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.</p>	<p>Cafwyd Adroddiad Cynnydd Canol-Tymor a chais am daliad ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd yn Rhagfyr 2020 (gohiriwyd o Ionawr 2020). Disgwylir adborth yn ôl gan y Comisiwn yn Chwefror 2021. Bydd adroddiad olaf i Lywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno yn Ebrill 2021 ar gyfer cyfnod Hydref 2020 i Fawrth 2021 - eto, disgwylir i'r prosiect cwrdd â'r gwariant o £2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn hawlio cyfanswm cyfraniad y Llywodraeth i'r prosiect.</p> <p>Disgwylir i'r prosiect cyrraedd y targed gwariant o £2m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2020/21 er mwyn hawlio cyfraniad LIC yn ei gyfanrwydd, ond os bydd cyfyngiadau llym yn cael eu gweithredu yng ngaeaf 2020/21 o ganlyniad i'r pandemig Covid-19, bydd hyn yn rhoi ychydig o bwysau ar staff i gyrraedd y targed.</p>

<p>Effaith yr haint Coronavirus (COVID-19) ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod.</p>	<p>Yr Awdurdod yn methu a gweithredu o ran cyflawni dyletswyddau dyddiol a statudol. Colledion ariannol, methu a thalu cyflenwyr, a methiant cyffredinol i gynnal systemau arferol. Yr Awdurdod yn methu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymgymryd â'i ddyletswyddau statudol,</li> <li>• i gyflawni yn erbyn y rhaglen waith gorfforaethol,</li> <li>• i dalu staff a chyflenwyr,</li> <li>• i ennill incwm yn erbyn targedau a gytunwyd,</li> <li>• cefnogi llesiant cymdeithasol ac economaidd yr ardal,</li> <li>• cefnogi llesiant staff.</li> </ul>	<p>Mae angen sicrhau fod mesurau mewn lle parthed prif systemau'r Awdurdod a gallu staff allweddol i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth wrthi'n trafod mesurau penodol ar gyfer hyn.</p> <p>Trefniadau gweithio amgen wedi eu sefydlu a bydd angen adolygu fel mae cyfnod y gaeaf yn dechrau. Mi fydd yna risg ychwanegol i'r Awdurdod yn ystod 2020/21 yn nhermau cyflawni targedau incwm.</p>
--	--	--

## 7. Barn

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ymdrin â'r materion y cyfeiriwyd atynt yn rhan 6 yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen i wella a bennwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

---

**EMYR WILLIAMS**

**PRIF WEITHREDWR  
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL  
ERYRI**

**DYDDIAD 19/05/2020**

---

**WYN ELLIS JONES**

**CADEIRYDD  
AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL  
ERYRI**

**DYDDIAD 19/05/2020**



## EITEM RHIF 13

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	9 Mehefin 2021
<b>TEITL</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GWIR WEITHGARWCH RHEOLAETH TRYSORLYS YN 2020/21</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Prif Swyddog Cyllid
<b>PWRPAS</b>	Adroddir yn unol â gofynion statudol. Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi'r cynnwys er gwybodaeth yn unig.

### 1. CRYNODEB

- 1.1 Mae'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod 2020/21 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthycha. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.
- 1.2 Yn 2020/21, £11,113 oedd y cyfanswm llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau. Mae £1,194 o log a dderbyniwyd o fenthychiadau ceir yn cynyddu'r cyfanswm i £12,307 yn erbyn cyllideb o £23,000.
- 1.3 Mae'r swm llog banciau a chymdeithas adeiladu o £11,113 am 2020/21 yn llawer is na'r swm cyfatebol o £48,077 yn 2019/20. Y prif reswm am hyn ydyw fod y cyfraddau llog wedi disgyn yn gyffredinol oherwydd effeithiau'r pandemig a'n bod wedi atal buddsoddiadau 95 diwrnod ar sail cyngor proffesiynol. Gadawyd swm bychan yng nghyfrif 95 diwrnod Santander am 303 diwrnod er mwyn cadw'r cyfrif yn agored.

### 2. CEFNDIR

- 2.1 Cymeradwyodd yr Awdurdod ei Strategaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys 2020/21 yng nghyfarfod 5 Chwefror 2020.
- 2.2 Adroddir yma ar wir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys (benthycha a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2020/21.

### 3. BENTHYCIADAU

3.1 Mae canllawiau buddsoddi CIPFA a Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod fuddsoddi yn bwylllog, gan ystyried diogelwch a hylifedd ein balansau / buddsoddiadau, yn hytrach nac anelu i sicrhau'r enillion gorau posibl.

#### A. Terfynau Benthycyca 2020/21

Ar 5 Chwefror 2020 cymeradwyodd yr Awdurdod Derfynau Benthycyca fel a ganlyn ar gyfer 2020/21 :-

- (i) Uchafswm Benthycyca Cyffredinol o £500,000 ar gyfer 2020/21, gan gynnwys Terfyn benthycyca Tymor Byr o £100,000.
- (ii) Peidio â gosod uchafswm ar gyfran o fenthyciadau gyda chyfradd llog newidiol.

Nodwyd pryd gosodwyd y terfynau yma eu bod 'rhag ofn', a 'doedd dim disgwyliad i'r Awdurdod fenthycyca.

#### B. Benthycyca Gwirioneddol 2020/21

Dechreuodd yr Awdurdod y flwyddyn ariannol heb ddyled, a thalwyd am wariant refeniw a chyfalaf yn ystod 2020/21 gydag arian grantiau a chronfeydd refeniw. Felly, o safbwynt Rheolaeth Trysorlys, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn di-ddyled.

### 4. BUDDSODDI

4.1 Bu'n bosibl i'r Awdurdod fuddsoddi ac ennill llog oherwydd ei sefyllfa'r balansau a'r llif-arian positif. Cafodd yr arian hwnnw ei fuddsoddi fel a ganlyn, yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys:

- Rhoddwyd balansau y rhagwelwyd y byddwn yn eu dal yn y tymor byr – tymor canolog yng nghyfrifon "dim rhybudd" BOS (Bank of Scotland), HSBC (cyfrif cadw), Nationwide a Santander UK, cyfrifon rhybudd 32/35 diwrnod (Bank of Scotland, HSBC a Santander UK) a chyfrifon rhybudd 95 diwrnod (Nationwide a Santander UK) hyd nes atal ar sail cyngor proffesiynol.
- Cadwyd balans o £1,250,000 mewn cyfrif nad yw'n ennill llog gyda Barclays (y swm angenrheidiol yn unol â'u telerau er mwyn osgoi ffioedd bancio).
- Rhoddwyd balansau gweithredol ar ddiwedd pob diwrnod yng nghyfrif banc 'Business Premium' Barclays.

4.2 Gyda chyfraddau llog yn parhau'n isel, ynghyd â'r angen i sicrhau dosbarthiad cymharol wastad o arian yr Awdurdod rhwng y sefydliadau unigol uchod, 'roedd cyfanswm y llog a enillwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 fel a ganlyn:

	Balans Cyfartalog dros y cyfnod buddsoddi	Cyfradd llog	Llog a enillir
<b>Cyfrif</b>			
<b>Cyfrif Busnes Banc yr Alban (365 diwrnod mewn credyd)</b>			
122 diwrnod (1 Ebrill - 31 Gorffennaf)	£383,250	0.05%	£64
243 diwrnod (1 Awst - 31 Mawrth)	£681,634	0.01%	£45
<b>Cyfrif Tymor 32 diwrnod Banc yr Alban (355 diwrnod mewn credyd) :</b>			
17 diwrnod (1 Ebrill - 17 Ebrill)	£660,006	0.25%	£77
245 diwrnod (1 Ebrill - 1 Rhagfyr)	£1,362,284	0.10%	£914
88 diwrnod (10 Tachwedd - 5 Chwefror)	£945,018	0.05%	£114
45 diwrnod (15 Chwefror - 31 Mawrth)	£1,418,904	0.03%	£52
<b>Cyfrif Cadw HSBC (365 diwrnod mewn credyd) :</b>			
365 diwrnod (1 Ebrill - 31 Mawrth)	£280	0.01%	£0
lawndal llog a dderbyniwyd am y cyfnod 2009-2021			£169
<b>Cyfrif Cyfredol "MoneyMarket" HSBC (365 diwrnod mewn credyd) :</b>			
61 diwrnod (1 Ebrill - 31Mai)	£893,622	0.20%	£299
304 diwrnod (1 Mehefin - 31 Mawrth)	£1,069,546	0.01%	£89
<b>Cyfrif Tymor 1 mis "MoneyMarket" HSBC Mmarket (255 diwrnod mewn credyd) :</b>			
3 diwrnod (1 Ebrill - 3 Ebrill)	£801,532	0.58%	£38
14 diwrnod (1 Ebrill - 14 Ebrill)	£449,959	0.46%	£79
34 diwrnod (3 Ebrill - 6 Mai)	£729,387	0.14%	£95
32 diwrnod (4 Mai - 4 Mehefin)	£775,055	0.08%	£54
32 diwrnod (2 Gorffennaf - 2 Awst)	£1,456,958	0.06%	£77
158 diwrnod (3 Awst - 7 Ionawr)	£1,417,956	0.01%	£61
<b>Cyfrif "Instant Saver" Nationwide (365 diwrnod mewn credyd) :</b>			
365 diwrnod (1 Ebrill - 31 Mawrth)	£2,031,140	0.05%	£1,016
<b>Cyfrif Tymor 95 diwrnod Nationwide (48 diwrnod mewn credyd) :</b>			
16 diwrnod (1 Ebrill - 16 Ebrill)	£825,889	0.90%	£326
5 diwrnod (17 Ebrill - 21 Ebrill)	£1,260,000	0.40%	£69
27 diwrnod (22 Ebrill - 18 Mai)	£197,038	0.25%	£36
<b>Cyfrif "Busnes Savings" Santander (365 diwrnod mewn credyd):</b>			
98 diwrnod (1 Ebrill - 7 Gorffennaf)	£389,763	0.35%	£366
113 diwrnod (8 Gorffennaf - 28 Hydref)	£344,650	0.01%	£11
154 diwrnod (29 Hydref - 31 Mawrth)	£453,169	0.08%	£153
<b>cyfanswm a gariwyd ymlaen</b>			<b>£4,206</b>

	Balans Cyfartalog dros y cyfnod buddsoddi	Cyfradd llog	Llog a enillir
<b>Cyfrif</b>			
<b>cyfanswm a gariwyd ymlaen</b>			<b>£4,206</b>
<b>Cyfrif Tymor 35 diwrnod Santander (365 diwrnod mewn credyd) :</b>			
55 diwrnod (1 Ebrill - 25 Mai)	£355,121	0.70%	£375
171 diwrnod (26 Mai - 12 Tachwedd)	£1,733,135	0.47%	£3,816
139 diwrnod (13 Tachwedd - 31 Mawrth)	£1,670,440	0.30%	£1,908
<b>Cyfrif Tymor 95 diwrnod Santander 95 day (337 diwrnod mewn credyd)</b>			
34 diwrnod (1 Ebrill - 4 Mai)	£960,248	0.90%	£805
303 diwrnod (2 Mehefin - 31 Mawrth)	£82	0.50%	£0
<b>Cyfrif Busnes Santander :</b>			
Cyfrif sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer bancio arian Canolfannau - dim llog yn 2020/21			£0
<b>Cyfrif "Business Premium" Barclays (365 diwrnod mewn credyd) :</b>			
365 diwrnod (1 Ebrill - 31 Mawrth)	£1,355	0.20%	£3
<b>Cyfanswm llog a enillwyd</b>			<b>£11,113</b>

4.3 Yn bwysicach, **cadwyd holl falansau'r Awdurdod yn ddiogel, gan nad oedd unrhyw fanciau**, o'r rheiny defnyddiwyd ar gyfer buddsoddi (adnau arian) yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21, **wedi methu ad-dalu.**

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	09 Mehefin 2021
<b>TEITL</b>	<b>TREFNIADAU AR GYFER CYFARFODYDD YR AWDURDOD A'R PWYLLGORAU</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol
<b>PWRPAS</b>	I gytuno ar drefniadau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol yr Awdurdod a'i bwyllgorau

## 1 CEFNDIR

- 1.1 Mae Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol lunio a chyhoeddi trefniadau er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd awdurdod lleol yn gallu cael eu cynnal trwy gyfrwng unrhyw gyfarpar neu gyfleuster sydd yn galluogi pobl nad ydynt yn yr un lle i fynychu y cyfarfodydd, ac i siarad a chael eu clywed y naill gan y llall (waeth os yw'r cyfarpar neu'r cyfleuster yn galluogi'r bobl hyn i weld a chael eu gweld y naill gan y llall).
- 1.2 Mae'r trefniadau sydd mewn lle ar y funud yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a'i beyllgorau yn cydymffurfio gyda gofynion y Ddeddf.
- 1.3 Fodd bynnag, mae aelodau wedi gwneud cais bod yr Awdurdod yn archwilio dulliau o gynnwys y cyhoedd unwaith eto mewn rhyw fodd mewn cyfarfodydd o'r fath ac mae swyddogion wedi bod yn archwilio opsiynau a fyddai'n caniatáu cynnwys y cyhoedd yn ogystal â sicrhau bod system ddwyieithog lawn ar gael.
- 1.4 Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ynghylch pa ffurf fydd i gyfarfodydd yr Awdurdod yn y dyfodol unwaith y bydd cyfyngiadau Cofid wedi eu codi yn llwyr, a dod i'r casgliad efallai nad cael holl aelodau'r Awdurdod yn teithio i Blas Tan y Bwlch i gynnal eu cyfarfod fydd y ffordd ymlaen ac y bydd angen edrych ar ryw fath o drefniant "hybrid".

## 2 OPSIYNAU TYMOR BYR

- 2.1 Er bod cyfyngiadau Cofid ar hyn o bryd yn weddol lac, y bwriad ar y funud yw i'r Awdurdod barhau gyda'r cyfarfodydd rhithiol llawn trwy gyfrwng Zoom. Felly ni fydd man cyfarfod ffisegol megis Plas Tan y Bwlch.

- 2.2 Yn gyffredinol, mae cyfarfodydd rhithiol yn ymddangos fel pe baent yn gweithio'n dda ac yn cael eu cynnal yn hollol ddwyieithog. Un o'r anawsterau gyda webcastio cyfarfodydd o'r fath i'r cyhoedd yw polisi dwyieithog yr Awdurdod gan fod unrhyw webcastio yn gallu cael ei drosglwyddo ar un sianel awdio yn unig a thrwy hynny nid yw'n bosibl cynnig dewis iaith.
- 2.3 Yn dilyn trafodaethau gyda Phennaeth Systemau Gwybodaeth yr Awdurdod, rydym erbyn hyn wedi canfod modd i ddatrys y broblem. Mae trwydded yr Awdurdod gyda Zoom yn galluogi hyd at uchafrif o 100 i gyfranogi mewn unrhyw gyfarfod Zoom. A chaniatau y bydd angen neilltuo rhwng 30 a 35 o leoedd ar gyfer aelodau a swyddogion, aelodau o'r cyhoedd sydd yn dymuno siarad ar unrhyw fater yn y pwyllgor Cynllunio a Mynediad ac wrth gwrs cyfieithydd, byddai hyn yn dal i ganiatau rhwng 65 a 70 o aelodau'r cyhoedd i fynychu'r cyfarfodydd.
- 2.4 Pe byddai aelodau'r cyhoedd felly yn cael mynychu'r cyfarfod yn ei fformat presennol, byddai'n creu anawsterau o safbwynt caniatau i aelodau weld ei gilydd yn ogystal â phleidleiso, pwy gaiff gymryd rhan agati. Er mwyn osgoi problemau o'r fath, cynigir bod y cyhoedd yn cael eu gwahanu oddi wrth y cyfarfod ei hun yn yr un modd ag a fyddai'n digwydd ym Mhlas Tan y Bwlch. Gwneir hyn trwy gynnal unrhyw gyfarfod trwy gyfrwng webinar. Bydd y cyhoedd yn gallu gweld y cyfarfod yn fyw ac yn gallu dewis pa bynnag iaith fydd yn addas iddynt hwy ond ni fyddant yn gallu cymryd rhan weithredol yn y cyfarfod.
- 2.5 Gan y byddai niferoedd wedi eu cyfyngu, byddai'n ofynnol i unrhyw aelod o'r cyhoedd fyddai yn dymuno gweld y trafodion yn fyw yn gorfod cofrestru er mwyn cael mynediad. Os byddai yn ymddangos ein bod yn agosau at ein uchafrif cyfranogwyr sef 100, yna gallem roi gwybod iddynt beth yw'r sefyllfa ond gyda'r sicrwydd y bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod.
- 2.6 Os byddwn yn canfod bod y gofyn wastad yn uwch na'r hyn mae ein trwydded yn ei ganiatau, yna bydd yn bosibl ehangu nifer y rhai all gymryd rhan - ar gostau ychwanegol i'r Awdurdod
- 2.7 Y bwriad yw bod y system hon yn y dyfodol yn cynnwys holl gyfarfodydd yr Awdurdod, y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, a bod recordiadau o'r cyfan yn dod ar gael wedyn i'w gwyllo ar wefan yr Awdurdod.
- 2.8 Gan y bydd cyfarfodydd o'r fath o hyn ymlaen yn fyw i aelodau'r cyhoedd cynigir hefyd bod aelodau yn ymuno â'r holl gyfarfodydd 15 munud cyn yr amser cychwyn er mwyn sicrhau bod holl broblemau TG wedi eu datrys a bod y cyfarfod yn cael cychwyn yn brydlon ar yr amser dynodedig.

### **3 OPSIYNAU I'R DYFODOL**

- 3.1 Wrth i ni, gobeithio, barhau i symud ymhellach oddi wrth gyfyngiadau Cofid, bydd cyfarfodydd ffisegol ym Mhlas Tan y Bwlch yn opsiwn unwaith eto.
- 3.2 Gyda'r byd wedi newid yn sylweddol yn ystod y pandemig, rydym yn cydnabod na fydd yr holl aelodau yn dymuno dychwelyd i fynychu cyfarfodydd mewn person ac yn sicr bydd mwy o alw am ryw ffurf ar gyfarfodydd hybrid lle bydd rhai aelodau yn bresennol mewn person ac eraill yn mynychu yn rhithiol.

3.3 Yn y dyfodol agos, mae Pennaeth Systemau Gwybodaeth yr Awdurdod yn cyfarfod cynrychiolydd o gwmni sydd yn arbenigo mewn systemau Clyweledol gyda phrofiad o ddarparu datrysiadau arbennig i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Bydd unrhyw drafodaethau, wrth gwrs, yn cynnwys yr angen i'r Awdurdod i sicrhau y caiff meini prawf dwyieithrwydd eu cwrdd yn llawn.

3.4 Y gobaith yw y gellir datblygu datrysiad posibl erbyn Gorffennaf/Awst ac y bydd yn barod i'w dreialu erbyn cyfarfodydd yr Awdurdod a'i bwyllgorau erbyn yr hydref.

#### **4. GOBLYGIADAU ADNODDAU**

Nid oes goblygiadau sylweddol ar gyfer yr Opsiynau Cychwynnol a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

#### **5. ARGYMHELLIAD**

**5.1 Bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r mesurau a amlinellir yn Adran 2 o'r adroddiad hwn.**

**5.2 Bod yr Awdurdod yn nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Adran 3 o'r adroddiad hwn ac yn aros am adroddiad pellach maes o law.**

#### **PAPURAU CEFNDIR**

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	09 Mehefin 2021
<b>TEITL</b>	<b>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y SWYDDOG MONITRO</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
<b>PWRPAS</b>	I adrodd am y cwynion a gyfeiriwyd at yr Ombwdsmon ac ar waith y Pwyllgor Safonau

## 1. CEFNDIR

### 1.1 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1.2 Yn ystod y cyfnod 2020/21, dim ond un gŵyn a dderbyniodd yr Ombwdsmon yn ymwneud â'r Awdurdod. Ni wnaeth yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus farnu fod camweinyddu wedi digwydd yn yr achos hwn a gwrthododd ymchwilio ymhellach. Nodir y manylion yn gryno isod.

1.2.1 Roedd y gŵyn allan o amser gan fod mwy na 12 mis wedi mynd heibio ers i'r achwynydd ddod yn ymwybodol o'r mater a arweiniodd at y gŵyn.

1.2.2 Nid oedd yr Ombwdsmon yn gallu ymchwilio i gŵyn os defnyddiwyd hawl i apelio i dribiwnlys statudol neu i Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, roedd y gŵyn yn ymwneud â phenderfyniad cynllunio a ystyriwyd ar apel gan yr Arolygiaeth Gynllunio ac a gadarnhawyd. Felly ni allai'r Ombwdsmon ymchwilio i'r agwedd hon o'r gŵyn.

1.2.3 Ni wnaed unrhyw gŵyn i'r Awdurdod mewn perthynas â'r mater.

## 2. Pwyllgor Safonau

2.1 Cyfarfu'r Pwyllgor unwaith yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y cyfarfod hwn fe ystyriodd nifer o faterion gan gynnwys enwebu aelodau ar y Panel Apeliadau Graddio Statws Sengl, diweddariad ar gwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Adroddiad Monitro Cwynion yn ogystal â Chaniatáu Goddefeb i aelodau Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bu'r pwyllgor hefyd yn trafod cofnodion cyfarfod o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.

## GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim goblygiadau uniongyrchol



## **ARGYMHELLIAD**

**Bod yr Awdurdod yn nodi'r adroddiad.**

## **PAPURAU CEFNDIR**

**EITEM RHIF 16**

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	09 Mehefin 2021
<b>TEITL</b>	<b>PRESENOLDEB AELODAU</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
<b>PWRPAS</b>	Er gwybodaeth

**1.0 CEFNDIR**

1.1 Mae'r Awdurdod wedi gofyn yn flaenorol i adroddiad blynyddol gael ei baratoi yn manylu ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a Phwyllgorau. Mae manylion am bresenoldeb o'r fath isod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 i'w hystyried gan yr Awdurdod. Mae'r manylion wedi'u rhannu yn ôl presenoldeb aelodau unigol yng nghyfarfodydd rhithiol yr Awdurdod, y Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad, Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Safonau. Lle nad yw aelod wedi gallu bod yn bresennol oherwydd ei fod o neu hi wedi bod i ffwrdd ar fusnes yr Awdurdod nodir hyn yn y cofnod presenoldeb.

**1.2 PRESENOLDEB AELODAU 01/04/20 – 31/03/21**

<b>Pwyllgor</b>	<b>Awdurdod</b>	<b>Cynllunio &amp; Mynediad</b>	<b>Perfformiad &amp; Adnoddau</b>
	<b>8</b>	<b>7</b>	<b>3</b>
<b>Aelodau</b>	<b>Mynychwyd</b>		
Cyng. Freya Bentham	4 (absenoldeb mamolaeth)	5	1
Cyng. Elwyn Edwards	8	7	3
Cyng. Alwyn Gruffydd	7	7	3
Cyng. Annwen Hughes	8	7	3

Cyng. Edgar W. Owen	8	7	3
Cyng. Elfed P. Roberts	7	4	3
Cyng. John Pughe Roberts	7	7	3
Cyng. Judith M. Humphreys	5	6	1
Cyng. Gethin G. Williams	8	6	3
Cyng. Ifor Glyn Lloyd	6	6	2
Cyng. Philip H. Capper	8	7	3
Cyng. Wyn E. Jones	8	4	3
Mr. Brian Angell	8	7	3
Ms. Tracey Evans	7	7	3
Ms. Elinor Gwynn (ymddiswyddo o'r Awdurdod ar 31.07.20)	2 (allan o 3 posibl)	2 (allan o 2 posibl)	0 (allan o 1 posibl)
Mr. Neil Martinson (ymddiswyddo o'r Awdurdod ar 28.02.21)	6 (allan o 8 posibl)	4 (allan o 6 posibl)	2 (allan o 2 posibl)
Mr. Tim Jones	7	6	3
Mrs Sarah Hattle (fe'i penodwyd ar yr Awdurdod ar 01.10.20)	4 (allan o 4 posibl)	2 (allan o 4 posibl)	2 (allan o 2 posibl)
Mr. Owain Wyn	8	7	2

<b>Pwyllgor</b>	<b>Safonau</b>	<b>Cyfanswm</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>16.10.20</b>	<b>1</b>
Cyng. A. Gruffydd	✓	1
Cyng. Philip H. Capper	✓	1

1.3 Fel rhan o'r adroddiad hwn rwyf hefyd wedi casglu gwybodaeth am bresenoldeb cyfartalog cyffredinol mewn canrannau mewn cyfarfodydd o'r Awdurdod a Phwyllgorau o'r 1af o Ebrill 2020 ac mae hyn wedi'i nodi isod. Rwyf hefyd wedi cynnwys canran presenoldeb ar gyfer blynyddoedd blaenorol at ddibenion cymharu.

#### 1.4 PRIF GYFARFODYDD A GYHOEDDWDYD / WEINYDDWYD

<b>CYFARFOD</b>	<b>CYNHALIWYD</b>	<b>2020-21</b>	<b>2019-20</b>	<b>2018-19</b>	<b>2017-18</b>
AWDURDOD	8	88%	82%	85%	79%
PERFFORMIAD AC ADNODDAU	3	87%	74%	81%	76%

CYNLLUNIO A MYNEDIAD	7	87%	81%	82%	89%
PWYLLGOR SAFONAU	1	100%	67%	100%	67%
<b>CYFANSWM</b>	<b>19</b>	<b>88%</b>	<b>80%</b>	<b>83%</b>	<b>83%</b>

1.5 Fel y gwelir, mae presenoldeb yn amrywio o 87% ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad a'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i 100% ar gyfer y Pwyllgor Safonau (er mai dim ond un cyfarfod o'r Pwyllgorau Safonau oedd yna yn ystod y flwyddyn). Mewn gwirionedd ychydig iawn o amrywiad sydd mewn presenoldeb, ac mae cyfarfodydd yr Awdurdod hefyd yn mwynhau presenoldeb cyffredinol o 88% ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y presenoldeb cyfartalog cyffredinol o 88% sy'n cymharu'n ffafriol â blynyddoedd blaenorol.

## 2.0 GOBLYGIADAU ADNODDAU

Dim

## 3.0 ARGYMHELLIAD

3.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gyfer dibenion gwybodaeth yn unig.

## PAPURAU CEFNDIR

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	9fed o Fehefin 2021
<b>TEITL</b>	<b>STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Pennaeth Ymgysylltu
<b>PWRPAS</b>	Argymhell i fabwysiadu'r fersiwn terfynol o'r Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu newydd. yr Awdurdod.

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Mae'r Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yn nodi sut y byddwn yn meithrin perthnasoedd ac enw da'r Awdurdod gyda'i randdeiliaid a'i gwsmeriaid dros y tair blynedd nesaf; yn ogystal â nodi sut y byddwn yn cyflawni ein pwrpasau craidd trwy weithgareddau cyfathrebu ymgysylltiol.
- 1.2 Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu bob tair blynedd. Mae hefyd yn nodi calendr cynnwys a gweithgareddau ar gyfer un flwyddyn sy'n cynnwys manylion ynghylch sut y byddwn yn gweithredu'r strategaeth dros y flwyddyn gyntaf. Bydd hyn yn cael ei adolygu'n anffurfiol a'i ddiweddarau'n rheolaidd gan y Tîm Ymgysylltu.
- 1.3 Mae'r drafft a gyflwynwyd ichi heddiw wedi'i gyd-ddatblygu gyda mewnbwn manwl o arolygon, gan staff ac o gyngor ac adborth a gafwyd gan Aelodau trwy'r **Grŵp Tasg a Gorffen Cyfathrebu**. Mae'r pethau gwerthfawr a ddysgwyd yn sgil cyfathrebiadau yn ystod Pandemig Covid hefyd wedi'i integreiddio. Yn fyr, mae'r broses ddatblygu hyd yma wedi cynnwys:
- Grŵp Tasg a Gorffen Cyfathrebu Cychwynnol
  - Gweithdy'r Tîm Ymgysylltu
  - Arolwg cyfathrebu ymysg yr holl staff
  - Adolygiad Pwynt Cyffwrdd a chrynodeb o'r arolwg wedi'i gyflwyno i'r Tîm Rheoli
  - Datblygwyd drafft cyntaf y Strategaeth
  - Cafwyd mewnbwn ar y drafft cyntaf gan:
    - Y Tîm ymgysylltu
    - Penaethiaid gwasanaeth
    - Timau prosiect
    - Tîm Rheoli
    - Grŵp Tasg a Gorffen Cyfathrebu

- 1.4 Wedi i'r aelodau roi eu hadborth yn y Gweithgor Aelodau ar y 19eg o Fai,, mae'r Strategaeth wedi cael ei diwygio, ac mae'r drafft terfynol yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Mae'r prif ddiwygiadau yn cynnwys:
- Pwysleisio'r angen i ymgysylltu a gwella'r berthynas gydag Aelodau Seneddol yn ogystal ag Aelodau'r Senedd o dan yr adran 'Cynulleidfaeodd Targed'
  - Integreiddio gweithredoedd mewn perthynas â'r gwaith ar Enwau Lleoedd Cymraeg (o dan yr adran 'Calendr Cynnwys a Gweithgaredd').
  - Adeiladu ar gysylltiad Eryri â medylfryd twristiaeth gynaliadwy (negeseuon craidd a chynllun cynnwys/gweithgaredd).
  - Datblygu modiwl rithiol ar y Parc ar gyfer ysgolion (yn yr adran addysg ar y wefan)
  - Ychwanegu mesur at fetrigau ynghylch cynyddu ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedlaethol i grwpiau anodd eu cyrraedd.
  - Cynyddu'r dealltwriaeth ar beth y Parciau Cenedlaethol a pham eu bod wedu cael eu creu- yn yr adran Negeseuon Craidd.
  - Mesur ymwybyddiaeth yr iaith Gymraeg- yn yr adran 'Metrigau'.
  - Ymhelaethu ar pam bod y gwaith o gyfathrebu mor bwysig a rhoi ystyriaeth i 'pam' yr ydym yn ymgysylltu yn ogystal â 'sut' yr ydym yn ymgysylltu- yn y cyflwyniad.
  - Diwygio a diweddarau'r asesiad metrig Pŵer/ Diddordeb (ar gael ar gais)
  - Pwyslais ar yr iaith Gymraeg- drwy hyrwyddo'r Rhinweddau Arbennig.
- 1.5 Y cam olaf fydd cynhyrchu **Fersiwn Hawdd i'w Darllen** er mwyn cyfeirio ato a'i weithredu o ddydd i ddydd.

## 2. CYD-DESTUN STRATEGOL

- 2.1 Bydd y cynllun yn cael ei gyflawni yng nghyd-destun nifer o strategaethau sefydliadol gan gynnwys:

- Cynllun Eryri
- Y Cynllun Datblygu Lleol
- Amcanion Lles yr Awdurdod a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol

## 3. NODAU CRAIDD Y STRATEGAETH

- 3.1 Nodau craidd y strategaeth, fel y'u nodir ar Dudalen 12 o'r Strategaeth (gweler Atodiad 1) yw:
- Cynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig - trwy ddefnyddio'r Rhinweddau Arbennig fel sylfaen ar gyfer themâu a negeseuon cyfathrebu.
  - Adeiladu ein perthynas â'n partneriaid: ceisio deall safbwyntiau a barn a meithrin perthnasoedd er mwyn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ar y cyd.
  - I droi ymgysylltiad yn gamau gweithredu: bod mwy o bobl yn ein helpu i edrych ar ôl Eryri yn rhagweithiol, boed hynny yn y ffordd y maent yn ymweld (gyda pharch at yr amgylchedd a phobl sy'n byw ac yn gweithio yma); darparu mwy o arian cyllido; gwneud pethau ar lawr gwlad neu roi eu hamser; adnoddau neu arian; neu trwy ddylanwadu ar eraill.

- Adeiladu ar ddealltwriaeth ac enw da'r Parc Cenedlaethol a'i frand ymhlith ein rhanddeiliaid a'n cyllidwyr â blaenoriaeth.
- Cyflawni amcanion a chanlyniadau Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol.

3.2 Mae **Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** wedi'i gynnal fel rhan o ddatblygiad y Strategaeth hon. Mae'r Asesiad yn broses barhaus trwy gydol datblygiad y Strategaeth ac mae'n cynnwys ystyriaethau o'r gofynion newydd mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gymdeithasol-economaidd.

#### 4. CANLYNIADAU DYMUNOL Y STRATEGAETH

4.1 Fel y nodir ar Dudalen 13 o'r Strategaeth ddrafft, mae'r canlyniadau a ddymunir yn y ddogfen fel a ganlyn:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o ddynodiad y Parc Cenedlaethol.
- Mwy o ddealltwriaeth o rôl, cyfrifoldebau a meysydd gwaith APCE, a chanfyddiadau cadarnhaol o'r sefydliad.
- Mwy o ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig Eryri a buddion y Parc Cenedlaethol.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Eryri (e.e., newid yn yr hinsawdd, yr economi gylchol, Brexit ac ati) a sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r rhain.
- Mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chyfunol am ofalu am y Parc.
- Defnydd parchus a chyfrifol o'r Parc Cenedlaethol.
- Pobl yn awyddus i gymryd rhan yn ein hymdrechion (naill ai yn rhithwir neu'n gorfforol).
- Bod pobl yn cael eu hysbrydoli i roi eu hamser, rhoddion neu eu cefnogaeth i ddiogelu Eryri.
- Bod pobl yn cysylltu Eryri gyda thwristiaeth gynaliadwy ac yn cael eu hysbrydoli i archwilio'r ardal ymhellach (naill ai yn rhithwir neu yn gorfforol), yn enwedig ei 'thrysorau cudd'.
- Bod ein staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'n teimlo'n wybodus.

#### 5. CYNULLEIDFAOEDD A DARGEDIR

5.1 Mae gan yr Awdurdod ystod eang iawn o randdeiliaid, ac yn aml yr her fwyaf sy'n ein hwynebu o ran ein cyfathrebiadau yw cyfathrebu ac apelio i'w holl anghenion gwahanol.

5.2 Mae'r Strategaeth (Atodiad 1) yn nodi'r cynulleidfaoedd yn fanwl ac yna'n manylu ar y gwahanol gydrannau ar gyfer y grwpiau eang troswaol.

5.3 Mae'r grwpio wedi cael ei ddatblygu yn seiliedig i raddau helaeth ar y wybodaeth a fyddai o ddiddordeb i'r cynulleidfaoedd hynny.

5.4 Mae'r hyn a ganlyn yn grwpriad ac yn grynoded eang, ond dylid darllen yr adran Cynulleidfaoedd a Dargedir o Dudalen 14 o Atodiad 1 er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o'r holl gynulleidfaoedd yr ydym yn anelu at ymgysylltu â nhw:

## **Grŵp 1: Cymunedau a Defnyddwyr**

*Y rhai sydd (o bosibl) yn defnyddio mwynderau'r Parc a / neu wasanaethau'r Awdurdod:*

- Trigolion: cymunedau lleol; tîrfeddianwyr; ffermwyr; perchnogion busnes; sector awyr agored
- Hamdden: preswylwyr; pobl ddibreswyl; ymwelwyr a darparwyr awyr agored
- Dysgwyr gweithredol
- Cwsmeriaid cynllunio
- Grwpiau Diddordeb
- Grwpiau wedi'u heithrio'n gymdeithasol, grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd sydd â nodweddion gwarchoddedig

## **Grŵp 2: Corfforaethol**

*Y rhai sydd â diddordeb yn Awdurdod y Parc fel sefydliad:*

- Gweithwyr a gwirfoddolwyr (gan gynnwys darpar weithwyr)
- Aelodau
- Cyllidwyr (Llywodraeth Cymru)
- Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd
- Sefydliadau partner (sectorau preifat, 3ydd a chyhoeddus)
- Cynghorau Cymunedol
- Cyfryngau

## **6. NEGES ALLWEDDOL**

- 6.1 Bydd y negeseuon allweddol a nodir ar Dudalen 21 o'r Strategaeth yn sylfaen i'n holl gyfathrebu. Yn ogystal, mae is-negeseuon wedi'u datblygu sy'n ceisio cyflawni amcan a chanlyniadau'r Strategaeth.

## **7. DEWISIADAU SIANEL**

- 7.1 Mae'r dewisiadau sianel wedi datblygu o ganlyniad i ddadansoddiad manwl o'n cynulleidfaoedd a'r sianeli (allfeydd newyddion / ffynonellau gwybodaeth) y maent yn fwyaf tebygol o chwilio amdanynt a derbyn gwybodaeth ohonynt.
- 7.2 Y bwriad yw ein bod ni y dyfodol yn canolbwyntio llawer mwy ar dargedu y ffordd yr ydym yn cyfathrebu yn hytrach na chael dull gweithredu fwy eang a gwasgaredig.
- 7.3 Trwy ddefnyddio'r sianeli a ffafrir gan ein cynulleidfaoedd targed rydym yn llawer mwy tebygol o ymgysylltu'n effeithiol a chyflawni ein canlyniadau.
- 7.4 Bydd hyn yn golygu symud tuag at ddulliau digidol (mae hynny wedi bod yn digwydd yn naturiol yn barod), tra'n cadw a chryfhau ffocws lleol ar gyfryngau traddodiadol (fel Papurau Bro).



## **8. HYFFORDDIANT**

- 8.1 Bydd hyfforddiant rheolaidd yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau'r Strategaeth. Bydd angen i hyn gynnwys hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid rheolaidd; hyfforddiant cyfathrebu; hyfforddiant cyfryngau / cyfweiliadau a safoni'r broses ymsefydlu.

## **9. CYLLIDEB**

- 9.1 Mae'r rhan sy'n berthnasol i'r Gyllideb o fewn y Strategaeth (tudalen 40 ymlaen) yn nodi'r adnodd a'r gwariant cyfredol ar gyfathrebu - gan gynnwys adnoddau staff yn ogystal â'r gyllideb flynyddol.
- 9.2 Mae yna nifer o bwyntiau pwysau o ran gallu staff ac mae rhai mân addasiadau wedi cynnig er mwyn mynd i'r afael â hyn.
- 9.3 Mae'r proffil gwariant ar gyfer y gyllideb flynyddol ar gyfer cyfathrebiadau wedi'i addasu er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau newidiol a nodir yn y ddogfen.

## **10. DANGOSYDDION PERFFORMIAD**

- 10.1 Dewiswyd cyfres o DP er mwyn mesur cynnydd wrth gyflawni canlyniadau'r Strategaethau. Adroddir ar y rhain yn flynyddol.

## **11. CALENDR CYNWYS A GWEITHGAREDDAU**

- 11.1 Yn olaf, mae'r calendr cynnwys a gweithgareddau (sydd eisoes yn cael ei weithredu ar gyfer 2021) yn nodi sut rydym yn anelu at gyflawni'r strategaeth yn flynyddol ac yn rhoi blas o'r mathau o weithgareddau a phrosiectau a fydd yn cael eu cynnal.

## **ARGYMHELLIAD**

Bod yr Awdurdod yn mabwysiadu'r Strategaeth a chymeradwyo ei weithrediad.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# STRATEGAETH CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

**Cynllun ar gyfer sut y byddwn yn ymgysylltu'n effeithiol â'n rhanddeiliaid**

DRAFFT TERFYNOL

## Mewnbwn ac Adolygiad

<b>Enw</b>	<b>Dyddiad cwblhau / wedi'i gynllunio</b>
Grŵp Tasg a Gorffen Cyfathrebiadau	<b>25/11/19</b>
Gweithdy'r Tîm ymgysylltu	<b>15/9/20</b>
Arolwg Cyfathrebu Staff	<b>21/9/20</b>
Crynodeb o'r arolwg (Adolygiad Pwynt Cyffwrdd) i'r Tîm Rheoli	<b>16/11/20</b>
<i>Adborth ar y Strategaeth</i>	
Ioan	<b>1/12/20</b>
Gwen	<b>7/12/20</b>
Dafydd	<b>7/12/20</b>
Tîm Ymgysylltu Ehangach	<b>E-bostiwyd ar 10/12/20. Adborth trwy e-bost ac yn Huddle.</b>
Bethan Hughes	<b>Derbyniwyd adborth 8/12/20 (E-bostiwyd ar 3/12)</b>
Adam Daniel	<b>E-bostiwyd ar 3/12</b>
Nia Roberts	<b>E-bostiwyd ar 3/12</b>
Tîm Treftadaeth Diwylliannol gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, prosiectau'r Carneddau a MTT Dolgellau	<b>E-bostiwyd ar 21.12</b> adborth erbyn 11eg Ionawr

Penaethiaid Gwasanaeth Ehangach	<b>Trwy e-bost (7/12/20) / One2One, papurau'r tîm rheoli a chyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth / cyfarwyddiaeth</b>
Tîm Rheoli	<b>14eg Rhagfyr - <i>derbyniwyd adborth a'i integreiddio.</i></b>
Bethan Hughes - Asesiad Effaith Cydraddoldeb	<b>Rhag-Ion</b>
Naomi Jones	<b>22ain Rhagfyr - trafod cysylltiadau â'r strategaeth treftadaeth ddiwylliannol</b>
Grŵp tasg a gorffen cyfathrebiadau	<b>10fed Chwefror</b>
Tîm rheoli	<b>29 Mawrth <i>Gan gynnwys Dogfen Gweithdrefnau'r Wasg a'r Cyfryngau</i></b>
Gweithgor aelodau	<b>19eg Mai</b>
Bethan Hughes - Sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb	<b>4ydd Mawrth ymlaen</b>
Awdurdod	9fed o Fehefin/
Datblygu Dalen Gryno	Dosbarthu i'r holl staff



<b>Cyflwyniad</b>	8
Cyd-destun Strategol	10
Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol a Chynllun Eryri: Cynllun y Parc Cenedlaethol	10
Amcanion Llesiant a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol	10
Strategaeth yr Adran Ymgysylltu	11
Gweithdrefnau'r Wasg a'r Cyfryngau	11
<b>Nodau Craidd y Strategaeth hon</b>	12
<b>Y Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir</b>	13
<b>Cynulleidfaoedd Targed</b>	14
Cydrannau'r gynulleidfa (Cymunedau a Defnyddwyr)	15
<b>Negeseuon Allweddol</b>	19
Y Syniad arweiniol (cynnig craidd)	20
Negeseuon Allweddol	20
<b>Dewisiadau Sianel</b>	24
Cynulleidfaoedd Cymunedol & Defnyddwyr	25
Prif sianel: Cyfathrebu Digidol	26
Sianeli eilaidd: Newyddion, Cyfryngau ac Wyneb yn Wyneb	29
Sianeli cyflenwol: Cylchgrawn, Argraffu a Dehongli	31
Cynulleidfaoedd Corfforaethol	32
Prif sianel: Wyneb yn wyneb, rhithwir a phwrpasol	32
Sianeli eilaidd: Digidol a Newyddion	35

<b>Integreiddio</b>	45
<b>Hyfforddiant</b>	46
<b>Cyllideb</b>	47
<b>Dangosyddion Perfformiad (DP)</b>	50
Metrigau Canlyniad Digidol	50
Metrigau Canlyniad Cyffredinol	53
Arolwg Enw Da (bob 2 flynedd)	56
<b>Calendr cynnwys a gweithgaredd</b>	58
2021 Cynllun Cynnwys a Gweithgaredd	58
2022-2026 Cynllun Cynnwys a Gweithgaredd Blynyddol	70
<b>Atodiadau</b>	72
Atodiad 1: Gweithdrefnau'r Wasg a'r Cyfryngau	73
Atodiad 2: Adolygiad pwynt cyffwrdd 2020	74
Atodiad 3: Cyllideb	75

# Y cynlluniau mawr yn ein strategaeth 2021

1. Newid o sylw torfol (eang a bas) i dargedu grwpiau penodol (cul a dwfn)
2. Meddwl ynghylch sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn paru ein nodau â'r adnodd sydd ar gael
3. Defnyddio'r sianeli sy'n cyflawni ein nodau craidd, yn hytrach na phob sianel.
4. Cysondeb ar draws pob sianel - defnyddio'r un ddelweddaeth, copi, brand ac ati.
5. Dod â phobl i mewn i'r stori - canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng pobl a lle





# Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn nodi'r strategaeth fwriedig ar gyfer sut y byddwn yn adeiladu, cynnal a gwarchod perthnasoedd ac enw da'r Awdurdod gyda'i randdeiliaid a'i gwsmeriaid dros y tair blynedd nesaf.**

Mae'n gosod ein hamcanion-'pam' yr ydym yn dymuno ymgysylltu; yn ogystal â 'sut' yr ydym am ymgysylltu- drwy ein dewis o sianeli a'n cynulleidfa darged blaenoriaethol

Bydd y strategaeth yn cael ei adolygu pob tair blynedd, ac mae'n amlinellu'r calendr cynnwys a gweithgaredd am flwyddyn sy'n cynnwys manylion penodol ar sut y byddwn yn gweithredu'r strategaeth yn ystod y flwyddyn gyntaf. Bydd yn cael ei adolygu'n anffurfiol ac yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gan y Tîm Ymgysylltu.

# Cyd-destun Strategol

**Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflawni yng nghyd-destun nifer o strategaethau sefydliadol:**

## **Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, Cynllun Eryri: Cynllun y Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)**

Mae Cynllun Eryri yn adlewyrchu newid yn y dull gweithredu a gymerwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol wrth greu cynllun ar gyfer rheoli Eryri a chyflawni pwrpasau craidd y Parc Cenedlaethol.

Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu yng ngwir ysbryd partneriaeth. Rydym wedi gweithio'n agos nid yn unig gyda'r sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldebau statudol, ond gyda'r holl sefydliadau sy'n ymwneud mewn rhyw ffordd â gofalu am Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd y cynllun cyfathrebu hwn yn ymgorffori elfennau perthnasol Cynllun Eryri yn y [Nodau](#) a'r [Cynllun Gweithredu](#)

Yn benodol yr amcan o wneud y Rhinweddau Arbennig yn sylfaen graidd i'r ['Negeseuon Allweddol'](#).

Yn ogystal, bydd y strategaeth hon yn anelu i gyflawni'r amcanion sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu a geir yn y CDLI

## **Amcanion Llesiant a'r Rhaglen Waith Gorfforaethol**

- Bydd y strategaeth hon yn cefnogi cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.
- Pan adolygir yr Amcan Gwella a Lles, bydd y [Nodau](#) sydd wedi eu cynnwys yn y strategaeth hon yn helpu i lywio unrhyw newidiadau.
- Bydd elfennau perthnasol y [Cynllun Gweithredu](#) a gynhwysir yn y strategaeth hon yn cael eu hintegreiddio i'r prosiect a'r mentrau yn Rhaglen Waith Gorfforaethol yr Awdurdod.
- Bydd Dangosyddion Perfformiad yr Awdurdod yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r [mesurau newydd](#) a nodir yn y strategaeth hon.

## **Strategaeth yr Adran Ymgysylltu**

Mabwysiadwyd strategaeth newydd gan y tîm Ymgysylltu ddiwedd 2019. Mae'r strategaeth yn nodi gweledigaeth, strategaeth a strwythur ar gyfer yr adran. Fe'i cynlluniwyd gyda'r gallu a'r sgiliau, a'r adnoddau sydd ar gael mewn golwg. Mae Strategaeth yr Adran Ymgysylltu yn cynorthwyo i gyflawni strategaeth gyffredinol yr Awdurdod a bydd yn cael ei adolygu/ diwygio i fabwysiadu'r strategaeth hon os y bydd angen.

## **Gweithdrefnau'r Wasg a'r Cyfryngau**

Gellir gweld gweithdrefnau wasg a chyfryngau'r Awdurdodau yn [Atodiad 1](#). Mae'r prif bwyntiau a gwmpesir yn y gweithdrefnau yn cynnwys:

- Egwyddorion allweddol ar gyfer cyfathrebiadau cyhoeddus gan yr Awdurdod.
- Y prosesau ar gyfer ymdrin â'r wasg.
- Protocolau ar gyfer cyhoeddi datganiadau a datganiadau i'r wasg.
- Canllawiau ar gyfer materion sydd a wnelo cyfathrebiadau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

# Nodau Craidd y Strategaeth hon

## **Beth sydd angen i'n cyfathrebiadau ei wneud, er mwyn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei Bwrpasau yn effeithiol?**

Rydyn ni yma fel sefydliad i ofalu am Eryri. Heb gynnwys pobl yn effeithiol ynghylch pam fod hyn yn bwysig i'w wneud, ni fyddwn yn llwyddo. Mae llwyddiant ein cenhadaeth wedi'i ymblethu yn ein gallu i gysylltu â'n cynulleidfaoedd targed. Y bwriad yw ymgysylltu yn y fath fodd fel eu bod yn cael eu symud i weithredu - i'n helpu i ofalu am y Parc Cenedlaethol.

### **Ein nodau craidd trwy'r strategaeth hon felly yw:**

- Cynyddu dealltwriaeth pobl o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig - trwy ddefnyddio'r Rhinweddau Arbennig fel sylfaen ar gyfer themâu cyfathrebu a negeseuon.
- Adeiladu ein perthynas gyda'n partneriaid: i geisio deall eu barn a'u safbwyntiau, ac adeiladu perthnasau er mwyn cyflawni ar pwrpasau'r Parc Cenedlaethol ar y cyd.
- Sbarduno gweithrediad trwy gyfrwng yr ymgysylltiad: fel bod mwy o bobl yn ein helpu'n rhagweithiol i ofalu am Eryri, boed hynny yn y ffordd y maent yn ymweld (gyda pharch at yr amgylchedd a phobl sy'n byw ac yn gweithio yma); a darparu mwy o arian; gwneud pethau ar lawr gwlad neu roi eu hamser; adnoddau neu arian; neu trwy ddylanwadu ar eraill.
- Adeiladu ar ddealltwriaeth ac enw da'r Parc Cenedlaethol a'i frand ymysg ein rhanddeiliaid a buddsoddwyr blaenoriaethol.
- Cyflawni amcanion a chanlyniadau Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol.

# Y Canlyniadau Cyfathrebu a Ddymunir

Byddwn yn gwybod ein bod wedi bod yn llwyddiannus gyda'n hymdrechion os ydym yn cyflawni'r hyn a ganlyn gyda'n rhanddeiliaid:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o ddynodiad y Parc Cenedlaethol.
2. Gwell dealltwriaeth o rôl, cyfrifoldebau a meysydd gwaith APCE, a chanfyddiadau cadarnhaol o'r sefydliad.
3. Mwy o ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig Eryri a buddion y Parc Cenedlaethol.
4. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Eryri (e.e. newid yn yr hinsawdd, yr economi gylchol, Brexit ac ati) a sut mae'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys lleisio uwch ar bynciau o ddiddordeb mawr perthnasol.
5. Mwy o ymdeimlad o gyfrifoldeb personol a chyfunol dros ofalu am y Parc.
6. Defnydd parchus a chyfrifol o'r Parc Cenedlaethol.
7. Pan fo pobl yn awyddus i ymgysylltu a chymryd rhan yn ein hymdrechion (naill ai'n rhithiwr neu'n gorfforol).
8. Pan fo pobl yn cael eu hysbrydoli i roi eu hamser, eu rhoddion neu eu cefnogaeth i amddiffyn Eryri.
9. Pan fo pobl yn cysylltu Eryri â thwristiaeth gynaliadwy ac yn cael eu hysbrydoli i archwilio'r ardal ymhellach (naill ai'n rhithiwr neu'n gorfforol), yn enwedig ei 'thrysorau cudd'.
10. Pan fo ein staff, gwirfoddolwyr a'n haelodau'n teimlo bod ganddynt wybodaeth dda.

# Cynulleidfaoedd Targed

## Pwy yw ein cynulleidfaoedd targed a sut ydyn ni'n ymgysylltu orau â nhw?

Ein rhanddeiliaid yw'r unigolion neu'r sefydliadau hynny sydd â diddordeb yn yr Awdurdod neu â dylanwad drosto.

Mae'r canlynol yn grŵp eang o randdeiliaid allweddol yr Awdurdod.

<b>Cymunedau a Defnyddwyr</b> <i>Y rhai sydd (o bosibl) yn defnyddio cyfleusterau'r Parc a / neu wasanaethau'r Awdurdod</i>	<b>Corfforaethol</b> <i>Y rhai sydd â diddordeb yn Awdurdod y Parc fel sefydliad</i>
<p>Trigolion: cymunedau lleol; tirfeddianwyr; ffermwyr; perchnogion busnes; sector awyr agored</p> <p>Hamdden: preswylwyr; pobl di-breswyl; ymwelwyr a darparwyr gweithgareddau awyr agored</p> <p>Dysgwyr gweithredol</p> <p>Cwsmeriaid cynllunio</p> <p>Grwpiau Diddordeb</p> <p>Grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol, anodd eu cyrraedd a grwpiau â nodweddion a warchodir</p>	<p>Gweithwyr a gwirfoddolwyr (gan gynnwys darpar weithwyr)</p> <p>Aelodau</p> <p>Cyllidwyr (Llywodraeth Cymru)</p> <p>Gwleidyddion, Aelodau'r Senedd ac Aelodau Seneddol</p> <p>Sefydliadau partner (preifat, 3ydd sector a'r sector cyhoeddus)</p> <p>Cynghorau Cymunedol</p> <p>Cyfyngau, yn cynnwys 'The Press Association'</p>

**Cymunedau a Defnyddwyr** - mae'n debyg y bydd ganddynt ddealltwriaeth o Eryri, a diddordeb ynddi, ond gellir dylanwadu yn haws ar eu canfyddiadau a'u hagweddau na chanfyddiadau cynulleidfaoedd corfforaethol. Felly fe'u hystyrir fel cynulleidfa gynradd.

Crynoir y cydrannau blaenoriaeth o fewn y gynulleidfa Cymunedau a Defnyddwyr yn y tabl isod.

**Cynulleidfaoedd corfforaethol** maent yn debygol o fod â gwybodaeth / dealltwriaeth sefydledig o APCE, ac felly bydd ganddynt ofynion gwybodaeth penodol. Mae cynulleidfaoedd corfforaethol hefyd yn debygol o gymryd diddordeb mwy gweithredol a chymryd rhan uniongyrchol yn y Parc / Awdurdod trwy amrywiol sianeli cyfathrebu.



## Cydrannau'r gynulleidfa (Cymunedau a Defnyddwyr)

Cydran	Disgrifiad	Prif faes (ydd) diddordeb
<p><b>Trigolion</b></p> <p>Trigolion lleol</p> <p>Tirfeddianwyr</p> <p>Ffermwyr</p> <p>Perchnogion busnes</p> <p>Sector awyr agored</p>	<p>Pobl sy'n byw a / neu'n gweithio yn Eryri, ac fel y cyfryw maen nhw'n ddefnyddwyr rheolaidd o'r dirwedd. Er efallai nad ydyn nhw'n ymwybodol neu'n cymryd rhan weithredol, mae llawer o weithgareddau craidd APCE yn effeithio'n uniongyrchol / anuniongyrchol arnyn nhw. Maent yn debygol o fod â rhywfaint o berthynas emosynol tuag at y Parc, ac yn gwerthfawrogi ei Rinweddau Arbennig, boed hynny'n ymwybodol neu'n hisymwybod.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>· Gwaith cadwraeth a gwella</li> <li>· Amaethyddiaeth a rheoli tir</li> <li>· Mentrau amgylcheddol</li> <li>· Yr iaith a diwylliant Cymraeg</li> <li>· Digwyddiadau</li> <li>· Gwirfoddoli / cefnogi'r Parc</li> <li>· Ceisiadau a phenderfyniadau cynllunio</li> <li>· Darparu sylwadau, adborth neu gwynion</li> </ul>
<p><b>Hamdden</b></p> <p>Trigolion</p> <p>Pobl Di-breswyl</p> <p>Ymwelwyr</p> <p>Sector awyr agored</p>	<p>Pobl sy'n defnyddio (neu sydd â diddordeb mewn defnyddio) Eryri ar gyfer dibenion hamdden a mwynhad. Efallai eu bod nhw'n byw yn y Parc, neu gallant fod yn ymwelwyr o rannau eraill o Gymru, y DU neu dramor. Maent yn debygol o fod â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud y Parc yn arbennig ac yn agored i gael eu</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>· Pethau i'w gwneud / gweld</li> <li>· Profiadau unigryw - 'trysorau cudd'</li> <li>· Gwybodaeth am fynediad a diogelwch</li> <li>· Cyfleusterau a gwasanaethau i ymwelwyr (Canolfannau Croeso, parcio, Sherpa ac ati)</li> <li>· Digwyddiadau</li> </ul>

	hysbrydoli i archwilio - yn rhithiol ac yn gorfforol.	· Siop ar-lein
<p>Dysgwyr gweithredol</p> <p>Myfyrwyr</p> <p>Athrawon / darlithwyr</p> <p>Ymchwilwyr</p> <p>Ssector y celfyddydau</p>	<p>Pobl sydd eisiau dysgu am Barc Cenedlaethol Eryri yn rhagweithiol, naill ai at ddibenion addysg ffurfiol (h.y. ysgol, coleg) neu oherwydd diddordeb cyffredinol. Maent yn debygol o ymweld â'r wefan i gael gwybodaeth ac adnoddau ar-lein, ynghyd â manylion cyrsiau, teithiau addysgol ac ati.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>· Adnoddau addysgol</li> <li>· Cyrsiau</li> <li>· Cadwraeth</li> <li>· Yr Amgylchedd</li> <li>· Bywyd Gwyllt ac ecoleg</li> <li>· Treftadaeth a hanes</li> <li>· Iaith a diwylliant <ul style="list-style-type: none"> <li>· Y celfyddydau a ffotograffiaeth</li> </ul> </li> <li>· Cyfleoedd gwirfoddoli</li> </ul>

<p>'Cwsmeriaid' cynllunio</p> <p>Ymgeiswyr</p> <p>Ymgynghorwyr / asiantau</p> <p>Trigolion lleol</p>	<p>Pobl sy'n ystyried, neu yn y broses o, baratoi ceisiadau cynllunio i'w cyflwyno i'r Parc yn ogystal â'r rhai sy'n dymuno archwilio ceisiadau cynllunio byw. Er efallai y gallant gael eu troi'n borwyr safleoedd mwy cyffredinol, yn y lle cyntaf bydd ganddynt ofynion penodol iawn ac yn disgwyl cael llwybr hawdd a chyflym at wybodaeth gysylltiedig â chynllunio. Maent yn debygol o gysylltu â Swyddogion Cynllunio (e.e. dros y ffôn neu e-bost) os ydynt yn dod ar draws rhwystrau cynnar at wybodaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>· Polisiau a chanllawiau cynllunio</li> <li>· Ceisiadau cynllunio</li> <li>· Hysbysiadau penderfyniadau cynllunio</li> <li>· Gwybodaeth dechnegol</li> <li>· Manylion cyswllt</li> </ul>
<p>Grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol, sy'n anodd eu cyrraedd a grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig*</p> <p>Ieuenctid</p> <p>Yr Henoed</p> <p>Anabl</p> <p>BAME</p> <p>Cymunedau ynysig / gwledig</p> <p>Grwpiau ffydd</p>	<p>Pobl sydd o dan anfantais neu wedi'u gwahardd oherwydd eu lefel addysg, oedran, rhyw, lefel incwm neu leoliad. Pobl sydd fel rheol yn cael eu tangynrychioli mewn bywyd cyhoeddus. Gall gweithio gydag elusennau, cyrff anllywodraethol, grwpiau ieuenctid a grwpiau buddiant cymunedol gynorthwyo i gyfathrebu â'r grwpiau hyn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>· Gall fod yn bob un o'r uchod, fodd bynnag mae angen gwell dealltwriaeth o'r anghenion, a ddylai gael eu hadeiladu yn ystod oes y strategaeth yma.</li> </ul>

Sipsiwn a theithwyr		
Cymunedau incwm isel / difreintiedig		
Rhywedd		
LGBT		
<i>* Bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn cael ei gynnal ac yr addasir y Strategaeth i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion y gydran hon o'r gynulleidfa.</i>		

# Negeseuon Allweddol

**Negeseuon allweddol yw'r prif bwyntiau yr ydym am i'n cynulleidfaoedd targed eu clywed a'u cofio. Maen nhw'n creu ystyr ac yn bennawd y materion rydyn ni am eu trafod.**

Maent yn caniatáu inni reoli cyfathrebiadau, gwella perthnasoedd â'n cynulleidfaoedd targed a byddant yn nodwedd bwysig o unrhyw ymgyrchoedd a chynlluniau cyfathrebu prosiect.

## Y Syniad arweiniol (cynnig craidd)

**Mae Eryri yn Barc Cenedlaethol â Rhinweddau Arbennig. Bydd hyn wrth galon yr hyn yr ydym am i bobl ymgysylltu ag o.**

Trwy ddechrau gyda'r ffaith sylfaenol bod Eryri yn dirwedd warchoddedig arbennig - Parc Cenedlaethol, a thrwy roi'r Rhinweddau Arbennig ar y blaen ac yn y canol.

Drwy gynnwys pobl wrth amddiffyn yr ardal yn yr ail bwrpas byddwn yn cyflawni'r pwrpas cyntaf; I warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal, ynghyd â chyfrifoldebau Awdurdod: i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n amcanu tuag at y pwrpasau hyn..

## Negeseuon Allweddol

1. Rydyn ni yma fel sefydliad i ofalu am y Parc Cenedlaethol, ei chymunedau, treftadaeth, ei thirwedd a bywyd gwyllt.
2. Mae'r bobl sy'n byw yma, eu diwylliant, eu hiaith, a'u cysylltiad â'r tir yn rhan gynhenid o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig.
3. Mae Eryri yn un o'r lleoliadau gorau ym Mhrydain i fwynhau'r buddion o fod yn yr awyr agored er lles iechyd meddwl a chorfforol ond mae'n dirwedd fregus a gwarchoddedig - troediwch yn ysgafn pan fyddwch chi'n ymweld.

Ategir y negeseuon hyn gan nifer o is-negeseuon, fel y nodir yn y tabl isod.

<b>Neges allweddol</b>	<b>Is-negeseuon</b>
<p>Rydyn ni yma fel sefydliad i ofalu am y Parc Cenedlaethol- ei thirweddau, cynefinoedd a'r bobl sy'n byw yma.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae APCE yn amddiffyn ac yn gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, ac mae'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, trwy'r Cynllun Rheoli ac amrywiol brosiectau a gweithgareddau.</li> <li>• Mae gan Eryri gyfleoedd busnes ac economaidd, yn enwedig yn yr economïau cylchol a sylfaenol, ac mae brand y Parc Cenedlaethol yn adnodd pwerus i fusnesau.</li> <li>• Mae APCE yn gweithio gyda phartneriaid, cymunedau, busnesau a thirfeddianwyr i feithrin mentergarwch cynaliadwy a gweithgaredd economaidd, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.</li> <li>• Mae APCE yn hyrwyddo mwynhad a lles cymunedau ac ymwelwyr lleol.</li> <li>• Mae datblygiadau o ansawdd uchel yn gwella Eryri i bawb</li> </ul>

<p>Mae'r bobl sy'n byw yma, eu diwylliant, eu hiaith, a'u cysylltiad â'r tir yn rhan gynhenid o'r hyn sy'n gwneud Eryri yn arbennig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Eryri yn dirwedd fyw, lle mae pobl yn byw, gweithio a mwynhau.</li> <li>• Dyma'r rhesymau dros greu Parciau Cenedlaethol</li> <li>• Mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn chwarae rhan gref yn hunaniaeth Eryri, ac yn arbennig enwau lleoedd.</li> <li>• Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth edrych ar ôl Eryri ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a hyrwyddo ei chynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.</li> </ul>
<p>Mae Eryri yn un o'r llefydd gorau ym Mhrydain i fwynhau'r buddion o fod yn yr awyr agored er lles iechyd meddwl a chorfforol, ond mae'n dirwedd fregus a gwarchoddedig - troediwch yn ysgafn pan fyddwch yn ymweld.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Eryri yn gartref i rywogaethau a chynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol a daeareg fyd-enwog. <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Eryri wrth wraidd twristiaeth gynaliadwy</li> </ul> </li> <li>• Mae Eryri yn ardal o harddwch rhyfeddol ac ansawdd amgylcheddol.</li> <li>• Mae gan Eryri ran bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.</li> <li>• Mae Eryri yn unigryw oherwydd ei thirwedd, cymunedau, iaith a diwylliant, hanes, daeareg a bioamrywiaeth.</li> <li>• Mae buddion lles meddyliol a chorfforol enfawr o fod yn yr awyr agored ac mae Eryri yn un o'r llefydd gorau i gael y profiad o hyn.</li> </ul>

- Mae Eryri yn cynnig cyfleoedd hamdden a lles i bawb - mae ganddi fynyddoedd, arfordir, bryniau, llynnoedd a choedwigoedd i'w harchwilio.
- Rhaid defnyddio a mwynhau Eryri gyda pharch fel bod ei nodweddion arbennig yn cael eu diogelu.
- Defnyddir arian a godir trwy roddion a phryniannau yn uniongyrchol i gefnogi gwaith APCE fel y corff statudol sy'n gyfrifol am ddiogelu'r Parc.



# Dewisiadau Sianel


**Datblygwyd y dewisiadau sianel hyn trwy gynnal dadansoddiad cynulleidfa (o'n cynulleidfaoedd targed) a'r broses flaenoriaethu (gweler [Adolygiad pwynt cyffwrdd 2020](#)).**

Isod, rydym yn nodi'r dewisiadau sianel ar gyfer ein cynulleidfaoedd defnyddwyr a chorfforaethol. Mae'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth yn fewnol yn sylfaenol i'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu'n allanol.

Bydd ein prif sianeli cyfathrebu yn canolbwyntio mwy ar y digidol ond gyda dulliau traddodiadol cyflenwol.

## Gwyllo teledu wedi ei ddarlledu fesul grŵp oed yng Nghymru

(munudau ar gyfartaledd dyddiol)



Ffynhonnell: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0007/200500/cyfryngau-cenedl-2020-cymru.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0007/200500/cyfryngau-cenedl-2020-cymru.pdf)

# Cynulleidfaoedd Cymunedol a Defnyddwyr

<b>Prif sianel:</b> Cyfathrebu Digidol	<b>Cymuned a Defnyddwyr</b> <i>Y rhai sydd (o bosibl) yn defnyddio cyfleusterau'r Parc a / neu wasanaethau'r Awdurdod</i>					
	<b>Hamdden:</b> preswylwyr; pobl dibreswyl; ymwelwyr; grwpiau diddordeb	<b>Preswyl:</b> cymunedau lleol; tîrfeddianwyr; ffermwyr; perchnogion busnes; darparwyr gweithgareddau awyr agored	<b>Dysgwyr gweithred ol</b>	<b>Cwsmeriai d cynllunio</b>	<b>Cwsmeri aid cynllunio</b>	<b>Grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol</b>
<b>Gwefan APCE</b> Gwefan newydd (wedi'i galluogi ar gyfer ffonau clyfar) Sgwrs ar-lein / sgwrs fyw Gwell Optimeiddio Peiriannau Chwilio (OPCh)	<input checked="" type="checkbox"/> Gwell Optimeiddio Peiriant Chwilio ar gyfer gyrru traffig perthnasol. Sgwrs fyw yn cael ei darparu gan staff y ganolfan Ymwelwyr a'r dderbynfa? Teithiau cerdded llesiant ar y wefan i breswylwyr. Datblygu "Sut i" e.e. Sut i ymweld	<input checked="" type="checkbox"/> Adrannau a chanllawiau wedi'u targedu ar y wefan	<input checked="" type="checkbox"/> Parth dysgu ar y wefan (addysg ar bob lefel) yn cynnwys modiwlau fideo ar waith y Parc ar gyfer ysgolion.	<input checked="" type="checkbox"/> Adran a ffurflenni gwell ar y wefan, gan gynnwys canllawiau defnyddwyr a llywio hawdd.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> Mae'r wefan wedi'i gwella i fodloni'r Gofynion Hygyrchedd newydd. Cynnal y lefelau a gyflawnwyd.
<b>Cyfryngau cymdeithasol</b>	<input checked="" type="checkbox"/> Postiadau a fideos wedi'u targedu ar gyfer	<input checked="" type="checkbox"/> Postiadau wedi'u targedu ar gyfer pynciau sy'n	<input checked="" type="checkbox"/> Presenoldeb estynedig ar Linked-in	<input checked="" type="checkbox"/> Hyrwyddo canllawiau defnyddwyr (wedi'u	<input checked="" type="checkbox"/> Targeddu grwpiau penodol	<input checked="" type="checkbox"/> Postiadau wedi'u targedu a hyrwyddo cylchlythyr digidol i'r grwpiau hyn


<p>Facebook (<i>gan gynnwys digwyddiadau byw Facebook a defnyddio hysbysebu digwyddiadau</i>)          Trydar / Twitter          Instagram (<i>wedi'i ehangu</i>)          Cysylltiedig (<i>newydd</i>)          Sianel Youtube Linked-in (<i>cynnwys fideo estynedig a rheolaidd</i>)          Spotify - <i>podcastiau</i></p>	<p>ymgyrchoedd ymwelwyr haf. Anfon traffig at y wefan.</p>	<p>gysylltiedig â thrigolion</p>		<p>targedu at breswylwyr</p>		
<p><b>E-gylchlythyrau (trwy ddefnyddio mailchimp)</b>          Cylchlythyr misol          Cylchlythyr Partneriaeth yr Wyddfa</p>	<p><input checked="" type="checkbox"/> E-gylchlythyr misol. Gweithio ar wella cynulleidfaoedd o grwpiau anodd eu cyrraedd.</p>	<p><input checked="" type="checkbox"/> Adrannau a chanllawiau wedi'u targedu ar y wefan. Cylchlythyr Partneriaeth Yr Wyddfa.</p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input checked="" type="checkbox"/> Grwpiau targed ar gyfer derbyn cylchlythyr</p>	<p><input checked="" type="checkbox"/> Grwpiau targed ar gyfer derbyn cylchlythyr - yn cynnwys grwpiau sy'n cynrychioli nodweddion gwarchoddedig, boed yn bobl anabl, pobl ifanc neu hŷn, grwpiau merched, grwpiau crefyddol, LGBT, grwpiau BAME ac ati, yn ogystal â chynghorau cymunedol.</p>

**Figure 1.2: Proportion of UK population who ever go online, at home or elsewhere, by age**

	3-4	5-7	8-11	12-15	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Incidence of going online, by age (%)	57	77	92	99	98	100	98	93	83	70	49

Source: Ofcom Parents' and Children's Media Literacy Tracker 2019, ages 3-15; Ofcom Adults' Media Literacy Tracker 2019, ages 16+. Note: Children's figures based on users who 'ever go online at home or elsewhere'.

**Figure 1.6: Devices used for accessing the internet**



Source: Comscore MMX Multi-Platform, Age: 18+, Sep 2019, UK.

Note: Measured time includes activity where data is available (desktop and laptop PCs, tablets and smartphones); it therefore excludes activity on smart TVs, smart speakers and other internet-connected devices.

Ffigyrau a delweddau o adroddiad Ofcom UK

<b>Sianeli eilaidd: Newyddion, Cyfryngau ac Wyneb yn Wyneb</b>	<b>Cymuned a Defnyddiwr</b> <i>Y rhai sydd (o bosibl) yn defnyddio cyfleusterau'r Parc a / neu wasanaethau'r Awdurdod</i>					
	<b>Hamdden:</b> <b>preswylwyr;</b> <b>dibreswyl;</b> <b>ymwelwyr;</b> <b>grwpiau</b> <b>diddordeb</b>	<b>Preswyl:</b> <b>cymunedau</b> <b>lleol;</b> <b>tirfeddianwyr;</b> <b>ffermwyr;</b> <b>perchnogion</b> <b>busnes;</b> <b>darparwyr</b> <b>gweithgaredda</b> <b>u awyr agored</b>	<b>Dysgwyr</b> <b>gweithre</b> <b>dol</b>	<b>Cwsmeria</b> <b>id</b> <b>cynllunio</b>	<b>Cwsmeria</b> <b>id</b> <b>cynllunio</b>	<b>Grwpiau</b> <b>sydd</b> <b>wedi'u</b> <b>heithrio'n</b> <b>gymdeith</b> <b>asol</b>
<b>Newyddion a'r Cyfryngau</b> BBC One Wales ac ITV Wales Grŵp cyrraedd: Mirror, Western Mail, Daily Post, Daily Express, Manchester evening News, Liverpool Echo BBC Ar-lein / Online Safleoedd Newyddion y DU: Sun, Times Papurau bro, Golwg, Golwg 360, The Press Association Cylchgronau diddordeb penodol ac eitemau newyddion rheolaidd e.e. atodiad ffermio yn y Daily Post.	<input checked="" type="checkbox"/> Hyrwyddo negeseuon allweddol e.e. cod cefn gwlad. Yn gyson ar draws y sianeli rhanbarthol a chenedlaethol.	<input checked="" type="checkbox"/> Straeon newyddion da ar sianeli rhanbarthol	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> Defnyddio straeon newyddion cynllunio i gynyddu ymwybyddi aeth o broses a rheoliadau	<input checked="" type="checkbox"/> Targedu cylchgrona u diddordeb penodol	<input checked="" type="checkbox"/>

<p><b>Wyneb i wyneb</b></p> <p>Cyfarfodydd cymunedol a grwpiau buddiant</p> <p>FfMLI</p> <p>Wardeiniaid</p> <p>Staff maes parcio</p> <p>Staff y Canolfannau Croeso</p> <p>Staff prosiect</p> <p>Gwirfoddolwyr (wedi'u hehangu)</p> <p>Llysgenhadon y Parc</p> <p>Swyddogion cynllunio</p> <p>Desg y dderbynfa</p> <p>Staff swyddfa</p> <p>Aelodau [Mwy o ddefnydd o'r 'pencampwyr' a chaderyddion grwpiau a.y.b, a chynnig hyfforddiant i aelodau]</p>	<p>✓</p> <p>FfMLI</p>	<p>✓</p> <p>Cyfarfod Cyswllt Amaeth</p> <p>FfMLI</p>	<p>✓</p>	<p>✓</p>	<p>✓</p>	<p>✓</p> <p>Fforwm Cydraddold eb *</p> <p>* Mae angen adolygu a thrawsnewid y Fforwm Cydraddold eb i fod yn addas at y diben. Gallai hwn fod yn Fforwm gwych i estyn allan at Grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol.</p>
--	-----------------------	--	----------	----------	----------	--

Sianeli cyflenwol: Cylchgrawn, Argraffu a Dehongli	<b>Cymuned a Defnyddwyr</b> <i>Y rhai sydd (o bosibl) yn defnyddio cyfleusterau'r Parc a / neu wasanaethau'r Awdurdod</i>					
	<b>Hamdden:</b> Preswylwyr; pobl dibreswyl; twrsitiaid ymwelwyr; grwpiau diddordeb	<b>Preswyl:</b> cymunedau lleol; tirfeddianwyr; ffermwyr; perchnogion busnes; darparwyr gweithgraedd au awyr agored	<b>Dysgwyr</b> gweithre dol	<b>Cwsmeria</b> id cynllunio	<b>Cwsmeria</b> id cynllunio	<b>Grwpiau</b> sydd wedi'u heithrio'n gymdeith asol
Arwyddion	☑	☒	☒	☒	☑	☑
Poster / hysbysiadau	☑	☑	☒	☑	☑	☑
Cylchgrawn Eryri (post ac ar y safle)	☑	☑ Adran well ar gyfer preswylwyr	☑ Adran ar gyfer ysgolion	☑ Adran ar gynllunio	☑	☑
Byrddau gwybodaeth	☑	☒	☑	☒	☑	☑
Hysbysfyrdau wardeiniaid	☑	☒	☑	☒	☑	☑



# Cynulleidfaoedd Corfforaethol

<b>Prif sianel:</b> Wyneb yn wyneb, rhithwir a phwrpasol	<b>Cynulleidfaoedd Corfforaethol</b> <i>Y rhai sydd â diddordeb yn Awdurdod y Parc fel sefydliad (gwybodaeth a dealltwriaeth sefydledig o APCE)</i>						
	<b>Gweithwyr a gwirfoddolwyr (gan gynnwys darpar weithwyr)</b>	<b>Aelodau</b>	<b>Cyllidwyr (Llywodraeth Cymru)</b>	<b>Gwleidyddi on ac Aelodau o'r Senedd</b>	<b>Sefydliadau partner</b>	<b>Cynghorau Cymunedol</b>	<b>Cyfyngau</b>
<b>1-i-1</b> Microsoft Teams Yn bersonol neu drwy alwad fideo Galwadau ffôn Desg y dderbynfa	<input checked="" type="checkbox"/> Defnydd eang o MS teams	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> Ar gyfer gweision sifil hŷn, cynnig briffio ar bynciau llosg, diweddariadau negeseuon ar broblemau mawr sydd yn dod i'r amlwg	<input checked="" type="checkbox"/> Briffio rheolaidd i wledyddion y rhanbarth	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> Dechrau adeiladu perthnasoedd un-2-un â newyddiadau rwy'r o allfeydd allweddol
<b>E-bost</b> Diweddariadau unigol wedi'u targedu	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> Darparu detholiadau cynnar ar gyfer cysylltiadau allweddol

<p><b>Sharepoint (neu debyg)</b> Mewnol yn unig</p>	<p><input checked="" type="checkbox"/> Rhannu pob cofnod o'r cyfarfodydd a'r llyfrgell ffotograffau (bydd yn digwydd ar y Fewnrwyd). Newyddion a chyflawniadau staff.</p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>
<p><b>Cyfarfodydd Tîm, Tîm Rheoli a Phenaethiaid Gwasanaeth</b> Cyfarfodydd tîm (bob pythefnos o leiaf) Tîm rheoli (bob pythefnos) Cyfarfodydd Penaethiaid Gwasanaeth (bob pythefnos) Cyfarfodydd Cyfarwyddiaethau (bob pythefnos)</p>	<p><input checked="" type="checkbox"/> Rhannu cofnodion yn eang</p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>
<p><b>Whatsapp</b> Grwpiau Whatsapp Mewnol</p>	<p><input checked="" type="checkbox"/> Rhannu lluniau a gwybodaeth gan staff rheng flaen. Rhannu diweddariadau cyfryngau cymdeithasol APCE Edrych ar sefydlu grŵp ar gyfer rheoli ymwelwyr - cyswllt rhwng Wardeiniaid a staff swyddfa / cyfathrebiadau.</p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>	<p><input type="checkbox"/></p>

<p><b>E-gylchlythyrau a Bwletinau</b>  E-fwletin staff ac aelodau bob pythefnos gan gynnwys diweddariadau adrannol (dwy adran ar y tro)  Cylchlythyr misol APCE  Cylchlythyr Partneriaeth yr Wyddfa  Diweddariad Prif Weithredwr i'r staff  Adroddiad y Cadeirydd (digideiddio i gylchlythyr byr ac erthygl bellach ar y wefan)</p>	<input checked="" type="checkbox"/> E-fwletin staff ac aelodau Cylchlythyr misol APCE Diweddariad Prif Weithredwr i'r staff	<input checked="" type="checkbox"/> E-fwletin staff ac aelodau Cylchlythyr misol APCE	<input checked="" type="checkbox"/> Cylchlythyr misol APCE: targedu gweision sifil perthnasol ar gyfer cofrestru	<input checked="" type="checkbox"/> Cylchlythyr misol APCE: targedu AS / AC perthnasol i ymuno	<input checked="" type="checkbox"/> Cylchlythyr misol APCE: targedu sefydliadau a staff perthnasol ar gyfer cofrestru. Cynnig cyfleoedd i bartneriaid gynnwys straeon. Cylchlythyr Partneriaeth yr Wyddfa	<input checked="" type="checkbox"/> Cylchlythyr misol APCE: targedu cynghorau cymunedol ar gyfer cofrestru	<input checked="" type="checkbox"/> Cylchlythyr misol APCE: targedu newyddiadau rwyр perthnasol ar gyfer cofrestru
<p><b>Cyfringau Cymdeithasol</b>  Facebook (<i>gan gynnwys digwyddiadau byw Facebook a defnyddio hysbysebu digwyddiadau</i>)  Trydar / Twitter  Instagram (<i>wedi'i ehangu</i>)  Linked-in (<i>newydd</i>)  Sianel Youtube (<i>cynnwys fideo estynedig a rheolaidd</i>)</p>	<input checked="" type="checkbox"/> Rhannu dolenni cyfringau cymdeithasol ar Whatsapp staff.	<input checked="" type="checkbox"/> Annog aelodau i ddilyn a rhannu. Datblygu dilyniant Linked-in.	<input checked="" type="checkbox"/> Gwell sylw i Linked-in. Datblygu dilyniant Linked-in.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> Rhannu mwy o newyddion partner perthnasol.	<input checked="" type="checkbox"/> Dilyn, a rhannu cynnwys perthnasol	<input checked="" type="checkbox"/>
<p><b>Cyfarfodydd yr Awdurdod</b>  Rhoi ystyriaeth i'r ffordd y gallwn addasu i wneud cyfarfodydd yn fwy hygyrch i'r cyhoedd e.e cyfarfodydd</p>	<input checked="" type="checkbox"/> Rhannu dolen fideo ar gyfer cyfarfodydd agored gyda'r holl staff.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/> Gwahodd sefydliadau partner i gyflwyno fel rhan o ddiweddariad	<input checked="" type="checkbox"/> Cyfarfodydd cyhoeddus	<input checked="" type="checkbox"/> Cyfarfodydd cyhoeddus


Awdurdod a phwyllgor cynllunio i'w ffrydio'n rhithiol/ byw.	Cynnal rhai cyfarfodydd yn y Pencadlys felly gwella rhyngweithio â staff.				au Fforwm Eryri / Cynllun Eryri		
<b>Gweminarau, digwyddiadau a chyfarfodydd</b> Gweminarau Digwyddiadau Llysgennad Cyfarfodydd Partner Digwyddiadau	☑	☑	☑	☑ Cynyddu'r gwahoddiad au i ddigwyddiad au	☑ Fforwm Eryri Partneriaeth Yr Wyddfa Gweminar Llysgennad Misol	☑ Cyfarfod cyngorau cymuned blynyddol.	☑

<b>Sianeli eilaidd:</b> Digidol a Newyddion	<b>Cynulleidfaedd Corfforaethol</b> <i>Y rhai sydd â diddordeb yn Awdurdod y Parc fel sefydliad (gwybodaeth a dealltwriaeth sefydledig o APCE)</i>						
	<b>Gweithwyr a gwirfoddolwyr (gan gynnwys darpar weithwyr)</b>	<b>Aelodau</b>	<b>Cyllidwyr (Llywodraeth Cymru)</b>	<b>Gwleidyddi on ac Aelodau'r Senedd</b>	<b>Sefydliadau partner</b>	<b>Cyngorau Cymunedol</b>	<b>Cyfyngau</b>
<b>Gwefan APCE</b> Gwefan newydd (wedi'i galluogi ar gyfer ffôn clyfar) Gwell OPCh	☑ Bydd y parth addysg yn ffynhonnell dda o wybodaeth gefndir i'r holl staff	☑	☑	☑	☑	☑	☑ Creu parth cyfyngau penodol

<p><b>Newyddion a'r Cyfryngau</b>  BBC One Wales ac ITV Cymru  Grŵp cyrraedd: Mirror, Western  Mail, Daily Post, Daily Express,  Manchester Evening News, Liverpool  Echo  BBC Ar-lein  Gwefannau Newyddion y DU: Sun,  Times</p>	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
---	---	---	---	---	---	---	---




**Ffigur 10: 20 ffynhonnell newyddion uchaf yn gyffredinol yng Nghymru: 2020**



*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020. Sail: Pob oedolyn 16+ yng Nghymru – 2020=456, 2019=475, 2018=458. Mae trioglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2020 a 2019.*

**Ffigur 13: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (miloedd) S4C - unigolion: 2010-2019**



*Ffynhonnell: BARB. Unigolion (4+). Cyfanswm ardal S4C a rhwydwaith S4C. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 3 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn.*



**Ffigur 12: Ffynonellau sydd wedi'u defnyddio i gael gafael ar newyddion am eu gwlad: 2020**

Lloegr	%	Yr Alban	%	Cymru	%	Gogledd Iwerddon	%
BBC One	38%	STV	34% ↓	BBC One	51%	UTV	47%
ITV	24%	BBC One*	24% ↓	ITV WALES	33%	BBC One	46%
Facebook	15%	BBC Scotland*	18%	Facebook	19%	Facebook	21%
Gwefan/ap y BBC	7%	Facebook	17%	BBC Radio Wales/Cymru	8% ↑	BBC Radio Ulster/Foyle	16%
Twitter	4%	Gwefan/ap y BBC	10%	Papur newydd dyddiol lleol	6%	Cool FM	15%
Gorsaf radio leol/ranbarthol y BBC	4%	Radio masnachol lleol Bauer	9%	Gwefan/ap y BBC	5%	Gwefan/ap y BBC	8% ↑
Google (peiriant chwilio)	4%	Twitter	6%	South Wales Echo	5% ↓	Sianeli RTE / Virgin Media One	7%
Sianel Sky News	4%	The Daily Record	5%	The Western Mail	4%	Twitter	7%
		Google (peiriant chwilio)	5%	Gwefan/ap newyddion yng Nghymru	4%	The Belfast Telegraph	6%
		BBC Radio Scotland	4%			Google (peiriant chwilio)	5%
		BBC One / BBC Scotland NET	39%			Unrhyw wefan/ap newyddion yng Gogledd Iwerddon	5% ↑

Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020

Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n defnyddio Teledu/Papurau Newydd/Radio/Y Rhyngwrdd/ Cylchgronau ar gyfer newyddion – Lloegr=3032, Yr Alban=521, Cymru=415, Gogledd Iwerddon=346. Dim ond y ffynonellau sydd â nifer o 4%+ ym mhob Gwlad a ddangosir. Mae trionglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2020 a 2019. \*Roedd BBC Scotland yn newydd eleni. Mae'n bosibl y bydd dryswch ymatebwyr ynghylch brand BBC Scotland wedi effeithio ar ffigurau BBC Scotland a BBC One Scotland

## Ffeithiau a ffigurau am berfformiad ac allbwn BBC Cymru ar S4C

### Y Deg Cyfres Uchaf a Ddarlledwyd

#### Cyfresi ar S4C

Pobol y Cwm	41,000
Clwb Rygbi (Gemau'r Pro 14)	30,000
Clwb Rygbi Rhyngwladol: Chwe Gwlad	25,000
Clwb Rygbi Rhyngwladol: Gemau'r Hydref	25,000
Clwb Rygbi (Gemau'r Principality)	20,000
Yr Eisteddfod Genedlaethol: Mwy o'r Maes	19,000
Yr Eisteddfod Genedlaethol: Noson o Gystadlu	18,000
Newyddion 9	15,000
Yr Eisteddfod Genedlaethol: Seremoniau	15,000
Pawb a'i Farn	14,000

### Y Deg Cyfres Uchaf ar BBC iPlayer a Clic

#### Cyfresi ar S4C

Pobol y Cwm	1,170,000
Clwb Rygbi	147,500
Eisteddfod Genedlaethol 2019	72,000
Clwb Rygbi Rhyngwladol: Chwe Gwlad	67,000
Newyddion 9	51,000
Newyddion S4C (bwletinau)	16,000
Newyddion a Chwaraeon	11,000
Ffeil	11,500
Clwb Rygbi Rhyngwladol: Gemau'r Hydref	12,000
Pawb a'i Farn	6,000

Nifer y ceisiadau ar BBC iPlayer ac ar Clic

### Y Pum Rhaglen Unigol Uchaf a Ddarlledwyd

#### Rhaglenni ar S4C

Goreuon Campau Cymru 2018	17,000
Bryn Fon a PTSD	15,000
Newyddion y Flwyddyn 2018	15,000
Stand Yp Cymru	13,000
Camp Lawn Cymru 2019	13,000

Cynulleidfa ar gyfartaledd ar draws bob pennod  
Ffynhonnell: BARB  
Mae'r ffigurau'n cynnwys unrhyw ail-ddarllediadau yn yr un wythnos

Ffynhonnell: dyfyniad 'r adroddiad canlynol:

<http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/wales/BBC-Cymru-Arolwg-Tim-Rheoli-2018-19.pdf>

## Ffeithiau a ffigurau am berfformiad ac allbwn rhaglenni teledu Saesneg BBC Cymru

### Y Deg Cyfres Uchaf a Ddarlledwyd

Cyfresi Saesneg	
Rygbî'r Undeb: Gemau'r Hydref	492,000
Wales Today am 6.30pm	210,000
Pitching In	204,000
Six Nations Sin Bin	180,000
Hidden	167,000
The Crash Detectives	165,000
X-Ray (Hydref i Ragfyr)	148,000
Children's Ward	145,000
Scrum V Six Nations Special	138,000
Secret Life of Farm Animals	135,000

### Y Pum Rhaglen Unigol Uchaf a Ddarlledwyd

Rhaglenni Saesneg	
Sam Warburton: Full Contact	272,000
The Brecon Beacons with Iolo Williams (ailddarllediad)	232,000
Scrum V – How Wales Won the Grand Slam	211,000
Eddie Butler's Six Nations	205,000
Weatherman Walking: Dylan's Walks (ailddarllediad)	190,000

Cynulleidfa ar gyfartaledd ar draws bob pennod  
Ffynhonnell: BARB  
Mae'r ffigurau'n cynnwys unrhyw ail-ddarllediadau yn yr un wythnos

### Y Deg Cyfres Uchaf ar BBC iPlayer

Cyfresi Saesneg	
Keeping Faith	12,160,344
Hidden	11,731,271
Rhod Gilbert's Work Experience	1,323,908
The Crash Detectives	1,081,870
Rygbî'r Undeb: Gemau'r Hydref	1,023,128
BBC Wales Today	916,992
Back in Time For the Factory	771,363
Scrum V	698,476
High Hopes	630,274
BBC Wales Investigates	608,318

Nifer y ceisiadau ar BBC iPlayer

### Y Deg Rhaglen Uchaf ar BBC iPlayer

Rhaglenni Saesneg	
Dark Son: The Hunt for a Serial Killer	566,118
Critical: Inside Intensive Care	289,812
Sam Warburton: Full Contact	210,132
Mad About Elvis	130,367
Women's World Cup Qualifier: Wales v England	127,964
The Toddlers Who Took on Dementia	113,668
The NHS: To Provide All People	113,204
The Tuckers	86,247
Puppy Love	85,976
Our Lives: Snowdonia Shepherdess	76,708

Nifer y ceisiadau ar BBC iPlayer

Ffynhonnell: Dyfyniad o'r adroddiad canlynol:

<http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/wales/BBC-Cymru-Arolwg-Tim-Rheoli-2018-19.pdf>

Safle	DU		Cymru*		Caerdydd**		Gogledd Cymru***	
	Gorsaf	Cyrhaeddiad wythnosol (%)	Gorsaf	Cyrhaeddiad wythnosol (%)	Gorsaf	Cyrhaeddiad wythnosol (%)	Gorsaf	Cyrhaeddiad wythnosol (%)
1	BBC Radio 2	26%	BBC Radio 2	34%	BBC Radio 2	34%	BBC Radio 2	37%
2	BBC Radio 4	20%	BBC Radio 1	21%	Heart South Wales	20%	BBC Radio 4	23%
3	BBC Radio 1	16%	BBC Radio 4	17%	BBC Radio 1	18%	BBC Radio 1	22%

Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn 15+, Ch1 2020. \* TSA BBC Radio Wales \*\* TSA Capital South Wales \*\*\* TSA Heart North Wales.

### Gorsafoedd perthnasol eraill:


BBC Radio Cymru: Cyrhaeddiad wythnosol 119,000 – cyfran o 2.5% (ar draws Cymru)

BBC Radio Wales: Cyrhaeddiad wythnosol 327,000 – cyfran o 12% (ar draws Cymru)

Heart North Wales: Cyrhaeddiad wythnosol 124,000 – 17% (Gogledd Cymru yn unig)

Capital FM Gogledd Orllewin a Gogledd Cymru: Cyrhaeddiad wythnosol 126,000 - 12% (Gogledd Cymru a'r Gorllewin)

Ffigur 25: Y gyfran o'r gwranddo yng Nghymru, yn ôl grŵp radio



Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15+), Ch1 2020, BBC Radio Wales TSA

(Mae Global and Communicorp yn gweithredu rhwydweithiau Capital, Heart a Smooth yng Nghymru)

# Integreiddio

Cydweddu'r cyfathrebiadau ar draws y sianeli - gan ddefnyddio'r un delweddau, copi achanllawiau brandio.

[Llyfr Brand APCE](#)

# Hyfforddiant

## **Pa hyfforddiant sy'n ofynnol i sicrhau ein bod yn gallu cwrdd â'r safonau a'r targedau?**

- Holl staff rheng flaen i ymgymryd â hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid yn rheolaidd.
- Holl staff i ymgymryd â hyfforddiant cyfathrebu sylfaenol rheolaidd. Gan gynnwys hyfforddiant ar brotocolau a negeseuon craidd. aelodau
- Ymarfer Cymraeg a Saesneg.
- Hyfforddiant ar y cyfryngau / cyfweiliadau i gael ei gynnig yn flynyddol.
- Mentora ar gyfer swyddogion a staff prosiectau.
- Cynnig hyfforddiant anwytho i Aelodau ar yr elfennau perthnasol o'r rhestr uchod.

# Cyllideb

## Pa adnodd sydd ar gael er mwyn cyflawni ein Nodau?

Yn ogystal â chyfraniadau ar draws yr Awdurdod mae nifer o swyddogion yn ei wneud i gyfathrebu ac ymgysylltu, ar hyn o bryd mae 4% o gyfanswm **gwariant cyflog** yr Awdurdod yn cael ei wario ar unigolion sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am reoli gweithgareddau cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys:

- **Y Pennaeth Ymgysylltu** - Treuliodd oddeutu 30% o gyfanswm yr oriau gwaith yn rheoli gweithgareddau cyfathrebu.
- **Dau Swyddog Cyfathrebu** - un yn darparu gwasanaethau ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Rheoli Tir ac un ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol - mae'r ddau yn neilltuo 100% o'u hamser i weithgareddau cyfathrebu.
- **Dylunydd Graffig** - yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos a 100% o'r amser wedi'i neilltuo i ddylunio deunyddiau ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu.
- **Technegydd Cyfathrebu** - yn gweithio'n llawn amser, wedi'i leoli yn y gweithdy, a 100% o'r amser wedi'i neilltuo i ddylunio a chreu deunyddiau ar gyfer prosiectau a gweithgareddau cyfathrebu, megis arwyddion, byrddau gwybodaeth a phrosiectau dehongli.
- **Cynorthwydd Ymgysylltu** - mae hi'n gweithio pedwar diwrnod yr wythnos, gyda 50% o'i hamser wedi'i neilltuo i gefnogi gweithgareddau cyfathrebu.

Gweler [Atodiad 3](#) am fanylion pellach.

Ail-broffiliwyd y **gyllideb flynyddol** ar gyfer gwariant ar weithgareddau cyfathrebu er mwyn cwrdd â'r blaenoriaethau newydd yn y strategaeth hon (gweler y siart isod).

Er mwyn cwrdd â'r amcanion a'r canlyniadau newydd, bydd yr addasiadau a'r ystyriaethau canlynol yn cael eu gwneud:




- Trafod yr angen am wariant ar gostau ar y wefan i ddod o'r gyllideb a gedwir ar gyfer rheoli'r wefan - i'w drafod fel rhan o'r broses o ddatblygu'r wefan newydd.
- Cynyddu'r gwariant ar greu cynnwys digidol (fideo, ffotograffiaeth a graffeg)
- Adolygu'r gwariant ar argraffu arwyddion / byrddau gwybodaeth ac ati.
- Cynyddu'r gwariant ar hyfforddi.
- Cynyddu'r gwariant ar swyddi wedi'u targedu ar gyfryngau cymdeithasol.
- Lleihau gwariant ar ddiwyddiadau.
- Ymholiadau sianel yn ymwneud â phrosiectau partner i'r Gronfa Gymunedol a Gwirfoddolwyr a'r Gronfa Gomisiynu.

Fodd bynnag, mewn perthynas â gallu staff, mae'r adnoddau presennol ar neu'n uwch na'u gallu / capasiti:

- Bydd y wefan newydd a CMS addas at y diben yn rhyddhau amser sylweddol (amcangyfrifir 2 ddiwrnod yr wythnos) o amser y Swyddogion Cyfathrebu, a dreulir ar hyn o bryd ar 'drwsio' diffygion ar y wefan.
- Mae hefyd angen edrych yn benodol ar gapasiti yn y dyfodol ar gyfer greu a rheoli cynnwys.
- Byddwn yn edrych ar hybu gallu i gyflawni prosiectau trwy gynnig am arian i weithredu ymgyrchoedd, gweithgareddau a phrosiectau unwaith ac am byth a fyddai wedyn yn cael eu gweithredu gan gwmnïau / ymgynghorwyr allanol neu drwy gynigion referniw ar gyfer swyddi nad ydynt yn barhaol.
- Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gael cyllid referniw i gyflogi cynorthwywyr digidol neu brentisiaid i gynorthwyo'r swyddogion cyfathrebu wrth eu gwaith.

## Spend breakdown (reprofiled) - Annual budget £58,150



## Dangosyddion Perfformiad (DP)

**Nod y DP canlynol yw mesur metrigau sy'n adlewyrchu cyflawniad llwyddiannus o'n [canlyniadau](#) a ddymunir**

Sefydlir llinell sylfaen yn 2021 ac wedi hynny targedau ac amserlenni ym mis Tachwedd 2021 ar gyfer 2022 a thu hwnt.


Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu ar gynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad, a'r pennawd DP wedi'i integreiddio i'n targedau corfforaethol.

### Metrigau Canlyniad Digidol

<b>Metrig</b>	<b>Sut y byddwn yn mesur</b>	<b>Pwy fydd yn casglu'r data?</b>	<b>Gwaelodlin Ionawr 2021</b>	<b>Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir?</b>
Niferoedd yn clicio 'hoffi' ar ein tudlaen Facebook	Facebook	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	19,749	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 6)
Nifer o ddilynwyr ar Trydar / Twitter	Trydar / Trydar / Twitter	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	20,500 (@visitsnowdonia) 1,834 (@croesoeryri)	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 6)
Nifer o ddilynwyr ar Instagram	Instagram	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	2,004	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfaoedd wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 6)

Cyfradd ymgysylltu ar Linked in	Linked In	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	0	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfae wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 6)
Nifer y ffrydiau ar sianel podlediad Spotify	Spotify	Swyddog Cyfathrebu - Corff.	0	Bydd yn mesur i ba raddau y mae rhai cynulleidfae wedi ymgysylltu â'n gwaith (Canlyniad 6)
Nifer tanysgrifwyr y Cylchlythyr	Mailchimp	Swyddog Cyfathrebu - P & LM	4,000	Mae'n mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ei chyrraedd mewn perthynas â'n straeon a'n negeseuon ac felly'r potensial i gyflawni'r 10 canlyniad.
% cyfradd agored ar gylchlythyrau	Mailchimp	Swyddog Cyfathrebu - P & LM	30%	Mae'n mesur y gyfradd llwyddiant wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid ar draws pob un o'r 10 canlyniad.
Nifer y lawr lwythiadau PDF o'r wefan	Google analytics	Rheolwr Cynnwys a Brand	<i>I'w osod fel rhan o ddatblygu'r wefan newydd</i>	Bydd pobl sy'n lawr lwytho PDF oddi ar ein gwefan yn dangos lefel uwch o ddiddordeb yn ein ein gwaith (Canlyniadau 4 a 9).
Lle rydyn ni'n ymddangos mewn canlyniadau chwilio am ymadroddion allweddol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Snowdonia</li> <li>• Eryri</li> <li>• Snowdon</li> <li>• Yr Wyddfa</li> <li>• Llanberis path</li> </ul>	Google analytics	Rheolwr Cynnwys a Brand	Snowdonia: #1 Eryri: #5 Snowdon: #11 Yr Wyddfa: #3 Llanberis path: #1 Llwybr Llanberis: #1 Snowdonia National Park: #1 Parc Cenedlaethol Eryri: #1 Snowdonia National Park Authority: #1	Bydd yn mesur pa mor effeithiol yr ydym o ran cyrraedd cynulleidfae er mwyn ymgysylltu â nhw ac i ddylanwadu'n gadarnhaol ar eu hymddygiad mewn perthynas ag Eryri (Canlyniadau 1, 2, 3, 5, 8, 9).

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr Llanberis</li> <li>• Snowdonia National Park</li> <li>• Parc Cenedlaethol Eryri</li> <li>• Snowdonia National Park Authority</li> <li>• Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</li> </ul>			Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: #1	
Gwerth y rhoddion a dderbynnir (ar-lein)	Google analytics	Rheolwr Cynnwys a Brand	0	Bydd yn mesur y newid yn y modd y mae pobl yn cael eu hysbrydoli i roi rhoddion i APCE (Canlyniad 7).
Nifer o weithiau 'gwelwyd' tudalennau llwybrau a hyrwyddir (gan gynnwys manylion penodol ar gyfer yr Wyddfa ac Ogwen) o gymharu â'r 'trysorau cudd'.	Google analytics	Rheolwr Cynnwys a Brand	<b>Ion-Rhag 2020 – 10 Uchaf</b> Llanberis: 49,517 Mwynwyr: 19,259 PyG: 19,174 Rhyd Ddu: 13,438 Llyn Tegid: 11,584 Watkin: 11,555 Minffordd: 10,882 Cwellyn: 10,255 Pony path: 7,533 Llwybr Pilin Pwn: 6,294	Bydd yn mesur faint o bobl sy'n cael eu hysbrydoli i archwilio'r ardal ymhellach (naill ai fwy neu lai yn gorfforol), yn enwedig ei 'trysorau cudd' (Canlyniad 8).



Enghraifft o'r mathau o adroddiadau a chynnwys y gellir eu cynhyrchu gan Kantar Media Monitoring Software

## Metrigau Canlyniad Cyffredinol

<b>Metrig</b>	<b>Sut y byddwn yn mesur</b>	<b>Pwy fydd yn casglu'r data a sut yr adroddir arno?</b>	<b>Gwaelodlin Ionawr 2021</b>	<b>Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r <a href="#">canlyniadau</a> a ddymunir</b>
Nifer y gwirfoddolwyr newydd a gafodd eu recriwtio	Meddalwedd rheoli gwirfoddolwyr	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	I'w gadarnhau	Mae'n mesur nifer y bobl newydd sydd wedi'u hysbrydoli i roi eu hamser i amddiffyn Eryri (Canlyniad 7) yn ogystal â'r cynnydd mewn teimlad o gyfrifoldeb am edrych ar ôl y Parc (Canlyniad 4).
Nifer Llysgenhadon Eryri ar Iefelau Efydd, Arian ac Aur	Cadw Cofnod	Cynorthwydd Ymgysylltu	0	Po fwyaf o bobl sydd gennym fel Llysgenhadon po fwyaf y byddwn yn gallu lledaenu ein negeseuon allweddol a chyflawni ar draws ein holl ganlyniadau cyfathrebu. Ond yn benodol bydd hyn yn ein helpu i fesur y newid mewn pobl sy'n awyddus i gymryd rhan yn ein hymdrechion (Canlyniad 6) a pha mor ysbrydoledig yw pobl i roi o'u hamser i gefnogi ac amddiffyn Eryri (Canlyniad 7), yn ogystal â'r cynnydd mewn dealltwriaeth a'r math o ganfyddiadau cadarnhaol o'r gwaith a wnawn (Canlyniad 9).
Nifer yr erthyglau cyfryngau - digidol a thraddodiadol	Kantar	Y Pennaeth Ymgysylltu	<b>Ion - Rhag 2020:</b> 1,210 erthygl	Trwy amlygiad yn y cyfryngau mae gan bobl fwy o ymwybyddiaeth o'r Parc Cenedlaethol, ei rinweddau arbennig a'r heriau a'r cyfleoedd sy'n ei wynebu Canlyniadau 1,2 a

				3); a gwell dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau APCE (Canlyniad 9).
Teimlad cadarnhaol a negyddol mewn straeon ar y cyfryngau	Kantar - sentiment	Y Pennaeth Ymgysylltu	<b>Ion-Rhag 2020:</b> Positif: 440 (36.5%) Niwtral: 319 (26.4%) Cytbwys: 315 (26.1%) Negyddol: 106 (8.8%)	Trwy straeon cadarnhaol yn y cyfryngau rydym yn cynyddu canfyddiadau cadarnhaol pobl o'r Awdurdod a'i waith (Canlyniad 9).
Nifer y rhai sy'n tanysgrifio i gael diweddariad staff ac aelodau bob pythefnos	Mailchimp	Cynorthwydd Ymgysylltu	0	Mae'n mesur maint y gynulleidfa yr ydym yn ei chyrraedd gyda'n hymdrechion i roi gwybodaeth dda i staff, gwirfoddolwyr ac aelodau (Canlyniad 10).
% cyfradd agored ar gylchlythyr staff ac aelodau bob pythefnos	Mailchimp	Cynorthwydd Ymgysylltu	n/a	Mae'n mesur y gyfradd llwyddiant wrth sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr ac aelodau yn wybodus (Canlyniad 10).



## Arolwg Enw Da (bob 2 flynedd)

<b>Metrig</b>	<b>Sut y byddwn yn mesur</b>	<b>Pwy fydd yn casglu'r data a sut yr adroddir arno?</b>	<b>Sut mae'r metrig hwn yn dangos ein bod yn cyflawni'r <a href="#">canlyniadau</a> a ddymunir?</b>
% ymwybyddiaeth o statws y Parc Cenedlaethol.	Arolwg enw da a grwpiau ffocws: Arolwg Ymwelwyr, Cymuned a Busnesau	Rheolwr Partneriaethau	Byddwn yn mesur lefel a % newid mewn ymwybyddiaeth o statws y Parc Cenedlaethol (Canlyniad 1)- yn cynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd.
% ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig Eryri a buddion y Parc Cenedlaethol.	Arolwg enw da a grwpiau ffocws: Arolwg Ymwelwyr, Cymuned a Busnesau	Rheolwr Partneriaethau	Byddwn yn mesur lefel a % newid ymwybyddiaeth mewn Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol (Canlyniad 2)- yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg.
% yn graddio bod yr Awdurdod yn hyrwyddo a defnyddio iaith Gymraeg fel Ardderchog	Arolwg enw da a grwpiau ffocws: Arolwg Ymwelwyr, Cymuned a Busnesau	Rheolwr Partneriaethau	Bydd yn mesur dealltwriaeth a chanfyddiadau pobl o'r Awdurdod fel sefydliad dwyieithog (Canlyniad 9).
Lefel y teimlad o gyfrifoldeb personol a	Arolwg enw da a grwpiau ffocws: Arolwg Ymwelwyr,	Rheolwr Partneriaethau	Byddwn yn mesur y newid yn nheimlad pobl o gyfrifoldeb personol a chyfunol am ofalu am y Parc (Canlyniad 4).

chyfunol am edrych ar ôl y Parc.	Cymuned a Busnesau		
Naws o barch a'r defnydd cyfrifol a wneir o'r Parc Cenedlaethol.	Arolwg enw da a grwpiau ffocws: Arolwg Ymwelwyr, Cymuned a Busnesau	Rheolwr Partneriaethau	Byddwn yn mesur y newid yn ymdeimlad pobl o barch a'r defnydd cyfrifol a wneir o'r Parc (Canlyniad 5).
% Dealltwriaeth well o rôl, cyfrifoldebau a meysydd gwaith APCE, a chanfyddiadau cadarnhaol o'r sefydliad	Arolwg enw da a grwpiau ffocws: Arolwg Ymwelwyr, Cymuned a Busnesau	Rheolwr Partneriaethau	Bydd yn mesur y newid yn nealltwriaeth pobl o'r hyn a wnawn fel Awdurdod (Canlyniad 9).

# Calendr cynnwys a gweithgaredd

## 2021 Cynllun Cynnwys a Gweithgaredd

MIS	GWEITHGAREDDAU / PROSIECTAU	DIGWYDDIADAU A THEMÂU	CYNNWYS	SWYDDOG (ION) ARWEINIOL
<b>Ionawr</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Sefydlu llinell sylfaen ar gyfer Dangosyddion Perfformiad (ar wahân i'r arolwg enw da)</li> <li>→ Sefydlu cyfrif Linked-in</li> <li>→ Dechrau adeiladu perthnasoedd â chysylltiadau cyfryngau allweddol</li> <li>→ Datblygu ymgyrch cynllun ymweld â pharch</li> <li>→ Naomi yn comisiynu cynllun marchnata Yr Ysgwrn ar gyfer 2021/22 (pontio oes y Covid)</li> <li>→ Prosiect drama rithwir gymunedol Yr Ysgwrn (wedi'i gydlynu gan Siwan Llynor)</li> <li>→ Cadarnhau cynlluniau ar gyfer dathliad 70 y Parc.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Pen-blwydd yn 70 oed</li> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> <li>→ Ionawr 4ydd: Diwrnod Braille y Byd</li> <li>→ Ionawr: Mis Cerdded Eich Ci</li> <li>→ Ionawr 6ed - Chwefror 21ain: Digwyddiad Mawr Gwyllo Adar Ysgolion</li> <li>→ Ionawr 13eg - pen-blwydd Hedd Wyn</li> <li>→ Ionawr 18fed - Ionawr 24ain: Wythnos Fawr Arbed Ynni</li> <li>→ Ionawr 21ain:</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Podlediad Eryri cyntaf ar Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys Digidol</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Rheolwr Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> <li>→ Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy</li> </ul>

		<p>Diwrnod Gwerthfawrogi'r Wiwer</p> <p>→ Ionawr 25ain: Diwrnod Santes Dwynwen</p>		
<b>Chwefror</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Adnewyddu brand</li> <li>→ Datblygu asedau ymweld â pharch</li> <li>→ Hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid blynyddol</li> <li>→ Hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol a chreu fideo ar gyfer staff cyfathrebiadau</li> <li>→ Lansio Sharepoint ar gyfer staff</li> <li>→ Recriwtio Swyddog Cynnwys Digidol</li> <li>→ Rhannu cynnig mentora gyda swyddogion prosiect a staff</li> <li>→ Parhau i rannu canllawiau'r llywodraeth parthed Cofid 19</li> <li>→ Rhannu straeon ar sut yr ydym yn gofalu am y Parc Cenedlaethol</li> <li>→ Prif gynlluniau Parcio a Thrafnidiaeth cymunedol</li> <li>→ Datblygu cynllun arwyddion ffordd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> <li>→ Ionawr 30 - Chwefror 6: Wythnos Genedlaethol Adrodd Straeon</li> <li>→ 2 Chwefror: Diwrnod Gwlypdiroedd y Byd</li> <li>→ Chwefror 5ed: Diwrnod Cerddoriaeth Iaith Gymraeg</li> <li>→ Chwefror 8fed-14eg: Wythnos Gwirfoddoli Myfyrwyr</li> <li>→ Chwefror 11eg: Diwrnod Rhyngwladol Menywod a merched mewn gwyddoniaeth</li> <li>→ Chwefror 12fed:</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Podlediad Eryri ar Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ Cylchlythyr Staff ac Aelodau</li> <li>→ Diweddarau'r wefan (cynnwys Cofid 19)</li> <li>→ Datblygu cynnwys graffeg gwybodaeth i'r ymgyrch ymweld â pharch</li> <li>→ Diweddarau tudalennau'r wefan i gyd-fynd</li> <li>→ Taflenni/tag Campio a cerbydau gweryslla anghyfreithlon</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys Digidol</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Rheolwr Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>

		<p>Blwyddyn Newydd Tsieineaidd</p> <p>→ Chwefror 14eg: Dydd Sant Ffolant</p> <p>→ Chwefror 16eg: Diwrnod crempog</p> <p>→ Chwefror 17eg: Diwrnod Gwneud Pethau Caredig ar Hap</p> <p>→ Chwefror 22 - Mawrth 7fed: Pythefnos Masnach Deg</p> <p>→ 23ain - Sgwrs zoom ar Orffeniadau Addurniadol gan Lincoln Conservation (Yr Ysgwrn)</p>		
<b>Mawrth</b>	<p>→ Y gwaith o ail-ddylunio'r wefan yn dechrau</p> <p>→ Ymgyrch ymweld â pharch: Creu stori am yr hoffter newydd at yr awyr agored/ poblogrwydd yr ardal fel mae pobl yn cynllunio i ymweld- rhagarchebu yn hanfodol. Teithiwr ystyriol.</p>	<p>→ Lansio ymgyrch ymwelwyr (cod cefn gwlad) a 70fed arweinlyfr Eryri</p> <p>→ Gweminar Llysgennad Misol</p> <p>→ Mawrth 1af:</p>	<p>→ Lansio diweddariadau bob pythefnos i staff / aelodau</p> <p>→ Podlediad Eryri ar Spotify</p> <p>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</p>	<p>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</p> <p>→ Swyddog Cynnwys Digidol</p> <p>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</p> <p>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</p> <p>→ Rheolwr</p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Datblygu asedau Ymweld â pharch</li> <li>→</li> <li>→ Adeiladu cynulleidfa ar gyfer cylchlythyr (gweision sifil / gwleidyddion / newyddiadurwyr / grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol / diddordeb / cynghorau cymunedol ac ati)</li> <li>→ Sefydlu grŵp 'Tymor 2021' ar Whatsapp ar gyfer Wardeiniaid, staff rheng flaen, staff maes parcio, gwirfoddolwyr, ac ati (i gynnwys canllawiau defnyddwyr / ymwadiad clir) i rannu gwybodaeth â staff swyddfa / cyfathrebiadau</li> <li>→ THI Dolgellau - gwaith ar adnewyddu adeiladau Victoria, Upper Smithfield Street yn dechrau, a gwaith ar adnewyddu Y Ddarllenfa Rhydd, Wtra yn mynd rhagddo.</li> <li>→ Parhau i rannu canllawiau Cofid gan y Llywodraeth</li> <li>→ Rhannu straeon o sut yr ydym yn gofalu am y Parc Cendlaethol</li> <li>→ Prif gynlluniau Parcio a Thrafnidiaeth cymunedol</li> <li>→ Gosod arwyddion ffordd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Diwrnod Dewi Sant</li> <li>→ Diwrnodau hwyl Dydd Dewi Sant</li> <li>→ Yr Ysgwrn gydag ysgolion targed. Gweithdai ysgrifennu, gweithdai 'clocsfrit', perfformiad a gweithdy Mewn Cymeriad, ffilmiau.</li> <li>→ Mawrth 4ydd: Diwrnod y Llyfr</li> <li>→ Mawrth 8fed: Diwrnod Rhyngwladol y Merched</li> <li>→ Mawrth 14eg: Sul y Mamau</li> <li>→ Mawrth 16eg: Diwrnod Mynediad i'r Anabl</li> <li>→ Mawrth 18fed: Diwrnod Ailgylchu Bydeang</li> <li>→ Mawrth 19eg: Diwrnod Comic Relief</li> <li>→ Mawrth 20fed:</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ Diweddarau'r wefan (cynnwys Cofid)</li> <li>→ Rhannu cynnwys Llyw/partneriaid parthed Cofid 19</li> <li>→ Cynnwys ar y gwaith mae APCE a phartneriaid yn ei wneud i baratoi ar gyfer y tymor</li> <li>→ Cynnwys am yr hoffter newydd o'r awyr agored</li> <li>→ Comisiynu graffeg gwybodaeth i'r ymgyrch ymweld â pharch</li> <li>→ Ceisiadau am gynnwys bywyd go iawn gan wardeniaid a gwirfoddolwyr + chwilio am gynnwys o'r llynedd</li> <li>→ Recriwtio gwirfoddolwyr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>
--	--	---	--	--

	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Casglu/ comisiynu ffotograffiaeth sydd yn portreadu 70 profiad</li> <li>→ Mireinio'r ymgyrch sbwriel gyda Cymdeithas Eryri</li> <li>→ Recriwtio gwirfoddolwyr gyda CESS</li> </ul>	<p>Cyhydros y Gwanwyn</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Mawrth 21ain: Diwrnod Rhyngwladol Coedwigoedd a Diwrnod Barddoniaeth y Byd</li> <li>→ Mawrth 22ain: Wythnos Atal Brathiad gan Ddrogod</li> <li>→ Mawrth 26ain: Diwrnod Gwisgwch Het</li> </ul>		
<b>Ebrill</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Datblygu protocolau i reoli'r gallu i gynhyrchu taflenni a byrddau gwybodaeth</li> <li>→ Ymatebol yn seiliedig ar ddigwyddiadau ar lawr gwlad</li> <li>→ Astudiaeth bwrdd gwaith (Swyddog Gwirfoddoli a Lles) ar rwystrau i grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol. Bwydo i'r cynllun cyfathrebu.</li> <li>→ MTT Dolgellau- gwaith yn dechrau ar adnewyddu adeilad Wilkin</li> <li>→ Parhau i rannu canllaiwau'r Llywodraeth parthed Cofid</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> <li>→ Ymgyrch Ymwelwyr</li> <li>→ Ebrill 1af: ffŵl Ebrill</li> <li>→ <b>Ebrill 4ydd - 18fed: Pythefnos Darganfod y Parciau Cenedlaethol.</b></li> <li>→ <b>Dydd Gwener 9fed Ebrill: Diwrnod Eryri ym mhythefnos</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Podlediad Eryri ar Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ E-bapur newydd bob pythefnos i staff / aelodau</li> <li>→ Cyfres fideo 'cysylltiadau' ymgyrch cod cefn gwlad wedi'i lansio</li> <li>→ Datblygu a dosbarthu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys Digidol</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Rheolwr Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Rhannu straeon ar sut yr ydym yn gofalu am Parc Cenedlaethol</li> <li>→ Prif gynlluniau Parcio a Thrafnidiaeth cymunedol</li> </ul>	<p><b>y Parciau Cenedlaethol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Ebrill 19-25ain: Wythnos Ryngwladol Awyr Dywyll &amp; Wythnos Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru</li> <li>→ Ebrill 22ain: Diwrnod Rhyngwladol y Fam Ddaear</li> <li>→ Ebrill 24ain: Diwrnod Sgipio Cenedlaethol</li> </ul>	<p>pecynnau cyfryngau cymdeithasol i'n partneriaid/ llysgenhadon (Ymgyrch ymweld â pharch)</p>	
<b>Mai</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Lansio Ymgyrch Ymweld â pharch</li> <li>→ Ymatebol yn seiliedig ar ddigwyddiadau ar lawr gwlad</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> <li>→ Ymgyrch Ymwelwyr</li> <li>→ Mai 1af - 30ain: Mis Cerdded Cenedlaethol</li> <li>→ Mai 3ydd: Diwrnod Rhyngwladol Corws y Wawr</li> <li>→ Mai 18fed-23ain: Wythnos Iechyd Meddwl</li> <li>→ Mai 18fed: Diwrnod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Podlediad Eryri ar Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ Cylchlythyr bob pythefnos i staff / aelodau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys Digidol</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Rheolwr Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>



		Rhyngwladol Amgueddfeydd		
<b>Mehffin</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Ymgyrch ymweld â pharch</li> <li>→ Ymatebol yn seiliedig ar ddigwyddiadau ar lawr gwlad</li> <li>→ Cyhoeddi arysgrif ar Safle Treftadaeth y Byd? (Cyngor Gwynedd)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> <li>→ Ymgyrch Ymwelwyr</li> <li>→ Mehefin 1af-6ed: Wythnos Gwirfoddolwyr</li> <li>→ Mehefin 5ed: Diwrnod Amgylchedd y Byd</li> <li>→ Mehefin 6ed: Diwrnod pili pala</li> <li>→ Mehefin 20fed: Diwrnod y Tadau</li> <li>→ Mehefin 27ain: Diwrnod Sbectol haul Rhyngwladol</li> <li>→ Dyddiad i'w gadarnhau - taith archeolegol gyda John Roberts a Keith O'Brien</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Podlediad Eryri ar Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ Cylchlythyr bob pythefnos i staff / aelodau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys Digidol</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Rheolwr Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>
<b>Gorffennaf</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Ymgyrch ymweld â pharch</li> <li>→ Ymatebol yn seiliedig ar ddigwyddiadau ar lawr gwlad</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> <li>→ Ymgyrch</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Podlediad Eryri ar Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys Digidol</li> </ul>

		<p>Ymwelwyr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gorffennaf 1-30ain: Gorffennaf Di-Blastig</li> <li>→ Gorffennaf 11-18fed: Gŵyl Archeoleg Prydain</li> <li>→ Gorffennaf 25ain-Awst 8fed: Wythnos Forol Genedlaethol</li> <li>→ 31ain - pen-blwydd marwolaeth Hedd Wyn</li> </ul>	<p>Cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ Cylchlythyr bob pythefnos i staff / aelodau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Rheolwr Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>
<b>Awst</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Ymgyrch ymweld â pharch</li> <li>→ Ymatebol yn seiliedig ar ddigwyddiadau ar lawr gwlad</li> <li>→ Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd yn dechrau ar eu gwaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> <li>→ Ymgyrch Ymwelwyr</li> <li>→ Awst 19eg: Diwrnod Llun y Byd</li> <li>→ 13eg a'r 20fed - sesiynau ioga Y Goeden loga i blant (Yr Ysgwrn)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Podlediad Eryri ar Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ Cylchlythyr bob pythefnos i staff / aelodau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys Digidol</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Rheolwr Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>
<b>Medi</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Ymgyrch ymweld â pharch</li> <li>→ Lansio gwefan newydd (24ain)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Canllaw cynllunio 'Sut i'</li> <li>→ Podlediad Eryri ar</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys</li> </ul>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Digwyddiad Drysau Agored Yr Ysgwrn? (Ymgyrch Cadw - heb ei gadarnhau ar gyfer 2021)</li> <li>→ Ymgyrch Ymwelwyr</li> <li>→ Medi 4ydd: Diwrnod Cenedlaethol Pysgod a Sglodion</li> <li>→ Medi 14eg-19eg: Wythnos Genedlaethol Codio</li> <li>→ Medi 22ain: Diwrnod Di-gar y Byd</li> <li>→ Medi 26ain: diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ Cylchlythyr bob pythefnos i staff / aelodau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Digidol</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Rheolwr Partneriaethau</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>
<b>Hydref</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Hyfforddiant cyfathrebiadau blynyddol</li> <li>→ Arolwg Enw da</li> <li>→ Gweithredu ar unrhyw allbynau o'r gwaith gan y Grŵp Tasg a Gorffen Enwau Lleoedd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Dathliadau Pen-blwydd yn 70 oed</li> <li>→ Gweminar Llysgennad Misol</li> <li>→ Hydref 1-30ain: Mis Hanes Pobl</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Podlediad Eryri ar Spotify</li> <li>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</li> <li>→ E-gylchlythyr misol</li> <li>→ Cylchlythyr bob</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Swyddog Cynnwys Digidol</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> </ul>

		<p>Dduon</p> <p>→ Hydref 4ydd: Diwrnod dim cwpanau tafladwy</p> <p>→ Hydref 5ed: Diwrnod Seryddiaeth Rhyngwladol</p> <p>→ Hydref 7fed: Diwrnod Cynefin y Byd</p> <p>→ 15fed - Yr Ysgwrn - Diwrnod Shwmae Su'mae - i'w gynnis i ysgolion</p> <p>→ Sioe Mewn Cymeriad: "Taith yr Iaith"</p> <p>→ Taith Yr Ysgwrn</p> <p>→ Cwis Cymraeg / Cymreig Tudur Phillips? *</p> <p>Gweithgaredd byw neu rithwir yn bosibl *</p> <p>→ 15fed-31ain - Gŵyl Amgueddfeydd Cymru. Gweithgareddau teuluol a swyddi</p>	<p>pythefnos i staff / aelodau</p>	<p>→ Rheolwr Partneriaethau</p> <p>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</p>
--	--	--	------------------------------------	---

		<p>cyfryngau cymdeithasol (Yr Ysgwrn)</p> <p>→ Hydref 31ain: Calan Gaeaf</p>		
<b>Tachwedd</b>	<p>→ Cynllunio ar gyfer rheoli gwefan yn y dyfodol</p> <p>→ Yn seiliedig ar gynnydd o linell sylfaen 2021, sefydlu targedau ac amserlenni ar gyfer Dangosyddion Perfformiad ar gyfer 2022 a thu hwnt.</p>	<p>→ Cyfarfod cyswllt amaeth</p> <p>→ Gweminar Llysgennad Misol</p> <p>→ Tachwedd 13eg: Diwrnod Caredigrwydd y Byd</p> <p>→ Tachwedd 14eg: Diwrnod y Cofio (Yr Ysgwrn)</p> <p>→ Tachwedd 19eg: Diwrnod Rhyngwladol Dynion</p>	<p>→ Datblygu parth cyfryngau ar wefan (a phe cyn cyfryngau)</p> <p>→ Podlediad Eryri ar Spotify</p> <p>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>→ E-gylchlythyr misol</p> <p>→ Cylchlythyr bob pythefnos i staff / aelodau</p>	<p>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</p> <p>→ Swyddog Cynnwys Digidol</p> <p>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</p> <p>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</p> <p>→ Rheolwr Partneriaethau</p> <p>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</p>
<b>Rhagfyr</b>	<p>→ Adroddiad blynyddol ar Ddangosyddion Perfformiad i Aelodau</p>	<p>→ Gweminar Llysgennad Misol</p> <p>→ Gŵyl Coed Nadolig Trawsfynydd, Eglwys Sant Madryn</p> <p>→ 4ydd - Yr Ysgwrn - gweithdy i greu torch Nadolig</p>	<p>→ Podlediad Eryri ar Spotify</p> <p>→ Rhaglen Cyfryngau Cymdeithasol</p> <p>→ E-gylchlythyr misol</p> <p>→ Cylchlythyr bob pythefnos i staff / aelodau</p>	<p>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</p> <p>→ Swyddog Cynnwys Digidol</p> <p>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</p> <p>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</p> <p>→ Rheolwr Partneriaethau</p> <p>→ Swyddog</p>

		gydag Einir PG → 5ed - Yr Ysgwrn - diwrnod gweithgaredd Nadolig i'r teulu a noson Carol → Rhagfyr 5ed: Diwrnod Pridd y Byd → Rhagfyr 5ed: Diwrnod Rhyngwladol Gwirfoddolwyr		Partneriaeth yr Wyddfa
--	--	---	--	---------------------------

**Gweithgareddau TH Dolgellau (dyddiadau heb eu gadarnhau hyd yma oherwydd Covid):**

1. Arddangosfeydd rheilffordd model Dolgellau.
2. Bydd yr ap yn cael ei ddatblygu ymhellach i gynnwys nodweddion ychwanegol.
3. Parhau i werthu taflen llwybrau treftadaeth y Dref a chardiau post cysylltiedig mewn siopau, gwestai a gwestai bach lleol.
4. Sioeau Ffordd ac arddangosfeydd i'w cynnal yn y Llyfrgell Rydd.
5. Prosiect celf / bwrdd ddehongli Treftadaeth Dolgellau.
6. Taflen ynghylch amddiffyn nythod wenol syd yn nythu yn adeiladau'r dref. Bydd Cangen Meirionnydd o wirfoddolwyr NWWT yn arwain ar y prosiect gyda TH Dolgellau yn ariannu cyhoeddiad y daflen.
7. Prosiect hanes tai. Prosiect ymchwil yn ymwneud â hanes adeiladau unigol yng nghanol y dref. Ymgysylltu ag ysgolion a grwpiau lleol. Potensial i gyhoeddi llyfr yn seiliedig ar y canfyddiadau - i'w ariannu gan TH Dolgellau.

## 2022-2026 Cynllun Cynnwys a Gweithgaredd Blynyddol

BLWYDDYN	GWEITHGAREDDAU / PROSIECTAU	DIGWYDDIADAU A THEMÂU	CYNNWYS	SWYDDOG ARWEINIOL
<b>2022</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Datblygu negeseuon craidd a chynnwys o amgylch Rhinweddau Arbennig a thwristiaeth gynaliadwy.</li> <li>→ Adnewyddu byrddau gwybodaeth yr Wyddfa</li> <li>→ Peilot o Sgwrsio Byw ar y wefan</li> <li>→ Hyfforddiant cyfathrebiadau blynyddol</li> <li>→ Hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid blynyddol</li> <li>→ Adroddiad blynyddol ar Ddangosyddion Perfformiad i Aelodau</li> <li>→ Datblygu adran addysg ar y wefan yn cynnwys modiwlau fideo ar y Parc i ysgolion, yn ogystal â chynnwys y cynllun Llysgenhadon.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Eisteddfod Penllyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Teithiau cerdded lles a mapiau ar gyfer y wefan</li> <li>→ Adroddiad y Cadeiryddion (digidol)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Rheolwr Brand a Chynnwys</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>
<b>2023</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Arolwg Enw da</li> <li>→ Ail-ddylunio logo</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Adroddiad y Cadeiryddion</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Adroddiad blynyddol ar Ddangosyddion Perfformiad i Aelodau</li> <li>→ Adroddiad y Cadeiryddion (digidol)</li> <li>→ Adolygu byrddau gwybodaeth</li> </ul>		(digidol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>
<b>2024</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Adroddiad blynyddol ar Ddangosyddion Perfformiad i Aelodau</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Adroddiad y Cadeiryddion (digidol)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>
<b>2025</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Adolygu'r Strategaeth Cyfathrebu</li> <li>→ Arolwg Enw Da</li> <li>→ Adroddiad blynyddol ar Ddangosyddion Perfformiad i Aelodau</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Adroddiad y Cadeiryddion (digidol)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>→ Swyddogion Cyfathrebiadau</li> <li>→ Y Pennaeth Ymgysylltu</li> <li>→ Swyddog Partneriaeth yr Wyddfa</li> </ul>



# Atodiadau

# Atodiad 1: Gweithdrefnau'r Wasg a'r Cyfryngau


**FERSIWN TERFYNOL MEWN DATBLYGIAD**

## Atodiad 2: Adolygiad pwynt cyffwrdd 2020

AR GAEL AR GAIS


## Atodiad 3: Cyllideb

Mae'r siartiau isod yn nodi'r gwariant presennol ar staff ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu pur, yn ogystal â'r gwariant hwn yng nghyd-destun ehangach cyflogau'r Awdurdod.



**COMMUNICATION SALARY COSTS AS TOTAL OF ALL SALARIES (NOT INCLUDING PROJECTS)**

■ Communications ■ Other



<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	9 Mehefin 2021
<b>TEITL</b>	<b>STRATEGAETH GWIRFODDOLI 2021-2026</b>
<b>REPORT BY</b>	Swyddog Gwirfoddoli a Lles
<b>PWRPAS</b>	Er mwyn i'w fabwysiadu fel Strategaeth Gwirfoddoli Parc Cenedlaethol 2021-2026 newydd

## 1. CEFNDIR

Ym mis Tachwedd 2019 cymeradwyodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y cynllun gwaith corfforaethol, ac un o'r argymhellion oedd creu a datblygu Strategaeth gwirfoddoli gyda phwyslais newydd ar les.

Mae hyn yn cyd-fynd â dymuniad Llywodraeth Cymru i bobl groesawu a chael budd o iechyd ymarferol ac agweddau o les y gall y Parc Cenedlaethol ei ddarparu.

Ac felly, mae swyddogion wedi cynhyrchu strategaeth ar gyfer datblygiad gwirfoddoli sydd wedi ei atodi i'r adroddiad hwn (atodiad A).

Mae'r Strategaeth hefyd yn cyd-fynd â chanlyniadau A5 a B1 o Gynllun Eryri.

## 2. ADRODDIAD CYNNYDD

Dechreuodd y gwaith ar y strategaeth ynghlwm ym Mawrth 2020 gan adeiladu ar strategaethau blaenorol a chroesawu pwyslais newydd ar les fel sydd yn cael ei amlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cyfeirio at gylch gwaith economaidd a chymdeithasol yr Awdurdod sydd yn cael ei sefydlu ym Mawrth 2021.

Mae'n bwysig nodi bod y datblygiad o'r Strategaeth hon wedi cael ei hysgrifennu yn ystod cyfnod pandemic Cofid-19 sydd wedi dylanwadu ar rai agweddau o'r Strategaeth, gan fod y buddion o wirfoddoli a chael mynediad at Barciau Cenedlaethol wedi dod yn bwysig iawn i gymunedau Cymru.

Cyflwynwyd y strategaeth i'r aelodau i gael adborth ym mis Ebrill. Gweithredwyd y diwygiadau a awgrymwyd, ac mae'r strategaeth bellach yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod i'w mabwysiadu'n ffurfiol.

## **ARGYMHELLION**

I aelodau:

1. Cymeradwyo'r strategaeth gwirfoddoli ar gyfer mabwysiadu'n ffurfiol.

# STRATEGAETH GWIRFODDOLI

2021-2026





# Cynnwys

<b>Cynnwys</b>	<b>2</b>
<b>Cefndir</b>	<b>3</b>
<b>Buddion Gwirfoddoli</b>	<b>5</b>
<b>Ein Hegwyddorion</b>	<b>6</b>
<b>Y Strategaeth ar gyfer datblygu gwirfoddolwyr</b>	<b>7</b>
<b>Camau Gweithredu</b>	<b>9</b>
<b>Adolygu a Diweddaru</b>	<b>14</b>
<b>Atodiadau</b>	<b>Error! Bookmark not defined.5</b>

## **Covid 19:**

Ysgrifennwyd y strategaeth hon yn ystod cyfnod pandemig Covid 19 sydd wedi dylanwadu ar rai agweddau ar y strategaeth. Gan fod buddion gwirfoddoli o fewn Parciau Cenedlaethol wedi dod yn fwy a mwy pwysig i gymunedau Cymru yn ystod yr amseroedd hyn, byddwn yn ceisio bod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion sy'n dod i'r amlwg fel y bo'n briodol trwy gadw at bolisiau ac urddau Llywodraeth Cymru.

Mae hefyd yn realistig disgwyl y gallai fod rhywfaint o rwystr i gynnydd a gweithgareddau oherwydd cyfyngiadau Covid.

# 1. Cefndir

Mae cymunedau Eryri wedi datblygu traddodiad cryf o wirfoddoli ac mae hyn wedi'i wreiddio mor ddwfn fel nad yw llawer yn sylweddoli eu bod yn wirfoddolwyr mewn gwirionedd. Er enghraifft bob blwyddyn, mae nifer yr Eisteddfodau a gynhelir gymaint ag 17; mae 29 cangen o Merched y Wawr yn yr ardal ac 11 cangen o Sefydliad y Merched; 14 o grwpiau meithrin; 10 Aelwyd / Uwch Adran o'r Urdd a 14 Ffermwyr Ifanc. Cynhelir deuddeg Sioe Wledig bob blwyddyn ac mae yna 9 Papur Newydd Cymunedol; 5 Tîm Achub Mynydd, 3 gorsaf Sefydliad Achub Brenhinol Cenedlaethol (RNLI), 2 gangen o Ramblers Cymru a 70 o Glybiau Chwaraeon Awyr Agored ym Mharc Cenedlaethol Eryri - pob un yn dibynnu ar y gwaith a wneir gan wirfoddolwyr.

Yn ogystal, mae yna nifer o elusennau cenedlaethol yn gweithredu yn Eryri - o ran cadwraeth a threftadaeth, mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol bresenoldeb sylweddol ; mae hefyd nifer o sefydliadau cadwraeth a sefydliadau eraill fel Cymdeithas Eryri, Coed Cadw; RSPB; Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru ac ati. Eto, mae symudiadau a sefydliadau eraill fel Cymorth i Fenywod, y Groes Goch, Ambiwlans St Johns, Cymorth Gofalwyr, Hafal, Cymdeithas Alzheimers, Age Cymru ac ati, i gyd yn dibynnu ar gyfraniadau sylweddol gan wirfoddolwyr i gyflawni eu nodau a'u hamcanion.

Yn wahanol i nifer o Barciau Cenedlaethol eraill, nid oedd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri draddodiad cryf o weithio'n uniongyrchol gyda gwirfoddolwyr. Hyd at y blynyddoedd diwethaf roedd ein prif berthynas yn ymwneud â Chymdeithas Eryri - ac mae'r APC yn gweld gwerth yn ac yn gwerthfawrogi'r berthynas gref a chydweithredol hon. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o'r staff sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr yn perthyn i'r Gwasanaeth Wardeiniaid, ac hefyd Yr Ysgwrn sydd yn dibynnu ar wirfoddolwyr i weithio ar y safle. Y nod yw ymestyn y defnydd o wirfoddolwyr i bob adran arall yn yr Awdurdod. I'r perwyl hwn, bydd angen cynnal trafodaethau a dyrannu adnoddau i alluogi hyn.

Mae datblygu a hyrwyddo gwirfoddoli wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a ddaeth i rym yn 2015. Mae cynllun 5 ffordd i lesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru (GIG) yn gysylltiedig â gwirfoddoli gan ei fod yn rhoi cyfle i bobl gysylltu â phobl yn y gymuned, bod yn actif, dysgu rhywbeth newydd, rhoi amser i helpu eraill a chymryd sylw. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ar y budd y gall gwirfoddoli gael ar iechyd meddwl.

Daeth Deddf yr Amgylchedd (2016) i rym, sy'n adlewyrchu'r gwerthoedd a fynegir yn y Ddeddf Llesiant ac sy'n cynnig arweiniad ar reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd gweithio rhyng-gysylltiedig sy'n sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r amgylchedd, yr economi a'n cymunedau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn dod i rym Mawrth 2021. Nod y Ddyletswydd yw annog y broses o wneud penderfyniadau tecach, gan sicrhau bod gan y strategaeth ganlyniadau cyfartal i'r rhai sy'n profi anghydraddoldebau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol.

Wrth weithredu'r strategaeth wirfoddoli byddwn yn gweithio yn unol â'r ddeddfwriaeth uchod a phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Mae gweithgaredd gwirfoddol yn hanfodol i ddatblygu llawer o elfennau a nodwyd yng Nghynllun Eryri. (Cynllun Rheoli statudol y Parc Cenedlaethol 2020-25). Mae'r Strategaeth wedi'i osod i gyd-fynd halinio â chanlyniadau \*A5 a \*B1 o Gynllun Eryri.

\* Allbwn A5: Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am gynllun tir, cynefinoedd, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol.

\* Allbwn B1: Bod y Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles.

## 2. Buddion Gwirfoddoli

- Gall gwirfoddoli ddarparu ystod eang o fuddion gan gynnwys cynnydd mewn cyflogadwyedd, gwell iechyd a lles, a rhyngweithio cymdeithasol.
- Gall gwirfoddolwyr fod yn gaffaeliad mawr i unrhyw sefydliad. Maent yn cyfrannu amser, egni a thalentau a gallant hefyd ennyn brwdfrydedd, darparu sgiliau newydd a gwella ymgysylltiad cymunedol a gallant fod yn llysgenhadon effeithiol i'r Awdurdod.
- Gall gwirfoddoli roi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith. Mae prosiect Wardeiniaid yr Wyddfa eisoes yn sicrhau bod dysgwyr Cymraeg yn cael eu paru â siaradwyr Cymraeg wrth iddynt gyflawni eu rolau gwirfoddoli.
- Gall gwirfoddoli i'r Awdurdod wella dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol a'i bwrpasau, ac fod yn ffordd dda o ymglyfarwyddo'n well ag Eryri a dod o hyd i ffyrdd newydd o fwynhau ei Rhinweddau Arbennig.
- Mae gwirfoddoli yn gyfle i ddatblygu cysylltiadau â chymunedau lleol, sy'n golygu gallen gefnogi'r cymunedau lleol lle bo angen.

### **Rhesymau'r Awdurdod dros gynnwys gwirfoddolwyr, yn ei waith yw:**

- er mwyn rhoi cyfleoedd i unigolion a grwpiau o bobl wneud gwahaniaeth, trwy eu sgiliau personol, eu diddordebau a'u brwdfrydedd, i gadwraeth a gwella Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol yn y tymor hir ac er mwyn i'r cyhoedd eu deall a'u mwynhau.
- cynnig persbectif newydd, ffordd newydd o gael mynediad i'r Parc Cenedlaethol, fel y gall pobl sydd wedi coleddu'r ased cenedlaethol hwn ers amser maith roi rhywbeth yn ôl, tra gall y rhai nad ydynt wedi ei ddarganfod eto ddod o hyd i ffyrdd newydd o brofi ei Rinweddau Arbennig.
- galluogi / annog gwirfoddolwyr i ;
  - ◆ ddatblygu sgiliau, gwybodaeth neu diddordebau a magu hyder i chwarae rhan mwy gweithredol yn eu cymuned eu hunain.
  - ◆ datblygu a dilyn mentrau drostynt eu hunain a'u cymunedau, lle byddai'r rhain yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol, gan ychwanegu at ansawdd eu bywyd eu hunain
  - ◆ Rhannu eu gwell dealltwriaeth amgylcheddol gyda cynulleidfa ehangach
  - ◆ mwynhau gweithgareddau diogel, hygyrch a gwerth chweil ac annog a chefnogi eu dinasyddiaeth a'u datblygiad personol.

### 3. Ein Hegwyddorion

#### **Mae cyfranogiad gwirfoddolwyr yn cael eu tanategu gan yr egwyddorion canlynol**

##### **Amgylchedd cadarnhaol a chefnogol i wirfoddolwyr.**

Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i drin gwirfoddolwyr yn deg ac i sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i hwyluso ein gwaith, megis talu costau teithio, amser staff ac ati. Bydd yr Awdurdod yn sicrhau diogelwch gwirfoddolwyr trwy sicrhau bod mesurau digonol fel asesiadau risg ar waith a bod gwirfoddolwyr a staff yn dilyn rheoliadau iechyd a diogelwch yr Awdurdod. Byddwn yn sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn cael cefnogaeth a goruchwyliaeth addas. Mae gweithgaredd gwirfoddol yn ffurf gadarnhaol o hamdden; bydd yr Awdurdod yn helpu gwirfoddolwyr i gael boddhad, mwynhad a datblygiad personol, gan ddarparu'r hyfforddiant i'w galluogi i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

##### **Bod staff a gwirfoddolwyr yn gyfforddus ac yn hyderus i weithio ochr yn ochr â'u gilydd.**

Dylai gwirfoddolwyr ategu a chefnogi staff cyflogedig ac ni ddylid eu defnyddio i gymryd lle staff taledig neu i danseilio eu cyflog na'u hamodau gwasanaeth. Dylai cyfranogiad gwirfoddolwyr fod o fudd i'r ddwy ochr - lle mae gwirfoddolwyr yn ennill profiad yn y sector a lle gallant ategu a chefnogi gwaith staff y PC. Er mwyn prif ffrydio gwirfoddoli yng ngwaith yr Awdurdod, bydd yr Awdurdod yn ychwanegu gweithio gyda gwirfoddolwyr at ddisgrifiad swydd yr holl staff lle mae hyn yn briodol. Bydd yr Awdurdod yn cydnabod yn gyhoeddus ei werthfawrogiad o'r cyfraniad a wneir gan wirfoddolwyr e.e. trwy rannu straeon teithiau gwirfoddoli a threfnu digwyddiad blynyddol i ddatlu eu cyfraniad.

##### **Rolau amrywiol i bobl amrywiol.**

Bydd yr Awdurdod yn ymrwymedig i ddefnyddio dulliau teg a chynhwysol o ddenu gwirfoddolwyr a sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn adlewyrchu'r gymuned ehangach. Rydym yn ymdrechu i ddatblygu amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli i alluogi pobl o'r cymunedau lleol ac o grwpiau a chymunedau nad ydynt wedi cymryd rhan yng ngwaith gwirfoddol yr Awdurdod o'r blaen i wneud hynny. Rhoddir anogaeth i bobl o gymunedau lleol a chan grwpiau a chymunedau nad ydynt, o'r blaen, wedi bod yn rhan o weithgaredd gwirfoddol gyda'r Awdurdod. Bydd gwirfoddolwyr yn gallu cyfrannu at bob agwedd o'n gwaith - nid oes cyfyngiad ar y sgiliau a'r arbenigedd y gall gwirfoddolwr eu cynnig.

# Y Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr

## 4.1 Ein Gweledigaeth

**Darparu ystod eang o rolau a chyfleoedd gwirfoddoli ysgogol a gwerth chweil i gymysgedd amrywiol o bobl a all weithio ochr yn ochr â staff yr Awdurdod i gyflawni ein pwrpasau.**

Pwrpasau statudol yr Awdurdod yw:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol;
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau Rhinweddau Arbennig yr ardal.

Wrth ddilyn y ddau bwrpas hyn, rhaid i'r Awdurdod geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol yn y parc cenedlaethol.

## 4.2 Canlyniad

**Canlyniad 1** - Darparu ystod amrywiol o gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl o bob gallu

**Canlyniad 2** - Ehangu gweithio mewn partneriaeth trwy wirfoddoli yn drawsadrannol ac yn allanol gyda phartneriaid

**Canlyniad 3** - Sefydlu ymrwymiad lefel uchel gan wirfoddolwyr sy'n helpu i gyflawni ein dibenion craidd a'n hamcanion corfforaethol

**Canlyniad 4** - Datblygu seilwaith priodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr

## 5. Y Camau Gweithredu

*Sefydlir llinell sylfaen ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) yn 2021 ac yna gosod targedau wedi hynny.*

<b>Canlyniad a Rhagwelir</b>	<b>Trosolwg o'r gweithredoedd</b>	<b>Targed/DPA</b>
C1 - Darparu ystod amrywiol o gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer pobl o bob gallu	Creu cyfleoedd a mentrau cefnogi sy'n galluogi pobl ifanc, anabl a phobl sy'n cael eu tangynrychioli i wirfoddoli.	Nifer o wirfoddolwyr (gan gynnwys ffigyrau penodol ar grwpiau targed)
	Penodi gwirfoddolwyr â rolau penodol a darparu hyfforddiant yn ogystal â digwyddiadau gwirfoddoli i bobl sy'n methu ymrwymo i rotas rheolaidd.	Nifer o wirfoddolwyr
	Sefydlu rolau gwirfoddoli newydd mewn meysydd eraill o fewn y PC ar wahân i ardal yr Wyddfa e.e. Wardeiniaid Patrol ardal ddeheuol. Bydd y recriwtio yn dechrau yn 2021.	Nifer y diwrnodau gwirfoddoli a gwirfoddolwyr yn ôl lleoliad daearyddol eang
	Mwy o grwpiau gwirfoddol mewnol ar gyfer: Bioamrywiaeth, Awyr Dywyll, Prosiectau Cadwraeth (LIFE, Carneddau) a phrosiectau eraill yn y dyfodol.	Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran / prosiect
	Bydd Yr Ysgwrn yn dyblu nifer y gwirfoddolwyr o 15 i 30 trwy gynnal ffeiriau gwirfoddoli a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a hefyd trwy hysbysebu rolau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn papurau lleol.	Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran / prosiect



	Parhau i gynnis y Cynllun Ceidwad Ifanc i bobl ifanc 14-16 oed. Darperir cefnogaeth a chngor ar draws y sefydliad i alluogi swyddogion i drefnu a rheoli cyfleoedd gwirfoddoli.	Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol
	Er mwyn hyrwyddo gwirfoddoli gan aelodau a staff, byddwn yn trefnu 2 ddiwrnod gwirfoddoli ar gyfer staff ac aelodau bob blwyddyn. Bydd gan bob aelod o staff yr hawl i wirfoddoli hyd at bymtheg awr y flwyddyn ar gyfer adrannau eraill yn yr Awdurdod.	Nifer y diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer staff
C2 - Ehangu gweithio mewn partneriaeth trwy wirfoddoli yn drawsadrannol ac yn allanol gyda phartneriaid	Datblygu system strwythur a phroses ar gyfer defnydd trawsadrannol o wirfoddolwyr a phrosiectau gwirfoddol e.e. cefnogi'r adran Cadwraeth ac Amaeth	Mae strwythur a phrosesau wedi'u sefydlu a'u hyrwyddo'n dda yn fewnol.
	Datblygu ac annog gweithio gyda grwpiau a noddir yn gorfforaethol ar brosiectau sydd o fudd i'r naill a'r llall. Mae gwirfoddoli corfforaethol yn faes sydd â'r potensial i wirfoddoli dyfu cryn dipyn ac ar gyfer cynhyrchu incwm. Bydd yr arian yn caniatáu i ni ail-fuddsoddi mewn gwirfoddoli gan y byddwn mewn gwell sefyllfa i gyflenwi PPE a gwisg i wirfoddolwyr.	Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn diwrnodau gwirfoddol corfforaethol
	Parhau i weithio gyda Chymdeithas Eryri a'r Bartneriaeth Awyr Agored i annog mwy o wirfoddoli i gefnogi pwrpasau'r Parc Cenedlaethol (a phartneriaid eraill fel sy'n briodol).	Adroddiad naratif ar gyflawni hyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol.
	Sicrhau o leiaf 2 ddiwrnod gwaith gwirfoddol gyda Chymdeithas Eryri bob mis.	Nifer y diwrnodau gwirfoddoli
	Cydweithio â'r Bartneriaeth Awyr Agored ar ddiwyddiadau gwirfoddoli gyda grwpiau ysgol, teuluoedd ifanc, grwpiau Adra, Cynllun Dug Caeredin, cynlluniau ad-dalu cymunedol, cynlluniau dychwelyd i'r gwaith, gwasanaeth ieuenctid Gisda, Mind Cymru.	Nifer y diwrnodau gwirfoddoli

	Byddwn yn cydweithredu'n strategol â sefydliadau eraill sy'n defnyddio gwirfoddolwyr cadwraeth yn Eryri er mwyn rhannu arfer dda, hyfforddiant ac ati.	Nifer y diwrnodau gwirfoddoli
	Ymchwilio i gyfleoedd gyda phartneriaid i drefnu diwrnodau hyfforddi achrededig megis adnabod rhywogaethau a daeareg er mwyn uwchsgilio gwirfoddolwyr.	Nifer y digwyddiadau hyfforddi a nifer wedi'u hyfforddi
C3 - Sefydlu ymrwymiad lefel uchel gan wirfoddolwyr sy'n helpu i gyflawni ein dibenion craidd a'n hamcanion corfforaethol	Byddwn yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws ardal y Parc Cenedlaethol - rhai am un diwrnod yn unig, a bydd eraill angen ymrwymiad dros nifer o oriau bob mis gan wirfoddolwyr. Bydd ystod amrywiol o weithgareddau sy'n addas ar gyfer ystod eang o wirfoddolwyr, o weithgareddau gwirfoddol actif i gyfleoedd sy'n addas i'r rhai sy'n llai symudol.	Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol
	Cefnogi'r Gwasanaeth Wardeiniaid i ddefnyddio gwirfoddolwyr. Mae'r Gwasanaeth Wardeiniaid wedi bod yn allweddol i wirfoddoli, rheoli Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa a threfnu a rheoli tasgau gwaith. Mae'r ffordd y mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei weinyddu a'i gefnogi yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad i'r gwasanaeth gwirfoddol yn llwyddiannus. Gyda mwy o aelodau staff yn cael eu recriwio i ymuno â'r gwasanaeth Wardeiniaid mae'n debygol y bydd mwy o gapasiti i wirfoddoli o fewn APCE wrth symud ymlaen.	Nifer y diwrnodau gwirfoddoli yn ôl adran / prosiect a lleoliad daearyddol
	Wardeiniaid Gwirfoddol yn ymgymryd â mwy nag un rôl, gan gynorthwyo o bosibl gyda gweithgareddau ymgysylltu i gynorthwyo teithiau cerdded dan arweiniad y PC pan sefydlir rhaglen newydd.	Nifer y gwirfoddolwyr yn ôl adran

	Cynorthwyo gwirfoddolwyr sydd wedi gwasanaethu ers cyfnod hir yn eu datblygiad personol er mwyn cyflawni elfennau ar gyfer Cymwysterau Safonau Cenedlaethol. Cynnig ystod o fodiwlau Craidd Elms fesul achos e.e iechyd a diogelwch, diogelwch tân, cymorth cyntaf, trin â llaw, ymsefydlu â'r Parc Cenedlaethol, a diogelu.	Nifer y digwyddiadau hyfforddi a nifer wedi'u hyfforddi
C4- Datblygu seilwaith priodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr	Defnyddio dulliau recriwtio effeithiol er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o bobl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Conwy a grwpiau diddordeb arbennig eraill.	Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol
	Datblygu proses recriwtio a sefydlu gadarn. Bydd hwn yn ymdrin â phecyn cyflwyno sy'n ymdrin â phob agwedd ar wirfoddoli yn ogystal â chofrestru (gorfodol) yn y Cynllun Llysgenhadon a modiwlau.	Mae'r pecyn cyflwyno wedi'i ddatblygu. Mae'r holl wirfoddolwyr newydd a phresennol wedi derbyn pecyn cyflwyno.
	Marchnata ein cyfleoedd gwirfoddoli trwy ddefnyddio'r dulliau canlynol; rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn Canolfannau Gwirfoddoli lleol; manteisio ar ddigwyddiadau cyhoeddus er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at y cyfleoedd gwirfoddoli; sefydlu tudalen 'cysylltu â ni' ar wefan newydd yr Awdurdod, gan roi gwybodaeth am wirfoddoli gyda'r Awdurdod; rhannu delweddau o weithgareddau gwirfoddoli trwy'r cyfryngau cymdeithasol ynghyd â gwybodaeth ar sut i gymryd rhan.	Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli.  Mae tudalennau gwirfoddoli wedi'u sefydlu ar wefan newydd.
	Parhau i gynnwys diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth am wirfoddoli mewn atodiadau / erthyglau mewn cyhoeddiadau ac adroddiadau, datganiadau i'r wasg, erthyglau sy'n	Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol

	<p>dathlu a diolch i wirfoddolwyr, hysbysebion a deunydd printiedig yn y Canolfannau Ymwelwyr ac ati.</p>	
	<p>Hefyd, er mwyn sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol â mudiadau sy'n gweithio gyda grwpiau difreintiedig, pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Yn yr un modd byddwn yn targedu ysgolion, colegau a chlybiau perthnasol wrth annog pobl ifanc i wirfoddoli.</p>	<p>Nifer y gwirfoddolwyr a diwrnodau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol</p>
	<p>Ar hyn o bryd rydym yn defnyddio 'Sign Up' i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli i'r Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa. Rydym wedi cyflwyno system ar-lein newydd o'r enw Better Impact ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr Caru Eryri. Os bydd yn gweithio yn llwyddiannus byddwn yn edrych ar ddefnyddio'r system ar draws prosiectau gwirfoddoli y Parc.</p>	<p>System rheoli gwirfoddolwyr newydd wedi'i sefydlu.</p> <p>Defnyddir system rheoli gwirfoddolwyr i fesur ac adrodd ar DPA.</p>

## 6. Adolygu a Diweddaru

**Bydd yr Awdurdod yn adolygu effeithiolrwydd y Strategaeth bob 3 blynedd.**

### **Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod wedi llwyddo?**

- Bydd llinell sylfaen yn cael ei gosod yn 2021-22 ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)s a nodir yn adran 5, ac adroddir arni bob blwyddyn wedi hynny.

# Atodiadau

## Atodiad: Polisiâu a Gweithdrefnau Perthnasol

### YMARFER

Mae'r nodiadau canlynol yn ymwneud ag agweddau allweddol mewn perthynas â chyfranogiad gwirfoddolwyr.

### Hyrwyddo gwirfoddoli

**Gellir rhoi' r cyfleoedd canlynol ar waith i hyrwyddo gwirfoddoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, lle bo hynny'n ddymunol ac yn briodol:**

- Rhoi sylw yng nghyhoeddiadau ac adroddiadau'r Awdurdod, a gwefan yr Awdurdod, gan roi gwybod am gyfleoedd cyffredinol a phenodol gydag adnodd ar-lein i fynegi diddordeb
- Rhoi hysbysiadau a deunyddiau printiedig mewn Canolfannau Croeso a chanolbwyntiau lleol eraill
- Cyhoeddi datganiadau i'r wasg ac atodiadau sy'n dathlu cyflawniadau a gwasanaethau gwirfoddol
- Gosod byrddau 'A' mewn safleoedd gwaith a digwyddiadau cyhoeddus lle mae'r Awdurdod yn cael ei gynrychioli
- Siarad â gwirfoddolwyr profiadol sy' n frwdfrydig
- Cysylltu â sefydliadau defnyddwyr a grwpiau diddordeb arbennig a chydweithio â hwy
- Cysylltu â chanolfannau gwirfoddoli lleol
- Rhoi gwybod am wefannau ac asiantaethau eraill sy'n hyrwyddo gwirfoddoli

### Recriwtio

**Bydd y broses recriwtio yn cynnwys y camau canlynol, fel arfer;**

1. Derbyn datganiad o ddiddordeb cyffredinol trwy lythyr, galwad ffôn neu e-bost
2. Anfon gwybodaeth bellach am y Parc Cenedlaethol, gwaith yr Awdurdod a chyfleoedd gwirfoddoli presennol / arfaethedig
3. Derbyn ffurflen gais wedi'i chwblhau

4. Cyfarfod ag aelod o staff APCE - mae' r trafodaethau' n cael eu strwythuro bob amser ac yn cael eu hanelu at gytuno ar y ffordd orau i wirfoddolwyr arfaethedig ddefnyddio eu profiad, eu harbenigedd neu eu hamser i helpu'r Awdurdod, eu cymuned neu gorff priodol arall a gwireddu eu potensial eu hunain.

## **Cyfleoedd Cyfartal**

Er mwyn sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb wrth wirfoddoli, bydd yr Awdurdod yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bobl ifanc - yn enwedig i bobl ifanc lleol a'r rheini sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau sy'n hyrwyddo hunan ddatblygiad a bod yn ddinasyddion da
- Yn lle gosod terfyn oedran, bydd barn y gwirfoddolwyr yn cael ei ddefnyddio i benderfynu ar y gweithgareddau y mae ef neu hi'n cymryd rhan ynddynt
- Bydd cyfleoedd gwirfoddoli addas ar gael i bawb, waeth beth yw eu hiaith, ethnigrwydd neu ddiwylliant
- Gweithio gyda sefydliadau cynrychiadol ac unigolion i annog pobl ag anabledau i gefnogi gwaith yr Awdurdod ac i wasanaethu eu cymuned
- Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb i staff a gwirfoddolwyr perthnasol
- Gweithio gyda sefydliadau cynrychiadol ac unigolion i annog a galluogi pobl o gymunedau lleiafrifoel ethnig i gefnogi gwaith yr Awdurdod, a lle bo'n briodol, i wasanaethu eu cymunedau ar yr un pryd
- Ymdrechu i gael mynediad at fwy o weithgareddau gwirfoddol trwy gyfrwng trafndiaeth gyhoeddus
- Sicrhau nad yw gwirfoddoli i'r Awdurdod byth yn peryglu cymhwysedd gwirfoddolwr i gael lwfansau neu fudd-daliadau statudol
- Hyrwyddo cydweithio rhwng gwirfoddolwyr yr Awdurdod a phobl o gymunedau lleol
- Ymdrechu i alluogi pobl i wirfoddoli i Barc Cenedlaethol Eryri, hyd yn oed pan nad ydynt yn gallu rhoi o' u hamser oherwydd amgylchiadau personol

## **Sesiynau sefydlu a hyfforddiant**

Daperir unai sesiwn anwytho a hyfforddiant neu sesiwn friffio a goruwchyliaeth ddefnyddiol i bawb sydd yn cael eu derbyn fel gwirfoddolwr.. Mae hyn yn ddibynnol ar hyd y cyfnod gwirfoddoli a gofynion y weithgaredd. Mae' r dibenion ar gyfer y prosesau hyn fel a ganlyn:

- Rhoi dealltwriaeth o amcanion yr Awdurdod, y rheswm dros waith y gwirfoddolwyr a sut mae'n cyd-fynd â rhaglen gyffredinol yr Awdurdod
- Galluogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol
- Helpu gwirfoddolwyr i ddatblygu' n bersonol, i fwynhau gweithgareddau a' u hannog i barhau i wirfoddoli

### **Cytundebau Gwirfoddoli**

Bydd yr Awdurdod yn rhoi **Cytundeb Gwirfoddoli** anffurfiol i bob gwirfoddolwr, ar ffurf e-bost neu lythyr, gan nodi'r hyn y gall pob un ei ddisgwyl gan y llall, gan gynnwys, lle bo'n briodol, crynodeb o'r gwaith penodol y bydd y gwirfoddolwr yn ei wneud.

### **Cymorth a datrys problemau**

Bydd bob gwirfoddolwr yn cael cymorth a chynghor gan aelod o staff dynodedig a fydd hefyd yn eu helpu i ymdrin ag unrhyw broblemau posib. Gall gwahanol bobl gyflawni'r rôl fentora hon ar wahanol adegau pan fo' r person yn gwirfoddoli i' r Awdurdod.

Bydd unrhyw gŵyn yn erbyn aelod o staff y PC yn cael ei hystyried trwy Bolisi Sylwadau, Cwynion a Chanmoliaeth yr Awdurdod. Bydd unrhyw gŵyn yn erbyn gwirfoddolwr yn cael eu hystyried gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol a'r Pennaeth Personél, a fydd yn casglu' r 'dystiolaeth' berthnasol, yn cyfweld y person y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn (gyda chydymaith, os dymunir y person hwnnw), ac yn penderfynu a oes angen cymryd camau angenrheidiol, a pha rai os hynny.

### **Iechyd a Diogelwch**

Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod a'r codau ymarfer o ran gweithio diogel yn berthnasol i staff y PC, gwirfoddolwyr a myfyrwyr ar leoliadau gwaith (gan gynnwys “plant a phobl ifanc” ). Maent i gyd ar gael i'w harchwilio ym mhob un o sefydliadau parhaol yr Awdurdod.

### **Bydd pob gwirfoddolwr...**

- yn cael ei frifio ar faterion iechyd a diogelwch yn briodol o ran manyleb, fel rhan o'i raglen ymsefydlu / briffio
- (neu grŵp o wirfoddolwyr) yn cael pecyn cymorth cyntaf sy'n briodol ar gyfer gweithgaredd y dydd.



Bydd pob tasg a safle gwaith wedi bod yn destun asesiad risg. Bydd pawb sy'n goruchwylio gwirfoddolwyr wedi cael hyfforddiant ynghylch cynnal asesiadau o'r fath. Bydd cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddarparu ar gyfer sefyllfaoedd lle mae angen ychwanegu at ddillad awyr agored arferol y gwirfoddolwr neu lle gallai'r dillad gael eu baeddu neu eu difrodi wrth gael eu defnyddio.

## **Yswiriant**

Mae gwirfoddolwyr yn cael eu hyswirio gan yswiriant Damweiniau Personol yr Awdurdod wrth gyflawni tasgau y maent wedi cael hyfforddiant ar eu cyfer.

Nid oes yswiriant Damweiniau Personol ar gael ar gyfer gwirfoddolwyr anffurfiol neu achlysurol. Fodd bynnag, byddai yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr yr Awdurdod yn yswirio'r Awdurdod yn erbyn unrhyw hawliad am esgeulustod, lle dilynir y gweithdrefnau priodol.

Rhaid i unrhyw un sy'n gyrru wrth gyflawni busnes yr Awdurdod sicrhau ei fod wedi'i yswirio gan yr yswiriant (busnes) priodol. Yn unol â hynny, dylid darparu dogfennaeth i'r Awdurdod ymlaen llaw.

## **Costau**

Bydd costau teithio gwirfoddolwyr yn cael eu had-dalu:

- ar gyfradd a bennir yn flynyddol ar gyfer teithio mewn car, gyda thâl ychwanegol lle mae gwirfoddolwyr eraill yn cael eu cludo yn yr un car.
- yn llawn lle mae trafndiaeth gyhoeddus yn cael ei defnyddio.

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu had-dalu am gostau teithio (milltiroedd) perthnasol o fewn ffin y Parc Cenedlaethol, oni bai bod Pennaeth y gwasanaeth perthnasol wedi cytuno ar drefniant arall ymlaen llaw.

Bydd APCE yn ad-dalu costau rhesymol eraill lle cytunir â'r aelod staff perthnasol.

## **Cysylltiadau Staff / Gwirfoddolwyr**

Bydd y cyfnod ymsefydlu ar gyfer yr holl staff newydd yn cynnwys sesiwn frifio ar y cymorth gwirfoddol presennol ac arfaethedig sy' n cael ei roi ar waith yr Awdurdod, gyda thrafodaeth ar gyfleoedd i roi cymorth gwirfoddol i waith y swyddog newydd, ac eithrio lle cytunir bod hynny' n amhriodol. Anogir aelodau staff i ystyried gwirfoddolwyr fel cydweithwyr.

Bydd hyfforddiant ynghylch gweithio gyda gwirfoddolwyr, eu goruchwyllo neu eu cefnogi yn cael ei roi i aelodau staff a gwirfoddolwyr gyda'i gilydd ac yn ôl yr angen.

### **Hunaniaeth Awdurdod y Parc Cenedlaethol**

Mae gwirfoddolwyr profiadol a phobl eraill sy'n gweithio i Awdurdod y Parc Cenedlaethol am unrhyw gyfnod sylweddol yn cael crys polo, siaced â logo, bathodyn ag enw a cherdyn adnabod, neu rai o'r eitemau hyn, fel sy'n briodol. Dylai dillad eraill fod yn briodol ar gyfer cynrychioli'r Awdurdod, yn unol ag amodau gwaith ac yn ôl synnwyr cyffredin. Bydd dillad sy'n cael eu hystyried yn gyfarpar diogelu personol yn cael eu darparu ar gyfer sefyllfaoedd lle mae angen ychwanegu at ddillad awyr agored arferol y gwirfoddolwr neu lle gallai' r dillad gael eu baeddu neu eu difrodi trwy gael eu defnyddio.

### **Yr Iaith Gymraeg**

Bydd angen i wirfoddolwyr sy'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau rheng flaen ar ran yr Awdurdod naill ai fod yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu fod yng nghwmni siaradwr Cymraeg rhugl. Byddwn yn annog pobl nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg i wirfoddoli a dysgu'r iaith trwy gynnal sesiynau iaith.

### **Diogelu Plant**

Mae Polisi Diogelu Plant yr Awdurdod a'r asesiad risg priodol yn nodi ei fod yn ofynnol i wirfoddolwyr wneud cais am Ddatgeliad i' r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a fydd yn cael ei gyflwyno i' r Pennaeth Personél.

## **Ymddygiad a chyfrinachedd**

Yn gyffredinol, bydd gwirfoddolwyr yr Awdurdod yn dod ar draws gwybodaeth sensitif yn llai aml na' u cydweithwyr yn y PC. Fodd bynnag, ni ddylai gwirfoddolwyr ei chael hi' n anodd cadw at y disgwyliad eu bod yn trin gwybodaeth a roddir iddynt yn gyfrinachol, lle bo hynny' n briodol.

## **Diogelu Data**

Bydd data personol gwirfoddolwyr yn cael ei warchod, fel y disgrifir ym Mholisi Diogelu Data' r Awdurdod. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei gofrestru fel Rheolwr Data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac mae'n cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol diogelu data fel y nodir yn Neddf Diogelu Data 2018 (GDPR). Mae gan wirfoddolwyr hawl i dderbyn copi o'u data personol eu hunain trwy gyflwyno Cais Mynediad Personol.

<b>CYFARFOD</b>	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
<b>DYDDIAD</b>	9 Mehefin 2021
<b>TEITL</b>	<b>SAFONAU'R IAITH GYMRAEG</b>
<b>ADRODDIAD GAN</b>	Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer
<b>PWRPAS</b>	Adroddiad Monitro Safonau Iaith Gymraeg yr Awdurdod

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Ar 30 Medi 2015, cyflwynodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau y Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.
- 1.2 Peidiodd Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod â bod yn gymwys ar y 30ain o Fawrth 2016.
- 1.3 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei berfformiad yn erbyn y safonau yn unol â gofynion yr Hysbysiad Cydymffurfio.

## 2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 **Bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

- 3.1 Safonau'r Iaith Gymraeg: Adroddiad Monitro 2020/21.



## Safonau Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: Adroddiad Monitro 2020/21

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Ar y 30ain o Fedi 2015, cyhoeddodd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a oedd yn cadarnhau'r Safonau Iaith Gymraeg y mae'r Awdurdod yn ddarostyngedig iddynt.
- 1.2 Fel sy'n ofynnol bob blwyddyn, mae'r Adroddiad Monitro hwn yn edrych yn ôl dros y flwyddyn ariannol 2020-21, ac yn adrodd ar sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio gyda, ac wedi perfformio yn erbyn bob un o'r 162 o'r Safonau a osodwyd arno.
- 1.3 Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn cael ei gyflwyno i Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod ym mis Mehefin bob blwyddyn ar gyfer cael ei gymeradwyo, cyn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae cyhoeddusrwydd yn cael ei rhoi i'r Adroddiad Blynyddol trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod.
- 1.4 Y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer sydd gyda'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd dros weithredu'r safonau, a dylid cysylltu yn uniongyrchol trwy yrru e-bost at [Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru](mailto:Bethan.Hughes@eryri.llyw.cymru) neu drwy ffonio 01766 772530 i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn.

### 2. Crynodeb Gweithredol

- 2.1. Ar ddechrau 2020-21, fe aethom i mewn i gyfnod clo cenedlaethol, a oedd yn brofiad cwbl newydd, wrth i bandemig Covid-19 ymledu drwy'r byd. Roedd yr wythnosau cyntaf o gloi i lawr yn gyfnod o addasiad cyflym, wrth i'r rhan fwyaf o staff addasu i weithio gartref, gyda'r gweddill allan ar lawr gwlad yn cynghori'r cyhoedd ar y rheoliadau aros gartref. Mae cael gweithlu dwyieithog medrus iawn wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod yr amser hwn, gan sicrhau y gallem addasu ac ymateb yn gyflym i'r holl heriau a oedd yn ein hwynebu.
- 2.2 Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod wedi bod yn un o'r prif sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gan sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfathrebu'n gyflym ac yn effeithlon yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

- 2.3 O'r dechrau, bu'r Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau cyhoeddus eraill ledled gogledd orllewin Cymru i gyflwyno negeseuon clir a chyson a oedd yn atgyfnerthu rheoliadau Covid-19. Parhaodd hyn trwy gydol y flwyddyn, gyda phob newid i reoliadau Covid-19 yn creu ei heriau ei hun. Roedd cael staff cwbl ddwyieithog yn sicrhau nad oedd unrhyw oedi cyn ymateb i ofynion yr amryw o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy'n gweithredu mewn amgylchedd cyflym. Yn yr un modd, roedd cael staff dwyieithog yn sicrhau y gallem gynhyrchu arwyddion ar gau llwybrau a meysydd parcio yn gyflym yn fewnol, yn ogystal â negeseuon 'croeso yn ôl' pan gafodd y cyfyngiadau eu llacio. Roedd staff hefyd yn gallu ymateb ar unwaith i ymholiadau a chwestiynau a anfonwyd trwy e-bost ac a dderbyniwyd dros y ffôn trwy gydol yr amser hwn, a hynny yn newis iaith yr ymholydd.
- 2.4 Roedd y niferoedd digynsail o bobl a ddaeth i'r ardal yn ystod yr haf, yn enwedig o amgylch Yr Wyddfa, yn rhoi pwysau enfawr ar gymunedau lleol ac yn achosi problemau diogelwch y cyhoedd. Roedd y cynllun parcio rhag-archebu peilot a gyflwynwyd ym Mhen y Pass (fel un o'r elfennau allweddol i fynd i'r afael â'r broblem) wedi gorfodi staff i ddatblygu system fewnol bwrpasol yn gyflym gan ddefnyddio Eventbrite, gan nad oeddem yn gallu dod o hyd i system barcio ddwyieithog allanol oddi-ar-y-silff. Er bod y peilot, o safbwynt y cyhoedd, yn llwyddiant, roedd yr adnoddau dynol rownd y cloc a oedd yn ofynnol i roi'r system ar waith yn golygu ei bod yn anghynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Wrth symud ymlaen, dyma un o'r ddau rwystr i'r Awdurdod allu gweithredu ein holl wasanaethau yn Gymraeg yn y dyfodol - hynny yw, cael cyflenwyr i ddatblygu systemau TG dwyieithog ynghyd â'r gost o wneud hynny.
- 2.5 Ar ôl oedi cychwynnol, adferwyd swyddogaethau democrataidd yr Awdurdod yn llawn erbyn Mai 2020. Roedd yn hanfodol i'r Awdurdod allu cael platfform rhithiol cwbl weithredol a allai ddarparu ar gyfer cyfieithu ar y pryd, a chyflawnwyd hyn drwy ddefnyddio Zoom.
- 2.6 Er bod ein pwyllgorau yn weithredol, cafodd staff broblemau gyda chynnal cyfarfodydd rhithiol gyda rhai awdurdodau cyhoeddus eraill yn ystod y flwyddyn, gan fod y defnydd o Zoom wedi'i wahardd gan lawer o sefydliadau. Roedd y mater hwn yn heriol, gan fod defnyddio llwyfannau eraill yn golygu nad oedd yn bosib cael cyfieithu ar y pryd. Ar y cyfan, llwyddwyd i osgoi'r broblem hon, ac mae staff wedi parhau i gynnal cyfarfodydd partneriaeth trwy Zoom gyda chyfieithu ar y pryd ar gael pan fo angen.
- 2.7 Hysbysebwyd cyfanswm o 33 o swyddi newydd neu wag yn ystod y flwyddyn, gyda'r mwyafrif yn cael eu cyfweld yn rhithiol, tra bod rhai swyddi allanol yn cael cyfweiliadau maes. Cyflwynwyd fframwaith asesu sgiliau iaith newydd, a olygai fod pob swydd newydd neu wag yn cael ei hasesu a'i graddio o 0 i 5+ ar lefel y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol, yn y 4 categori o wrando, siarad, darllen ac ysgrifennu.

- 2.8 Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn, nododd Comisiynydd y Gymraeg y ffaith nad oedd y broses ymgeisio yn cynnig opsiwn i ymgeiswyr ofyn am gyfweliad yn Gymraeg, yn groes i ofynion y safonau. Nid yw'r Awdurdod wedi cynnwys yr opsiwn hwn, gan fod pob cyfweliad yn cael ei gynnal yn Gymraeg, fel y bu ein harferiad erioed.
- 2.9 Daethom i gytundeb i osod datganiad ar ddechrau'r broses ymgeisio, gan gadarnhau y bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal yn Gymraeg. Gofynnwyd hefyd i bob ymgeisydd raddio ei sgiliau iaith Gymraeg yn erbyn pob un o'r 4 categori fel y cwestiwn cyntaf ar y cais am swydd. Mae hyn wedi arwain at lawer o geisiadau anghyflawn ar ein system recriwtio, sydd wedi gadael mewn sawl achos ychydig iawn o ymgeiswyr addas i lunio rhestr fer ohonynt.
- 2.10 Wrth symud ymlaen, dyma'r ail rwystr i'r Awdurdod allu gweithredu ein holl wasanaethau yn Gymraeg yn y dyfodol - hynny yw, penodi staff sydd â'r sgiliau Cymraeg gofynnol.
- 2.11 I gloi, ar wahân i'r materion a nodwyd uchod, allan o'r holl gynnwrf a'r heriau cysylltiedig y mae'r pandemig wedi'u rhoi inni dros y flwyddyn ddiwethaf, nid ydym wedi nodi unrhyw effaith negyddol ar ein defnydd o'r Gymraeg yn fewnol nac yn allanol gyda'r cyhoedd. Mewn gwirionedd, mae'r ganran uchel o staff (95% ar 31/03/2021) sy'n gallu gweithio'n gwbl ddwyieithog wedi bod yr ased mwyaf gwerthfawr i'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn hynod hon.

### **3. Safonau Cyflawni Gwasanaeth**

- 3.1 Gohebiaeth (Safonau 1-7): Mae'r Awdurdod yn anfon gohebiaeth yn iaith ddewisol y derbynnydd, neu mewn achosion pan nad yw hyn yn hysbys, anfonir fersiwn ddwyieithog o'r ohebiaeth.
- 3.2 Pan anfonir gohebiaeth ddwyieithog, ymdrinnir â'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal drwy sicrhau eu bod yn ymddangos ochr yn ochr (pan fo hyn yn bosibl), gyda'r un ffont a maint yn cael eu defnyddio yn y ddwy iaith. Ar adegau prin pan gynhyrchir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn union yr un fath o ran ffont a maint, gan gynnwys manylion cyswllt, llofnodion ac ati.
- 3.3 Galwadau Ffôn (Safonau 8-22): Mae'r holl staff sy'n gweithio ym mhrif dderbynfeydd yr Awdurdod a'r Canolfannau Croeso yn gwbl ddwyieithog ac yn unol â hynny, yn gallu delio â phob ymholiad drwy gyfrwng y Gymraeg fel pwynt cyswllt cyntaf.
- 3.4 Nid oedd gan yr Awdurdod systemau ffôn awtomatig yn ystod y flwyddyn, ond cafodd un ei gosod ym mis Ebrill 2021. Yn arferol, mae neges wedi'i recordio ymlaen llaw ar gyfer galwadau a dderbynnir y tu allan i oriau gwaith neu ar gyfer y rhai sy'n ffonio ac yn cael llinell ffôn brysur. Mae'r neges sydd wedi'i recordio ymlaen llaw yn ddwyieithog ac mae'r neges yn y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo yn gyntaf.

- 3.5 Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, roedd holl adeiladau cyhoeddus yr Awdurdod wedi cau, ac nid oedd hi'n ymarferol bosib i drosglwyddo'r galwadau i'r prif dderbynfeydd i staff i'w hateb o gartref. Gosodwyd neges ddwyieithog ar y system yn ystod y cyfnod hwn.
- 3.6 Roedd galwadau i'r Canolfannau Gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo i aelod o staff dwyieithog a oedd yn ateb y galwadau o'r cartref yn ystod yr un cyfnod.
- 3.7 Pan fo cysylltiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng llinell ffôn uniongyrchol, mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i gyfarch y sawl sy'n ffonio gyda chyfarfodiad dwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf) neu gyda chyfarfodiad niwtral, gan sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.
- 3.8 Pan fo cysylltiad yn cael ei wneud drwy gyfrwng llinell ffôn uniongyrchol, mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i adael neges ddwyieithog ar eu peiriannau ateb, gyda'r neges yn y Gymraeg yn cael ei chwarae yn gyntaf.
- 3.9 Gan fod y rhan fwyaf o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, ymdrinnir gydag unrhyw alwadau gan siaradwyr Cymraeg gan y pwynt cyswllt cyntaf. O ran y staff nad ydynt yn gwbl abl i gynnal sgwrs yn y Gymraeg, byddant yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr yn ddi-oed.
- 3.10 Yn ystod y flwyddyn, roedd bron pob aelod o staff y swyddfa yn gweithio o'u cartrefi. Roedd llinellau ffôn uniongyrchol un ai wedi cael eu hail-gyfeirio i ffôn symudol neu ffôn tŷ neu roeddent fel arall yn cael eu gosod ar neges llais, ac roedd y negeseuon yn cael eu gyrru i liniadur yr aelod o staff. Roedd staff wedyn yn gallu ateb y galwadau allanol neu ffonio yn ôl o gartref.
- 3.11 Cyfarfodydd (Safonau 23-38): Rhaid i bob cyfarfod a drefnir gydag unigolyn gael ei gynnal yn iaith ddewisol yr unigolyn, a bydd y trefniant hwn yn parhau. Ar gyfer cyfarfodydd a drefnwyd i grŵp o unigolion, byddant yn cael eu cynnal yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei drefnu ar gyfer unrhyw rai di-Gymraeg sy'n bresennol (oni bai bod yr holl wahoddedigion yn ddi-Gymraeg, ac os felly, cynhelir y cyfarfod yn Saesneg).
- 3.12 Rhaid i bob cyfarfod cyhoeddus o'r Awdurdod gael ei gynnal yn y Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu cyfathrebu trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, a bydd y trefniant hwn yn parhau.
- 3.13 Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd pob cyfarfod cyhoeddus yn rhithiol trwy ddefnyddio Zoom, gan mae hwn yw'r unig feddalwedd sydd yn gallu cynnal gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oedd pwyllgorau'r Awdurdod, sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd arsylwi arnynt, wedi cael eu darlledu yn fyw nac ychwaith yn agored i'r cyhoedd gael ymuno'n rhithiol. Roedd hyn oherwydd bod materion technegol a diogelwch a brofwyd yn gynnar yn y pandemig gan awdurdodau cyhoeddus eraill wedi dangos bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu aflonyddu ar gyfarfodydd os caniateid mynediad iddynt i arsylwi.



- 3.14 Fodd bynnag, gobeithir yn ystod 2021-22 y bydd y cyhoedd yn gallu cael mynediad at Bwyllgorau byw fel arsylwyr, trwy sefydlu'r cyfarfodydd cyhoeddus fel gweminarau. Bydd aelodau o'r cyhoedd yn gallu cofrestru o flaen llaw i fynychu fel arsylwyr, a chan mai dull gweminar a ddefnyddir, ni ellir eu gweld ac ni allant gyfrannu at y cyfarfodydd.
- 3.15 Mater arall a brofwyd wrth gynnal cyfarfodydd gyda staff o awdurdodau eraill yn bennaf - er mwyn galluog i gyfieithu ar y pryd dwy-sianel weithio, mae'n rhaid i ddefnyddwyr gael mynediad i bob cyfarfod trwy ddefnyddio'r ap Zoom yn hytrach na thrwy'r wefan. Bu hyn yn broblemus i'r Awdurdod, gan fod rhai aelodau partneriaethol o sefydliadau eraill wedi methu mynychu cyfarfodydd, gan fod eu sefydliadau yn gwahardd iddynt gael mynediad at Zoom neu lawrlwytho'r ap ar eu systemau.
- 3.16 Mae pob cyhoeddusrwydd, deunyddiau ysgrifenedig ac unrhyw ddogfennaeth a gynhyrchir gan yr Awdurdod sy'n cael ei ddsbarthu mewn digwyddiadau cyhoeddus neu mewn cyfarfodydd yn gwbl ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.
- 3.17 Dogfennaeth Gyhoeddus (Safonau 40-51): Mae holl ddogfennau cyhoeddus yr Awdurdod, gan gynnwys ffurflenni dwyieithog yn dangos y Gymraeg yn gyntaf neu ar ochr chwith y ddogfen. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith. Ar adegau prin pan fydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn dogfennau ar wahân, mae brawddeg yn cael ei chynnwys ar y fersiwn Saesneg, yn nodi bod fersiwn Cymraeg ar gael.
- 3.18 Y Wefan, Apiau a Chyfyngau Cymdeithasol (Safonau 52-59): Mae gwefan ac apiau yr Awdurdod yn gwbl ddwyieithog gyda'r defnyddiwr yn gallu dewis iaith ar y dudalen gartref. Mae botwm togl ar bob tudalen ar y wefan y gellir ei ddefnyddio er mwyn cael mynediad at yr iaith arall. Mae pob tudalen yn cyfateb yn gyfan gwbl yn y ddwy iaith.
- 3.19 Mae gan yr Awdurdod fersiynau cyfatebol o'i gyfrifon Trydar a fersiwn ddwyieithog o'i dudalennau Gweplyfr. Mae pob neges gan yr Awdurdod yn cael eu hailadrodd yn union yr un fath yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar yr amrywiol safleoedd cyfyngau cymdeithasol, neu'n ddwyieithog mewn rhai achosion. Bydd unrhyw negeseuon a dderbynnir yn Gymraeg trwy gyfyngau cymdeithasol yn cael eu hateb yn y Gymraeg bob amser.
- 3.20 Yn ystod y flwyddyn, gwnaethpwyd defnydd helaeth o'r ystod o gyfrifon cyfyngau cymdeithasol sydd gan yr Awdurdod, fel ffordd o gyfathrebu negeseuon allweddol o ran diogelwch y cyhoedd a rheoliadau Covid-19, ynghyd â sut oedd y rhain yn effeithio gwasanaethau a chyfleusterau'r Parc Cenedlaethol, mewn ffordd sydyn ac effeithiol.
- 3.21 Yn ddealladwy, derbyniwyd nifer fawr o ymatebion i'r negeseuon hyn (negyddol a chadarnhaol) ynghyd â nifer o gwestiynau ac ymholiadau. Ymdrinniwyd â bob ymholiad a dderbyniwyd fel hyn gan y cyhoedd yn sydyn ac effeithiol, gyda'r ymateb yn cael ei rhoi yn yr un iaith â iaith y neges wreiddiol, yn ddi-eithriad.

- 3.22 Peiriannau Hunanwasanaeth (Safon 60): Mae pob sgrin gyffwrdd gwybodaeth electroneg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda'r gallu i ddewis yr iaith ar y sgrin gartref ac i newid yr iaith trwy ddefnyddio botwm togl ar bob un o'r tudalennau.
- 3.23 Mae peiriannau talu ac arddangos yr Awdurdod yn ein meysydd parcio yn gallu darparu gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ar beiriannau newydd, mae'r sgrin gartref gychwynnol yn rhoi'r dewis i barhau yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ac ar beiriannau sy'n hŷn (lle nad yw hyn yn bosib), mae'r iaith gychwynnol wedi ei rhagosod i'r Gymraeg.
- 3.24 Yn ystod haf 2020, daeth niferoedd digynsail o ymwelwyr i Eryri, a achosodd broblemau diogelwch cyhoeddus oherwydd parcio anghyfrifol o gwmpas Yr Wyddfa. Fel rhan o'r datrysiad, bu'n rhaid i'r Awdurdod gau'r maes parcio a sefydlwyd system rhag-archebu parcio ar gyfer 3 penwythnos fel peilot ym mis Awst 2020 ym Mhen y Pass. Hysbysebwyd hyn yn eang ynghyd â'r cyfleusterau parcio a theithio a oedd ar gael. Ar y pryd, darganfuwyd nad oedd y fath beth â system rhag-archebu tocynnau parcio 'oddi ar y silff' a oedd yn gallu gweithredu'n hollol ddwyieithog. Oherwydd y cyfyngiad amser i sefydlu rhyw fath o system, bu'n rhaid i swyddogion yr Awdurdod greu system dros dro trwy ddefnyddio Eventbrite ar gyfer rhag-archebu tocynnau parcio.
- 3.25 Er ein bod wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn am y system gan y cyhoedd, roedd hi'n amlwg o'r cychwyn cyntaf nad oedd hon yn system a oedd yn gynaliadwy i'r dyfodol. Roedd y feddalwedd rhag-archebu tocynnau yn anhyblyg ac yn golygu bod angen adnoddau dynol sylweddol a oedd yn gorfod ymestyn dros 24 awr y dydd er mwyn rheoli'r parcio. Bydd angen gwaith pellach i ddarganfod datrysiad cynaliadwy a chost effeithiol yn yr hirdymor.
- 3.26 Arwyddion (Safonau 61-63): Mae pob arwydd sy'n cael ei osod gan yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith.
- 3.27 Ar ddechrau'r cyfnod clo cyntaf, roedd rhaid cau nifer o lwybrau yn Eryri, ac ynghlwm â hynny roedd rhaid cynhyrchu arwyddion yn sydyn iawn a'u gosod ar bwyntiau mynediad i'r llwybrau hyn. Roedd yr arwyddion i gyd yn hollol ddwyieithog ac yn cydymffurfio â'r safonau arferol a osodir gan yr Awdurdod.
- 3.28 Gwasanaethau Derbynfya (Safonau 64-68): Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r holl staff sy'n gweithio yn y prif dderbynfeydd neu yn y Canolfannau Croeso yn gwbl ddwyieithog. Mae'r logo 'Iaith Gwaith' yn cael ei arddangos ym mhob derbynfa i ddangos bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ac mae gan bob un o staff y dderbynfa fathodynau 'Iaith Gwaith'.
- 3.29 Hysbysebion Swyddogol (Safonau 69-70): Pan fo'r Awdurdod yn cyhoeddi neu'n arddangos Hysbyseb Swyddogol maen nhw'n hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith

Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith.

- 3.30 Cynlluniau Grant (Safonau 71-75): Mae'r Awdurdod yn gweinyddu sawl cynllun grant, sef
- Cronfa Partneriaeth Eryri;
  - Grantiau ar gyfer atgyweirio adeiladau rhestredig sydd mewn perygl yn Eryri;
  - Grantiau adeiladau yn Nolgellau trwy gyfrwng Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau;
  - Cronfa Cymunedol y Carneddau sy'n cael ei ariannu gan Chronfa Treftadaeth y Loteri; ac
  - Cronfa Coedwigoedd Glaw Celtaidd sy'n cael ei ariannu gan Gronfa LIFE Undeb Ewropeaidd.
- 3.31 Mae'r holl ddogfennau, gan gynnwys y ffurflenni cais a'r nodiadau cyfarwyddyd yn gwbl ddwyieithog, ac mae'r ohebiaeth yn cael ei chynnal yn iaith ddewisol yr ymgeisydd neu'n ddwyieithog.
- 3.32 Yn ogystal, ar gyfer y grantiau hynny sydd ar gyfer prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, gosodir amodau ar y grant i sicrhau bod yr holl weithgareddau a dogfennaeth a ariennir gan y grantiau yn gwbl ddwyieithog.
- 3.33 Tendrau Cytundebau/ Contractau: Mae pob Hysbysiad Cyhoeddus fel Gwahoddiadau i Dendro neu ar gyfer Mynegi Diddordeb yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Maent hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan GwerthwchiGymru yn ddwyieithog, ac eithrio hysbysiau OJEU sy'n cael eu cyhoeddi yn Saesneg yn unig. OJEU (Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd) yw'r cyhoeddiad lle mae'n rhaid cyhoeddi pob tendr o'r sector gyhoeddus sydd uwchben trothwy ariannol penodol yn ôl deddfwriaeth yr UE. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn ymwybodol o'r sefyllfa, ac wedi cadarnhau gyda GwerthwchiGymru nad yw hyn yn mynd yn groes i unrhyw un o Safonau'r Gymraeg.
- 3.34 Mae'r holl geisiadau a dderbyniwyd yn Gymraeg wedi cael eu prosesu a'u trin yn yr un modd â'r ceisiadau yn Saesneg, a gohebir yn iaith ddewisol yr ymgeisydd neu'n ddwyieithog.
- 3.35 Hunaniaeth Gorfforaethol a Hyrwyddo Gwasanaethau (Safonau 81-83): Bu hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog ers y dechrau un, gyda'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb. Sicrhawn fod unrhyw newidiadau neu ail-frandio hunaniaeth gorfforaethol yn y dyfodol yn glynu at yr egwyddor sylfaenol hon.
- 3.36 Nid yw'r Awdurdod yn darparu'r un gwasanaethau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond yn hytrach yn cynnig gwasanaeth dwyieithog gydag un pwynt cyswllt. Mae unrhyw waith hyrwyddo'r gwasanaethau felly yn cael ei wneud yn ddwyieithog, i gyd fynd â hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod,

sy'n sicrhau fod yr iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb.

- 3.37 Cyrsiau Addysg (Safonau 84-86): Tan fis Mawrth 2020, roedd Plas Tan y Bwlch, Canolfan Astudiaeth yr Awdurdod, yn cynnig cyrsiau addysg gyhoeddus, a oedd yn destun i asesiad o'r angen i gynnig y cyrsiau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 3.38 Oherwydd pandemig Covid-19, bu rhaid canslo'r holl gyrsiau dydd a phreswyl yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 ynghyd â'r holl weithgareddau masnachol yn y Ganolfan Astudiaeth; gydag eithriad o ychydig o wythnosau yn yr Hydref pan gynigwyd llety Gwely & Brechwast yn unig yn y Ganolfan.
- 3.39 Yn ystod 2020-21, daeth yr Awdurdod i'r penderfyniad anodd i roi gorau i redeg Plas Tan y bwlch fel Canolfan Astudiaeth, gan nad yw rhedeg cyrsiau addysg gyhoeddus bellach yn ariannol gynaliadwy.
- 3.40 Y System Annerch Gyhoeddus (Safon 87): Mae unrhyw gyhoeddiadau dros y system annerch gyhoeddus yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, gyda'r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf.
- 3.41 Cwynion perthnasol i Gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth  
Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth.

#### **4. Safonau Gwneud Polisi**

- 4.1 Ffurio Polisi a'r Ymgynghori Cysylltiol (Safonau 88-93): Gyda phob polisi newydd\* sy'n cael ei ddatblygu (neu os yw polisi presennol yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau) ymgwymerir â phroses sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan o'r broses. Er nad yw'r iaith Gymraeg yn nodweddiadol warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'r Awdurdod wedi cynnwys yr iaith Gymraeg fel rhan o'r asesiad.  
*\*Mae Polisi yn cael ei ddiffinio yn ei gyd-destun ehangach i gynnwys cynlluniau a strategaethau.*
- 4.2 Bydd y broses sgrinio yn penderfynu a fydd y polisi arfaethedig yn cael, neu'n debygol o gael, effaith negyddol ar y Gymraeg neu ar allu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd yr asesiad hefyd yn nodi'r posibilrwydd i'r polisi arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar yr iaith naill ai drwy ei defnyddio neu ei hyrwyddo.
- 4.3 Os bydd y polisi arfaethedig yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus, bydd yr ymatebion sy'n dod i law yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynnal yr asesiad effaith. Bydd aelodau'r Awdurdod hefyd yn cael cyfle i graffu'r polisi arfaethedig ar wahanol adegau o'r broses. Os pennir bod effaith negyddol, yna cynhelir asesiad llawn o'r effaith ar

gydraddoldeb i bennu beth yw'r mesurau lliniaru sy'n angenrheidiol a phenderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r polisi ai peidio.

4.4 Dyfarnu Grantiau a Chomisiynu Ymchwil a Phrosiectau (Safonau 94-97): Mae'r angen i ystyried yr effaith (boed hynny'n negyddol neu'n gadarnhaol) ar yr iaith Gymraeg wedi cael ei integreiddio'n llawn i mewn i brosesau'r gronfa gomisiynu newydd, Cronfa Eryri. Bydd amodau ychwanegol o ran defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg, a sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg, yn parhau i fod yn rhan o ofynion y gronfa.

4.5 Yn ystod y flwyddyn, comisiynwyd yr ymchwil canlynol, un ai gyda chyllideb o Gronfa Eryri neu trwy grantiau penodol trwy ffynonellau eraill fel Llywodraeth Cymru neu mewn partneriaeth gyda chyrff eraill:

Arolwg Trigolion ac Ymwelwyr 2021;  
Arolwg Bioamrywiaeth: ac  
Ymchwil i'r Wyddfa fel parth di-blastig.

4.6 Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi  
Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Llundain Polisi.

## 5 **Safonau Gweithredu**

5.1 Ar 31 Mawrth 2021, roedd yr Awdurdod yn cyflogi 136 aelod o staff; mae 130 o'r rheiny'n gwbl ddwyieithog, sy'n cynrychioli 95%.

5.2 Defnyddio'r Gymraeg yn Fewnol (Safon 98): Ers iddo gael ei sefydlu, mae'r Awdurdod wedi sefydlu trwy arferiad a gweithrediad mai'r Gymraeg yw'r brif iaith gyfathrebu fewnol, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio fel bo'r angen. Mae'r staff yn ymwybodol bod unrhyw gyfathrebu ysgrifenedig cyffredinol (fel e-byst) sydd wedi'u hanelu at yr holl staff yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog.

5.3 Yn ystod y flwyddyn, mae mwyafrif y staff wedi gweithio yn barhaus o'u cartrefi. Yn ychwanegol at y ffordd arferol o gyfathrebu trwy e-byst a galwadau ffôn, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno MS Teams. Mae hyn wedi galluogi sgysiau rhithiol wyneb yn wyneb ynghyd â chyfarfodydd anffurfiol a ffurfiol. Felly, mae staff yr Awdurdod wedi gallu parhau i gynnal busnes cyffredinol yr Awdurdod fel arfer, er dan amgylchiadau newydd. Nid yw hyn wedi effeithio ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn fewnol.

5.4 Dogfennaeth Staff (Safonau 99-104): Mae gan yr Awdurdod bolisi cwbl dwyieithog yn ei le ar gyfer yr holl faterion personél. Mae hyn yn golygu bod pob dogfen sy'n ymwneud â chyflogaeth unigolyn yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog yn safonol a'i rhoi i bob aelod o staff. Mae unrhyw ohebiaeth sy'n cael ei hanfon allan o bryd i'w gilydd gan y gwasanaeth personél at aelodau unigol o staff hefyd yn cael ei pharatoi'n ddwyieithog.

- 5.5 Polisiâu Personél (Safonau 105-111): Mae pob polisi personél yn cael ei gynhyrchu yn ddwyieithog yn safonol.
- 5.6 Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu (Safonau 112-119): Mae croeso i staff ohebu trwy gyfrwng eu hiaith ddewisol. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ac ni fyddai unrhyw oedi cyn ymateb i ohebiaeth sy'n dod i law yn y naill iaith na'r llall. Mae pob gwrandawriad disgyblu neu apeliadau yn cael eu cynnal yn iaith ddewisol yr aelod o staff dan sylw, ynghyd â phob dogfennaeth a gohebiaeth berthnasol.
- 5.7 Meddalwedd Cyfrifiadurol (Safon 120): Mae meddalwedd Cysgliad wedi ei osod yn safonol ar bob cyfrifiadur a gliniadur staff, er mwyn gwirio sillafu a gramadeg yn y Gymraeg.
- 5.8 Mewnrwyd Staff ac Aelodau (Safonau 121-126): Ceir mynediad at y fewnrwyd drwy gyfrwng gwefan yr Awdurdod ac mae'r fewnrwyd hefyd yn gwbl ddwyieithog. Mae'r botwm togl ar frig y dudalen yn galluogi'r defnyddiwr i newid o Gymraeg i Saesneg neu fel arall.
- 5.9 Asesiad Sgiliau (Safon 127): Ceir data o'r asesiad sgiliau staff yn Atodiad 1.
- 5.10 Hyfforddiant (Safonau 128-133): Darperir cyrsiau hyfforddiant cyffredinol trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser lle bo'n bosibl. Yn ystod 2020-21, ni fynychodd unrhyw aelod o staff gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.
- 5.11 Anogir cyflogeion sy'n methu â chyfathrebu'n llawn yn y Gymraeg i fynychu cyrsiau a hyfforddiant Cymraeg, a gellir gwneud hynny yn ystod amser gwaith. Mynychodd 2 aelod o staff cyrsiau Cymraeg/gloywi iaith yn ystod y flwyddyn.
- 5.12 Llofnodion E-byst a Manylion Cyswllt (Safonau 134-135): Mae'r Awdurdod yn defnyddio bathodyn 'Iaith Gwaith' ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i'w osod fel rhan o'r llofnod e-bost. Mae'r holl fanylion cyswllt sy'n cael eu darparu fel rhan o'r llofnod yn hollol ddwyieithog, fel sy'n ofynnol yn y daflen 'Cyfathrebu'n Glir', yr arweinlyfr staff ar safonau gwasanaeth cwsmeriaid ac arddull safonol.
- 5.13 Swyddi Gwag a Recriwtio (Safonau 136-140): Yn ystod 2020-21, hysbysebwyd 33 swydd wag. Roedd bob un o'r 33 o swyddi yn nodi fod y Gymraeg yn hanfodol.
- 5.14 Datblygwyd fframwaith sgiliau iaith Gymraeg ar ddechrau 2020, sy'n graddio'r lefel sgil sydd ei hangen ym mhob swydd o 0 hyd at 5+ mewn 4 prif gategori, sef gwrandaw, siarad, darllen ac ysgrifennu. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn sgorio bob swydd wag gyda'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn cymedroli bob sgôr, cyn iddo fynd i'r Tîm Rheoli am ganiatâd terfynol. Cyn cyflwyno cais, mae ymgeiswyr nawr yn ymwybodol o'r union lefel o sgil sydd ei angen ar gyfer y swydd.

- 5.15 Mae pob hysbyseb recriwtio yn Gymraeg. Mae'r Awdurdod yn defnyddio Webrecruits i dderbyn a phrosesu ceisiadau, sy'n caniatáu i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau ar-lein. Mae'r holl ddogfennau ar gael yn ddwyieithog e.e. ffurflen gais, swydd ddisgrifiad, manyleb y person a'r ffurflen monitro cydraddoldeb. Cynhelir cyfweiliadau am swyddi yn y Gymraeg.
- 5.16 Yn ystod y flwyddyn, nododd swyddogion o'r swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nad oedd Safon 138 yn cael ei weithredu – *“Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweiliad neu'r dull arall o asesiad yn y Gymraeg.”*
- 5.17 Eglurwyd bod pob cyfweiliad yn cael ei gynnal trwy'r Gymraeg beth bynnag, a dyna pam nad oedd yr opsiwn yn cael ei gynnwys, oherwydd buasai'n awgrymu'r gwrthwyneb, sef bod opsiwn i gael cyfweiliad trwy'r Saesneg yn unig. Gyda chytundeb swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae'r Awdurdod wedi cynnwys nodyn ar ddechrau'r broses cyflwyno cais ar-lein sy'n datgan bydd y cyfweiliad yn cael ei gynnal trwy'r Gymraeg.
- 5.18 Oherwydd y cyfyngiadau a oedd mewn lle yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd cyfweiliadau swydd dros MS Teams gan yr Awdurdod. Yn ddibynnol ar y math o swyddi, cynhaliwyd cyfweiliadau maes am swyddi allanol hefyd yn ystod y cyfnodau tu allan i'r cyfnod clo llawn. Ni chafodd y newid yn y dull o gyfweild ar gyfer swyddi unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg.
- 5.19 Fel gyda phob gohebiaeth arall, mae'r llythyrau neu e-byst a anfonir at y rhai sy'n ymgeisio am swyddi i roi gwybod iddynt am ganlyniad eu cais yn cael eu hanfon yn yr iaith y cyflwynwyd y cais.
- 5.20 Arwyddion Mewnol ac Anerchiadau (Safonau 141-144): Mae pob arwydd sy'n cael ei osod gan yr Awdurdod yn hollol ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar yr ochr chwith. Mae'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, gyda'r un ffont a maint testun yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddwy iaith. Bydd unrhyw gyhoeddiadau dros system annerch fewnol yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, gyda'r cyhoeddiad Cymraeg yn gyntaf.
- 5.21 Cwynion yn ymwneud â Chydymffurfio â Safonau Gweithredu  
Yn ystod y flwyddyn ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu.

## **6 Safonau Hybu**

- 6.1 Hybu'r iaith Gymraeg (Safonau 145-146): Yn ystod 2016/17, mabwysiadwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg gan yr Awdurdod. Mae'r strategaeth yn cynnwys targed ar gyfer gweld 'cynnydd o 2% yn nifer y siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth Parc Cenedlaethol Eryri erbyn 2021'.
- 6.2 Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill o'r sector cyhoeddus yng Ngwynedd, yn bennaf trwy gyfrwng ei aelodaeth o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd & Môn.

## **7 Safonau Cadw Cofnodion a Safonau Atodol**

- 7.1 Cadw Cofnodion am Gydymffurfiaeth gyda'r Safonau (Safonau 147-176):  
Cynhyrchwyd dogfen o'r enw 'Safonau Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri', sydd ar gael yn swyddfeydd yr Awdurdod ac ar y wefan. Mae'r ddogfen yn amlinellu'r holl Safonau y mae'n rhaid i'r Awdurdod lynu atynt ac mae'n nodi sut y gall aelodau o'r cyhoedd gwyno ynghylch sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau neu unrhyw agwedd o'r gwasanaeth iaith Gymraeg a gynigir gan yr Awdurdod.
- 7.2 Mae'r Awdurdod wedi cadw cofnodion o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â'r Safonau, yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg.



## ATODIAD 1

### 1. Lefelau Sgiliau Staff - Trosolwg

Nifer a % y staff o fewn gwasanaethau'r Awdurdod sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl cyfarwyddiaeth			
	<b>Nifer y Staff</b>	<b>Nifer y Siaradwyr Cymraeg</b>	<b>%</b>
Prif Weithredwr	1	1	100%
Corfforaethol	93	91	98%
Cynllunio a Rheoli Tir	42	38	90%

